

Cynllun Gwella Rhan 2: Arolwg Blynyddol o Berfformiad 2014/5

Vale of Glamorgan Council, Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
www.valeofglamorgan.gov.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Arolwg Cyffredinol ar Berfformiad Cyngor Bro Morgannwg 2014/15.....	6
3. Ein Hamcanion Gwella'n fanwl	24
3.1 Gwella Sgiliau, Gwybodaeth a Chyfleoedd	24
3.2 Diogelu ein Plant a'n Pobl Ifanc Fregus.....	33
3.3 Helpu Pobl Hŷn i aros yn Annibynnol.....	41
3.4 Cynnal Cymunedau Egniol.....	50
3.5 Gwella Sgiliau, Gwybodaeth a Chyfleoedd	57
3.6 Cynnig Cymorth a Chyngor	63
3.7 Gwella Cyrhaeddiad a Phresenoldeb yn ein Hysgolion a'n Canolfannau Dysgu.....	70
3.8 Darparu Gwasanaeth Landlordiaid o Safon	85
4. Perfformiad Cyngor Bro Morgannwg ar Ddiwedd 2014/15: Dangosyddion Perfformiad a gesglir yn Genedlaethol	89
5. Compendiwm o weithgareddau ar y cyd	102

1. Cyflwyniad

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), y mae'n rhaid i ni gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn. Cynllun gwella blaengar sy'n egluro ein blaenoriaethau o safbwynt perfformiad (a adwaenir fel Amcanion Gwella) ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod yw'r ddogfen gyntaf. Adroddiad Blyneddol sy'n bwrw golwg dros berfformiad y Cynllun hwnnw yw'r ail ddogfen. Mae Cynllun Perfformiad Rhan 2: Arolwg Blyneddol ar Berfformiad 2014/15 yn pwysu a mesur ein llwyddiant o safbwynt gweithredu'r Amcanion Gwella yng [Nghynllun Gwella Rhan 1:Amcanion Gwella 2014/15](#) ac yn cael ei gyflwyno nid yn unig er mwyn i'n dinasyddion gael asesiad o'n perfformiad ond er mwyn cydymffurfio â'r gofyn cyfreithiol hwn.

Er y byddwn yn ymdrechu'n gyson i wella pob un o'n gwasanaethau bob blwyddyn yn unol â gofynion y Mesur, y mae ychydig o feysydd yr ydym am ganolbwyntio arnynt yn benodol er mwyn gallu eu gwella'n sylweddol yn gyflym. Yn ystod 2014/15 nodwyd wyth Amcan Gwella, ac y mae'r cynllun hwn yn adrodd yn fanwl ar ein cynnydd hyd yma o safbwynt gweithredu'r amcanion hynny.

Mae'r cynllun hefyd yn crynhoi perfformiad y Fro'n gyffredinol yn ystod 2014/15 a pherfformiad nifer o wasanaethau unigol yn ôl dangosyddion perfformiad cenedlaethol y bydd Llywodraeth Cymru ac Uned Data Llywodraeth Leol yn eu casglu a'u cyhoeddi bob blwyddyn. Mae crynodeb hefyd o'r hyn y bydd ein rheolyddion a'n trigolion yn ei ddweud amdanom; o'n cyllideb ar gyfer 2014/15 a'n cynnydd o safbwynt cydweithio â phartneriaid a gweithgareddau a wnaethom ar y cyd yn ystod 2014/15.

Mae ein Hamcanion Gwella'n adeiladu ar [Gynllun Corfforaethol 2013-17](#) sy'n egluro'r canlyniadau yr ydym am i'r Cyngor eu cael fel mater o flaenoriaeth yn ystod y pedair blynedd nesaf. Cafodd y canlyniadau blaenoriaeth hyn eu cyfoethogi yn eu tro gan [Strategaeth Gymunedol Integredig Bro Morgannwg](#), sy'n pennu cyfeiriad gweithredu Cyngor Bro Morgannwg yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Mae ein Hamcanion Gwella a'u cysylltiad â'r canlyniadau blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun 2013-17 wedi'u nodi isod ynghyd ag asesiad cyffredinol ar gyfer pob Amcan Gwella. Cewch ragor o fanylion am bob un o'n hamcanion gwella yn yr adran o'r Cynllun sy'n dwyn y teitl ['Ein Hamcanion Gwella'n Fanwl'](#).

Amcanion Gwella 2014/15	Meysydd Canlyniadau Cynllun Corfforaethol (2013-17)	Arweinydd	Asesiad yr Awdurdod Lleol
Cymhwyso pobl leol yn well ar gyfer eu cyflogi drwy sicrhau bod ganddynt ddigon o gyfle i ddysgu a meithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau gwaith.	Dysgu a Sgiliau Gwella Sgiliau, Gwybodaeth a Chyfleoedd	Rob Thomas/ Jennifer Hill	Cyflawnwyd
Sicrhau bod lleoliadau plant a phobl ifanc dan ofal yn fwy cynaliadwy a sefydlog.	Plant a Phobl Ifanc Diogelu ein plant a'n pobl ifanc fregus	Phillip Evans	Cyflawnwyd
Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.	Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol	Phillip Evans	Cyflawnwyd
Cefnogi a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.	Adfywio Cynnal cymunedau egniol	Rob Thomas	Cyflawnwyd
Sicrhau bod llai o bobl ifanc yn cael eudosbarthu i gategori rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant .	Dysgu a Sgiliau Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd	Jennifer Hill	Cyflawnwyd
Cymryd llai o amser i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.	Tai Rhoi cymorth a chynghor	Rob Thomas	Cyflawnwyd
Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefel cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.	Dysgu a Sgiliau Gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb yn ein hysgolion a'n canolfannau dysgu	Jennifer Hill	Cyflawnwyd
Gwella ein gwasanaeth trwsio ymatebol ar gyfer tenantiaid.	Tai Darparu gwasanaeth landloriaid o safon	Miles Punter	Cyflawnwyd

Mae cynllunio busnes blynyddol, casglu gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau, cynnal cofrestr risgiau gorfforaethol, ymgynghori cyfredol a gwneud darganfyddiadau yn sgîl cynnal arolygon gwella ac asesiadau rheoli i gyd yn brosesau allweddol a fu'n cyfoethogi ein Hamcanion Gwella. Cafodd prif ddeiliaid diddordeb gan gynnwys partneriaid statudol ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau'r sector gwirfoddol, trigolion Bro Morgannwg a busnesau lleol eu gwahodd i wneud sylwadau ar yr Amcanion Gwella arfaethedig yn ystod ymgynghoriad a gynhaliwyd am 6 wythnos. Bu'r ymgynghoriad hwnnw o gymorth i ni bennu ein hamcanion terfynol.

Mae'n bwysig i ni adolygu ein cynnydd a rhoi adroddiadau i aelodau etholedig a'r cyhoedd ar yr hyn sydd wedi'i wella ac y dylid ei wella. Byddwn yn gweithredu ein Hamcanion Gwella drwy Gynlluniau Gwasanaeth sy'n nodi'r camau y bydd yn rhaid eu cymryd, y mesurau, adnoddau ac amserlenni perthnasol a'r rhai a fydd yn atebol. Bydd aelodau etholedig yn archwilio ein cynnydd yn y meysydd gwella'n ffurfiol bob chwarter a byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiadau ar-lein ar www.valeofglamorgan.gov.uk. Yn unol â'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad corfforaethol, bydd ein cynnydd o safbwynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, yr Amcanion Gwella a'r Cytundeb â Llywodraeth Cymru ynglyn a Chanlyniadau'n cael ei gyflwyno bob chwarter mewn adroddiad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu. Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad hanner blwyddyn ar ein Hamcanion Gwella i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Bydd meysydd lle methwyd â pherfformio i safon yn cael sylw yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Tîm Rheoli Adrannol a byddwn yn cytuno ar gamau i'w cymryd er mwyn datrys y broblem fel y bo'n briodol.

Fel pob cyngor arall yng Nghymru, y mae'r Fro'n wynebu cyfnod o gyni cynyddol. Bydd yn rhaid i ni arbed mwy o arian nag erioed o'r blaen yn ystod y tair blynedd nesaf a pharhau i weithredu agenda wella uchelgeisiol. Ni fydd modd i ni wneud hyn oni bai i ni newid ein holl ffordd o weithio a darparu gwasanaethau, ac ni fu'r gallu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol erioed mor bwysig.

Rydym wedi gosod targedau heriol yn ôl pob un o'r mesurau gwella, sy'n dangos cymaint ein hymrwymiad i wella gwasanaethau'n barhaol ar gyfer dinasyddion y Fro. Ar yr un pryd, deallwn fod pwysau sylweddol o ran diffyg adnoddau a galw am wasanaethau'n ein hwynebu yn ystod y flwyddyn i ddod ac yr ydym wedi gosod y prif dargedau a cherrig milltir ar gyfer gweithredu'r amcanion gwella gyda hynny mewn golwg. Camp mewn ambell i faes felly, fydd cynnal y safon berfformio bresennol yng ngoleuni'r diffyg nawdd a'r galw cynyddol am wasanaethau y bydd yn rhaid darparu ar eu cyfer. Cafodd hyn i gyd ei ystyried wrth i ni archwilio'n hamcanion a thargedau gwella'n fewnol.

Er mwyn hyrwyddo gweithredu cynaliadwy a lleihau'r costau argraffu byddwn yn sicrhau bod copi caled o'r Cynllun Gwella Rhan 2 ar gael yn holl dderbynfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor.

Os hoffech wneud sylwadau ar ôl darllen y cynllun hwn, cewch roi gwybod i ni drwy:

anfon llythyr i gyfeiriad: Perfformiad a Datblygu, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU

anfon neges i: improvements@valeofglamorgan.gov.uk

ffonio: 01446 700 101

Mae nifer o ffyrdd i drigolion ddylanwadu ar y broses benderfynu yn y Cyngor. Cewch ymuno â'n panel dinasyddion 'Barn y Fro' a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Y cyfan sydd angen ei wneud yw llenwi'r [ffurflen ar-lein](#). Bydd ein Pwyllgorau Craffu ar agor i'r cyhoedd ac yn ffordd o ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Cewch ofyn i Bwyllgor Craffu ystyried maes gwasanaeth neu fater penodol drwy lenwi [ffurflen gais am adolygu](#). Cewch hefyd gynnig Amcanion Gwella newydd i'r Cyngor drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

2. Arolwg Cyffredinol ar Berfformiad Cyngor Bro Morgannwg 2014/15

Mae'r adran hon yn nodi prif uchafbwyntiau ein prif gyflawniadau yn ystod 2014/15. Daethpwyd i ben â'r rhain er gwaethaf hinsawdd economaidd anodd a galw cynyddol am wasanaethau.

Ein prif gyflawniadau

Agorwyd nifer o dai tra modern ar gyfer pobl hŷn yn Redlands, Penarth yn ystod y flwyddyn. Gan ddefnyddio arian o Gronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru, cafodd 14 o unedau yn Redlands eu troi'n rhandai modern ac ynddynt gyfleusterau arbenigol. Dosbarthwyd dau o'r rhandai fel 'unedau ail-alluogi' sy'n cynnig cegin arbenigol, ystafell wlyb a pheiriant codi ac ati. Mae'r cyfleusterau ar y cyd hefyd wedi'u gwella ac yn cynnwys swît TG, cyfleusterau golchi dillad a lolfa gyffyrddus erbyn hyn. Er mwyn lleddfu ar broblem trosglwyddo gofal, cafodd Swyddog Sicrhau Llety a Therapydd Galwedigaethol ychwanegol eu cyflogi yn Ysbyty Llandochoau i ymchwilio ar y cyd â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i'r mathau o lety sydd eu hangen ar gleifion wrth ymadael â'r ysbyty. Er 31 Mawrth 2015, 5 o gleientiaid a gafodd addasu eu cartrefi'n gyflym ar gyfer rhywun anabl drwy ein cymorth ni. Mae hyn yn rhan o ymdrech ehangach i greu un system gymunedol gydgysylltiedig drwy uno gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol ar gyfer pobl hŷn â gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, ailalluogi a gofal tymor hir. Bydd yn sicrhau bod pobl hŷn nid yn cadw rheolaeth dros eu bywydau eu hunain ond hefyd yn cael y cymorth a'r gofal sydd angenrheidiol iddynt ar gyfer ymarfer eu hawliau a chadw eu hurddas.

Rydym wedi parhau i wella gryn dipyn ar y broses o ddarparu Grantiau Cyfleusterau Pobl Anabl ac erbyn hyn yn gallu cynnig grant ymhen 199 o ddiwrnodau o'u cymharu â 284 o ddiwrnodau'r llynedd. Mae ein perfformiad o safbwynt cyflymdra darparu grantiau felly'n 30% yn well eleni na'r llynedd. Yn ôl data meincnodi Cymru gyfan ar gyfer 2014/15, y mae hynny'n ein gosod yn 8^{fed} o'i gymharu ag 16^{eg} y llynedd. Cawsom ganlyniadau cadarnhaol ar y cyfan, a 98% o ddefnyddwyr y gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau a ddywedodd eu bod yn fodlon arno. Ar ben hynny, dros 98% o gwsmeriaid a gafodd Grantiau Cyfleusterau yn ystod 2014/15 a deimlai'n fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r cymorth a gawsant. Byddwn yn parhau i gydweithio â chwsmeriaid er mwyn sicrhau bod eu profiad o'r broses yn un cadarnhaol ac yn un sy'n eu helpu i fod yn fwy annibynnol. Byddwn yn canolbwyntio ar wella'n barhaol er mwyn cael cadw i fyny â'r gwaith gwella y bydd awdurdodau eraill yn ei wneud.

Bu Golau Caredig, sef cynllun Extracare cyntaf y Fro'n croesawu ei denantiaid cyntaf yn Hydref 2014 ac agorodd yn swyddogol yn Ebrill 2015. Mae pob ffat bellach yn llawn a bu ymateb y tenantiaid yn gadarnhaol. Mae'r cynllun yn rhoi dewis newydd a chyffrous i bobl hŷn y Fro drwy roi'r modd iddynt aros yn eu cymunedau a chael cymorth yn ôl y gofyn ar yr un pryd.

Cynhaliodd y Cyngor raglen hynod lwyddiannus o ddigwyddiadau haf ar Ynys Y Barri unwaith eto, a daeth lluo o ymwelwyr i'r ynys ar gyfer y rhaglen amrywiol a gynigiwyd drwy gydol gwyliau'r haf. Bu dros 40,000 o ymwelwyr yn mynychu'r penwythnosau o hwyl yn unig.

Cafodd y rhaglen gydnabyddiaeth hefyd drwy roi 'Ynys Dân' ar y rhestr fer ar gyfer gwobr am y digwyddiad lleol gorau yng nghynllun dyfarnu Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Ymweld â Chymru 2014.

Mae'r gyfran o bobl ifanc a fodlonodd ddangosydd lefel 2+ (5 arholiad TGAU graddau A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg) wedi codi'n sylweddol o 55.4% y llynedd i 62.2% eleni. Er na chyrrhaeddwyd y targed uchelgeisiol o 65%, perfformiad y Fro yw'r ail orau yng Nghymru serch hynny, ac y mae gan dros 100 o fyfyrwyr ychwanegol fwy o gyfle i astudio a dilyn hyfforddiant pellach. Mae'r bwlch rhwng perfformiad plant sy'n gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn llai erbyn hyn yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3.

Mae'r ffigurau ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn well o lawer nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol ac yn tystio i'r flaenoriaeth uchel a roddwyd i wella presenoldeb a'r gwaith a wnaed i gyflwyno strategaeth 'Callio'. Er i bresenoldeb wella'n gyffredinol yn holl ysgolion Cymru, y ffigurau ar gyfer presenoldeb yn ysgolion cynradd ac uwchradd y Fro yw'r pedwerydd gorau yng Nghymru. Mae presenoldeb yn ysgolion cynradd ac uwch y Fro wedi gwella o 30,000 o ddiwrnodau sef 2 ddiwrnod fesul disgybl.

Cafodd dau brif brosiect cyfalaf eu cwblhau a'u hagor yn ystod y flwyddyn. Y naill oedd Cymuned Ddysgu Penarth sy'n cynnig adeiladau newydd o safon ar gyfer Ysgol Gyfun Sant Cyres ac ysgol newydd Ysgol Y Deri sy'n disodli ysgolion arbennig Ashgrove, Ysgol Erw'r Delyn ac Ysgol Maes Dyfan. Y llall yw'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Nant Talwg yn Y Barri sy'n darparu ar gyfer 210 o ddisgyblion. Cafodd y ddau brosiect eu cwblhau'n brydlon o fewn y gyllideb.

Oddeutu 9000 o gwsmeriaid a gwblhaodd arolygon ar ôl ffonio Canolfan Gyswilt UnFro a 98% ohonynt a raddiodd y gwasanaeth rhwng 'boddhaol' 'boddhaol iawn' sy'n dangos bod ei fod yn fwy neu lai'n cwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid.

Mae'r ganran o gwynion a archwiliwyd gan yr Ombwdsman wedi lleihau o 0.27% i 0%. Mae hyn i'w briodoli i'r Polisi Cwynion Corfforaethol newydd sydd wedi gwella ein ffordd o drin cwynion fel y bo llai'n cael eu hanfon at yr Ombwdsman ar gyfer eu harchwilio.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu â Phobl Ifanc a'u Datblygu wedi'i asesu gan Lywodraeth Cymru. Felly hefyd y camau a gymerodd Cyngor y Fro a'i bartneriaid i sicrhau bod llai o bobl ifanc yn llithro i gategori'r rhai nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant. O ganlyniad, enwyd rhai agweddau ar ein gwaith yn enghreifftiau o ymarfer da. Drwy gyd-drefnu ein ffordd o weithredu yr ydym wedi llwyddo i leihau'r ganran o bobl ifanc yn y categori hwn o 3.8% i 2.75% ym mlwyddyn 11 ac o 2.02% i 1.78% ym mlwyddyn 12. Mae mwy o bobl ifanc dros 18 oed hefyd wedi cael cymorth i ddod o hyd i swydd.

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu, cynllunio a gweithredu nifer o gynlluniau sy'n gwneud ffyrdd y Fro'n fwy diogel ar gyfer traffig a cherddwyr drwy ddefnyddio grant gwerth £445,000 a ddarparwyd drwy raglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Ymestynnwyd y llwybr cerdded/seiclo o ysgol gynradd Ynys Y Barri i gylchfan Weycock Cross; gweithwyr ar y parth 20mya y tu allan i Ysgol Sant Curig yn Y Barri a gwellwyd croesfan sebra ar Ffordd Y Barri.

Mae ein gwaith dros annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd wedi'i nodi fel enghraifft o ymarfer da gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd etholiadau ar gyfer y Cabinet leuencid a daeth y rheiny i ben ar 31 Mawrth 2014. Rhoddir portffolio i bob aelod o'r Cabinet a hawl i siarad ag Arweinydd y Cyngor fel rhan o'i ddatblygiad. Cynhaliwyd etholiad ar gyfer Maer leuencid yn yr un modd ym mis Hydref 2014.

Yr amcangyfrif rhagarweiniol ar gyfer canlyniadau dysgwyr Partneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro a sefydlwyd yn ddiweddar yw 84% sydd yr un fath â'r cymharydd cenedlaethol. Bu Estyn yn monitro cynnydd y bartneriaeth ers archwiliad 2013 yn ddiweddar a chawsom ymateb da am ein cynnydd mewn perthynas â'r chwe argymhelliad canlynol a wnaethpwyd:

- A1: Gwnaethpwyd cynnydd da iawn o safbwynt gwella cyfraddau llwyddo ac achredu ar gyfer dysgwyr.
- A2: Gwnaethpwyd cynnydd da iawn o safbwynt rhoi arweiniad mwy strategol i ddysgu cymunedol i oedolion yn y Fro, rheoli a chyd-drefnu'r ddarpariaeth yn well a'i gwneud yn fwy cydnaws â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a gosod targedau ar ei chyfer sy'n ei herio i berfformio'n well.
- A3 (i): Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol o safbwynt adolygu'r cwricwlwm a'i gwneud yr un mor hawdd i bob dysgwr fanteisio ar gyfleoedd priodol i ddysgu.
- A3(ii): Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol o safbwynt darparu ar gyfer meithrin sgiliau darllen, ysgrifennu a chyfrif dysgwyr, yn enwedig i ddibenion sicrhau bod rhai sy'n dilyn cyrsiau Addysg Sylfaenol i Oedolion yn gallu manteisio ar gysiau uwch.
- A4: Gwnaethpwyd cynnydd da iawn o safbwynt dadansoddi data'n drwyadl a gwella prosesau cynnal ansawdd er mwyn gallu monitro a gwerthuso perfformiad yn effeithiol a helpu dysgwyr i wella.
- A5: Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol o safbwynt gwella ansawdd addysgu ar draws y bartneriaeth.
- A6: Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol o safbwynt sicrhau bod dysgwyr sy'n ymgodymu â phroblemau iechyd neu broblemau personol sy'n eu rhwystro rhag symud yn eu blaen yn cael gwell cymorth.

Ni chafodd unrhyw ddisgyblion eu diarddel yn barhaol o'n hysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14.

Ni adawodd unrhyw blant 15 oed, gan gynnwys 'plant dan ofal', addysg orfodol na chysiau hyfforddi na swyddi heb gael cymwysterau allanol cymeradwy.

Perfformiodd y Cyngor i'r safon orau bosibl unwaith eto yn ei ymwneud â datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig drwy lwyddo i ddarparu pob Datganiad terfynol o Anghenion Addysgol Arbennig o fewn y cyfnod targed o 26 wythnos boed eithriadau ai peidio.

Ym Mai 2014, cafodd y Cyngor ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer nifer o wobrau Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth. Enillodd glod uchel yng nghategoriâu 'rhagori mewn gwella profiadau cwsmeriaid' a 'gweithiwr proffesiynol y flwyddyn'. Daeth yn ail orau yng nghategori 'rheoli'r galw am drafnidiaeth' am weithredu cynllun trafnidiaeth gymunedol 'Greenlinks' ac yn ail orau hefyd yng nghategoriâu 'partneriaeth' a 'rhagori mewn cludo teithwyr' am gydweithio â chwmni New Adventure Travel i redeg gwasanaeth bysiau 303/304. Y

Cyngor a ddaeth i'r brig yn gyffredinol yng nghategori 'galw am drafnidiaeth' am ddarparu gwasanaeth bysiau noddedig 303/304 ar y cyd â chwmni New Adventure Travel.

Yn ystod 2014, daeth prosiectau adeiladu'n ymwneud â chynllun tai newydd Golwg y Coed ac amryw o gynlluniau tai eraill i'r brig yn seremoni wobrwyo 'Gwobrau Ansawdd Adeiladu' Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol De Cymru. Barnwyd y ddau gynnig ochr yn ochr â chynigion Cymru gyfan ym Mehefin a dyfarnwyd y brif wobr i gontractwr lleol am gynlluniau amrywiol a gododd ar y cyd â Grŵp Rheoli Adeiladu'r Cyngor, gan ddangos rhagoriaeth adeiladu tai ym Mro Morgannwg.

Bu Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn cydweithio â chyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau er mwyn codi'r ganran o Gynlluniau Addysg Personol a gwblhawyd o 40% yn 2013/14 i 97% yn 2014/15. Mae'r ddwy gyfarwyddiaeth yn addo sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol ar gyfer 'plant dan ofal' yn cael eu darparu'n brydlon a bod systemau priodol yn eu lle er mwyn caniatáu hynny.

Mae ein perfformiad o safbwynt 'oedi cyn trosglwyddo gofal' yn well o lawer eleni na'r llynedd. Trefniadau gwell a mwy integredig ar gyfer manteisio ar ofal, rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac ailalluogi a fu i gyd o gymorth i wella perfformiad yn y maes hwn er gwaethaf pwysau sylweddol yn ystod y gaeaf. Drwy rannu gwaith â'n partneriaid yn y modd hwn, byddwn yn parhau i wella a chynnal ein cynnydd yn y dyfodol.

Llwyddodd y Cyngor i gael rhagor o adnoddau drwy 'Gynllun Benthycia i Lywodraeth Leol' Llywodraeth Cymru er mwyn gwella rhwydwaith ffyrdd lleol y Fro. Bu hyn o gymorth i ni osod arwyneb newydd ar dros 22 o gilomedrau o ffyrdd y llynedd a chynnal prosiect sylweddol ar gyfer adnewyddu goleuadau stryd DAG a fu'n lleihau'r costau ynni cysylltiedig ac ôl troed carbon y Cyngor. Bu'r adnoddau hefyd yn fodd i ni wneud gwaith angenrheidiol ar ryw 6 chilomedr o lwybrau troed a sicrhau bod rhwydwaith llwybrau troed y Cyngor o ganlyniad o well ansawdd ac yn fwy diogel.

Drwy Gynllun Adnewyddu Ardal Castleland, llwyddwyd i godi safon tai ac amgylchedd y trigolion. Roedd y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2014/15 yn cynnwys rhaglen gweddnewid tai a roddodd sglein ar wyneb allanol rhyw 316 o gartrefi a chynlluniau ar gyfer moderneiddio neu ailosod systemau gwres canolog a gosod cyfarpar lleihau foltedd a systemau twymo dŵr drwy ynni'r haul. Rydym hefyd wedi rhoi cynllun trwyddedu ar waith ar gyfer tai a rennir yn yr ardal. Un o'r camau a gymerwyd er mwyn gwella cyfleusterau cymunedau a'r amgylchedd oedd adnewyddu wyneb allanol Neuadd Sgowtiaid y Môr yn Heol Holton. Cynhaliwyd asesiadau'r 'Fargen Werdd' mewn tai a oedd yn addas i dderbyn nawdd drwy gynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni a cheisio am Daliad y Premiwm Gwres Adnewyddadwy. Petai hyn yn llwyddiannus byddai'n helpu i arbed ynni yn ein stoc dai a lleihau tloidi tanwydd.

Gwariwyd £200,000 a llenwyd dros 4,500 o dyllau ychwanegol yn heolydd y Fro drwy brosiect Trwsio Twll y Cyngor y llynedd. Buom yn ymweld â phob un o'r 23 o wardiau yn ei thro, gan annog pobl i roi gwybod am unrhyw ddiffygion ar y ffyrdd, ac ni threuliom fwy na phenwythnos ym mhob ward yn gwneud y gwaith trwsio.

Rydym wedi parhau i gydweithio â thrigolion a chymunedau ar gynlluniau ar y cyd i wella manau cyhoeddus a llwyddwyd i godi safon amryw o fannau hamdden presennol a chyflwyno rhai newydd er mwyniant pawb. Cafodd y gwaith gwella hwn ei dderbyn yn galonnog gan gymunedau'r Fro a gwneir llawer o ddefnydd ohonynt:

- Darparwyd gardd gyhoeddus yn Cemetery Road, Y Barri ar y cyd â Chyngor Tref Y Barri.
- Am i gytundeb reoli gardd yr Hen Neuadd yn Y Bont-faen gael ei ymestyn am 10 mlynedd, yr oedd modd i Ymddiriedolaeth Siarter Y Bont-faen ddatblygu rhagor o amcanion ar gyfer y gerddi.
- Ailwampwyd manau chwarae Meggitt Road a Dryden Terrace yn llwyr, fel y bo mwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae.
- Ailwampwyd y manau chwarae yng Ngerddi Alexandra, Amherst Crescent, Bedford Rise, Belvedere Crescent, y Parc Canolog, Chickenwood a Pharc Romilly a gosod rhagor o gyfarpar.
- Ar y cyd â Chymdeithas Trigolion Marina a Hafan Penarth, adeiladwyd llwybr troed newydd drwy'r coed rhwng Heol Paget a Portway.
- Gosodwyd llwyfan wyllo ym Mharc Pentir Penarth ac ailwampio'r parc.
- Codwyd pafiliwn newid ar gyfer peldroedwyr ym Mharc Muslin.
- Buom yn cydweithio â thrigolion Heol Aneurin er mwyn ailwampio'r fan gymunedol fawr yn y stryd honno.
- Ailwampwyd y waliau cyfnod yng ngerddi Alexandra, gerddi'r Cnap a'r Gerddi Brenhinol.
- Buom yn cydweithio â Bwrdd Trigolion Gibbonsdown Residents, pobl ifanc leol a Swyddog Datblygu'r Celfyddydau er mwyn cynnal prosiect celfyddyd gyhoeddus ym Mharc Pencoedtre. Cydweithiom â phobl ifanc leol a Swyddog Datblygu'r Celfyddydau yn yr un modd er mwyn cynnal prosiect celfyddyd gyhoeddus ym Mharc Byrddau Sglefrio Sain Tathan..
- Buom yn cydweithio â Chyfeillion Parc Belle Vue er mwyn gwella'r parc a darparu'r ffynnon ddŵr yfed newydd, gyntaf yng Nghymru ar gyfer y cyhoedd.
- Gwellwyd y parciau ar Ynys Y Barri.

Drwy weithredu proses archwilio drwyadl a chynnig cyngor a hyfforddiant yn gyson i fusnesau'r Fro, yr ydym wedi sicrhau bod mwy o fusnesau'n sgorio 3 phwynt neu ragor am hylendid bwyd. 90.73% o sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd ar hyn o bryd, sef mymryn yn fwy na'r ganran y llynedd o ychydig dros 85%. Serch hynny, deallwn fod lle o hyd i ni wella os ydym am gadw i fyny â chynghorau eraill yng Nghymru. Bydd gan ddefnyddwyr ddigon o wybodaeth wedyn i ddewis eu manau bwyta a siopa'n ddoeth a thrwy ddewis felly annog mwy o fusnesau i wella eu safonau hylendid. Sicrhau bod llai o achosion o salwch bwyd a'r gost i'r economi yn sgîl hynny yw'r nod cyffredinol.

Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith yn ystod y flwyddyn er mwyn hyrwyddo diogelwch pen ffordd e.e: 35 o ysgolion a gymerodd ran yng nghynllun Swyddogion Ifanc Diogelwch Pen Ffordd; cynhaliwyd cyrsiau byr mewn 27 o ysgolion; 300 o ddisgyblion a ddilynodd raglen hyfforddi cerddwyr 'kerbcraft'; 33 o ysgolion a gymerodd ran mewn hyfforddiant seiclo gyda 968 o ddisgyblion yn dilyn cwrs lefel 1 a 710 yn dilyn cwrs lefel 2; cynhaliwyd cyrsiau 'bikesafe' a 'pass Cymru' ar gyfer 100 o ddisgyblion. Mae addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd eang y Cyngor yn helpu i gadw plant ysgol yn ddiogel ac yn gyffyrddus.

Sefydlwyd Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf yn Y Barri er mwyn helpu i wella iechyd a lles y rhai sy'n byw yn ardal y cynllun. Llwyddwyd un ai i gyrraedd ynteu rhagori ar y rhan fwyaf o dargedau Llywodraeth Cymru. Yn hydref 2014, cawsom swydd ar gyfer y diweddaraf o'r 500 o unigolion a ddsbarthwyd gynt fel rhai di-waith tymor hir sydd erbyn hyn yn cael eu cyflogi. Mae mwy o swyddi ar gael yn lleol ar hyd yr amser ac y mae llai o ddiweithdra yma nag y sydd yn gyffredinol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Cafodd y Cyngor gydnabyddiaeth am ei waith ym maes chwaraeon pobl anabl drwy ennill gwobr efydd yr 'Insport Ribbon'. Cydnabuwyd tîm chwarae'r Cyngor hefyd pan gyflwynwyd gwobr genedlaethol cynlluniau chwarae iddo sy'n tystio bellach i'r gwaith da sy'n cael ei wneud. Cafodd y gwasanaeth ei enwi'n brif wasanaeth Cymru gan Chwaraeon Cymru yn 2014 am ddarparu gweithgareddau chwarae drwy gydweithio â phobl eraill.

Gyda golwg ar ddatblygu cynaliadwy, ystyriodd y Cyngor 1033 o ddatblygiadau newydd yn ystod y flwyddyn a derbyn 927 (89.7%) ohonynt.

Fel rhan o'n haddewid i feithrin sgiliau a gwybodaeth a rhoi mwy o gyfleoedd i drigolion, buom yn cefnogi tua 30 o Brentisiaid Modern Sylfaenol a Phrentisiaid Crefft unwaith eto yn ystod y flwyddyn a aeth heibio'n ogystal â darparu pob math o leoliadau eraill ar gyfer profiad gwaith. Bydd gennym fwy o ddewis ar gyfer recriwtio a datblygu prentisiaid a myfyrwyr ar brofiad gwaith hefyd drwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill.

Yn ogystal ag arbed arian, y mae'r rhaglen ar gyfer ailosod goleuadau stryd DAG a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi lleihau ôl troed carbon y Cyngor drwy ddarparu goleuadau sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithiol. Erbyn hyn y mae dros 650 o dunelli metrig yn llai o CO2 yn cael eu golwg i'r awyr. Bydd ein strategaeth ar gyfer goleuo'r strydoedd am ran o'r noson yn unig hefyd yn arbed mwyn na £300,000 y flwyddyn a thros 1000 o dunelli metrig o CO2.

Pump o barciau'r Fro - sef Parc Canolog, Parc Romilly, Parc Victoria, parc Belle Vue, Parc Alexandra a Gerddi Windsor – a enillodd y Faner Werdd erbyn hyn, sy'n wobwr a fawr chwenychir. Gwnaethpwyd hyn drwy gydweithio'n agos â'r cymunedau. Marc rhagoriaeth sy'n nodi mwynderau da ac yn dangos bod y cymunedau'n ymwneud â'r parciau.

Cynhaliwyd cynllun arbrofol llwyddiannus gyda'r bwriad o rannu gwasanaethau teleffoni ar gyfer Trinwyr Traed â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Hanerwyd nifer yr ymweliadau a gollwyd o 25% i 12% o ganlyniad i hyn. Mae adran trin traed y Cyngor wedi arbed arian yn sgîl y cynllun a chynhyrchwyd incwm o £10,000 i Ganolfan Gyswilt UnFro a fu yn ei dro o gymorth i ostwng costau gweithredu. Lansiodd Gwasanaeth Cyfeirio Adnoddau Cymunedol y Fro sy'n cynnwys staff o'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd a hyfforddwyd yn unswydd ar gyfer ymdrin ag ymholiadau drwy ddefnyddio cymwysiadau TGaCh y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Rhan o raglen ehangach ar gyfer uno gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar draws Caerdydd a'r Fro yw hyn, fel y bo'r gwasanaethau'n haws eu defnyddio ac na fo cymaint o berygl i waith gael ei ailadrodd.

Lleihawyd y ganran o allyriadau carbon deuocsid sy'n cael eu cynhyrchu gan ein stoc adeiladau annomestig o 1.21% yn 2013/14 i 7.07% yn 2014/15. Daethpwyd i ben â hyn drwy gynnal prosiectau amrywiol ar hyd y flwyddyn sydd wedi sicrhau bod mwy o adeiladau'r Cyngor yn defnyddio ynni'n fwy effeithiol; toeon ysgolion y Fro'n llai tueddol i ddargludo trydan; ysgolion yn arbed 30% o'u hynni drwy osod goleuadau DAG; adroddiad yn cael ei lunio bob mis ar ddefnyddio ynni wedi'i seilio ar ddata o'r safon orau.

Yn ystod 2014, cynhaliwyd cynllun darlledu ar-lein arbrofol llwyddiannus ar ran y Pwyllgor Cynllunio. Roedd y gwasanaeth darlledu ar-lein newydd yn gyfle i'r cyhoedd weld yn union sut y bydd y Pwyllgor yn dod i benderfyniadau, ac yn gyfle hefyd iddo wyllo'r dadleuon a gynhaliwyd wrth gynrychioli ei farn. Rydym hefyd wedi dod â phrotocol sy'n caniatáu i aelodau ddangos eu bod am siarad yn y Pwyllgor.

Lansiwyd cymhwysiad ffonau symudol Canolfan Gyswilt UnFro yn ystod y flwyddyn sy'n caniatáu i gwsmeriaid edrych ar wybodaeth a gwneud cais am wasanaeth drwy ddefnyddio eu ffonau clyfar system weithredu iOS ac Android a'u tabledi. Caiff cwsmeriaid ddefnyddio'r cymhwysiad i anfon lluniau a gwybodaeth fanwl gywir a fydd o gymorth i'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth wneud eu gwaith yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Mae nifer y rhai ar gyfartaledd a fydd yn defnyddio Gweplyfr y Cyngor wedi cynyddu o 6926 yn 2013/14 i 16446 yn 2014/15. Mae hyn wedi digwydd am fod y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol erbyn hyn drwy greu cyfryngau sy'n cymell y cyhoedd i gymryd rhan. Mae mwy o bobl yn ymwybodol o waith y Cyngor bellach am eu bod yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol. Nifer defnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol yn y Fro yw'r trydydd uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru a'r pedwerydd uchaf ar hugain o holl awdurdodau lleol y DU. Sgôr Dylanwad y Fro (sef sgôr rhwng 1 a 100 sy'n cynrychioli ein dylanwad o safbwynt cyfryngau cymdeithasol) yw 62 ar hyn o bryd, sef yr ail uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru.

Cynyddodd nifer y tanysgrifwyr i wasanaeth cylchlythyr 'Cysylltu â'r Fro' i 26,000 yn ystod y cyfnod hwn a chyhoeddwyd mwy o fwletinâu ar bynciau penodol. Datblygwyd y system er mwyn darparu ar gyfer rhai ar restrau dosbarthu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd fel rhestr y gwasanaeth mabwysiadu, a bu'n ddull ymarferol o hysbysu a chynghori cwsmeriaid mewn argyfwng er mwyn sicrhau bod ganddynt ddarlun cliriach o'u sefyllfa.

Mae gwaith Viridor yn 18 mis yn gynt na'r disgwyl yn cael ei sefydlu a rhagwelir y bydd £1.6 miliwn wedi'u harbed ers y cyfnod cyn llofnodi contract Prosiect Gwyrdd. Bydd y trefniadau newydd yn dileu'r angen am gladdu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi i bob pwrpas, ac yn arbed arian sylweddol i'r Cyngor o ganlyniad. Rhagwelir hefyd y bydd y cyfleustra trin gwastraff yn fodd i'r Cyngor ailgylchu rhwng 5% ac 8% yn fwy o wastraff yn gyffredinol.

Mae tîm digartrefedd yn dal i weithio mewn ffyrdd arloesol er mwyn sicrhau cartrefi dros dro i bobl fel na fo'n rhaid lleoli teuluoedd ac unigolion mewn lletyau gwely a brecwast. Mae'r Cyngor yn arbed cryn dipyn o arian o hyd o ganlyniad i hyn.

Bydd y Cyngor yn cymryd llai o amser i osod eiddo gwag – sef 33 o ddiwrnodau'n unig erbyn hyn – ac yr oedd 63 o dai o'r stoc dai'n wag ar ddiwedd 2014/15. Fel un o nifer o gamau i wella'r gwasanaeth, lluniwyd pecynnau croeso i'w rhoi i denantiaid newydd pan fyddant yn symud i'w cartrefi newydd.

Bu Canolfan Gyswilt Cwsmeriaid UnFro o gymorth i ni ddatblygu tîm lechyd a Gofal Cymdeithasol integredig ar y safle. Bydd adnoddau staff yn cael eu defnyddio er mwyn hwyluso'r defnydd o wasanaethau eraill fel Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro. O ganlyniad, ni fydd cymaint o ymholiadau am wasanethau oedolion yn cael eu cyfeirio at dimau gwaith cymdeithasol eraill, bydd mwy o achosion o gleifion a ailgyfeiriwyd ar ôl gadael yr ysbyty'n cael eu datrys yng Nghanolfan UnFro a phob proses yn cael ei dwyn i ben yn gynt.

Mae cynllun adfywio promenâd dwyreiniol Ynys Y Barri a agorwyd i'r cyhoedd yn Nhachwedd 2014, wedi gwella ein mannau cyhoeddus yn sylweddol a helpu i ddenu mwy o ymwelwyr a busnesau i'r Ynys.

Buom yn cydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn dod â'r gwaith o ailwampio Glanfa Penarth i ben ac enillodd wobwr 'Glanfa'r Flwyddyn – Cymru' a chael ei gosod ar ben rhestr Lleoedd Arbennig Cymru drwy bleidlais a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Rhodddwyd nifer o brosesau ar waith er mwyn gwella'r gwasanaeth ymatebol ar gyfer trwsio a chynnal a chadw tai a sicrhau bod tenantiaid yn fwy bodlon. Cafwyd cryn gynnydd o ganlyniad o safbwynt y broses a ddefnyddir i roi gwybod am ddiffygion, amserau ymateb y Cyngor a safon y gwaith trwsio. Yn ystod y flwyddyn, 93% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn fodlon ar y broses a ddefnyddir i roi gwybod am ddiffygion a 92% a ddywedodd eu bod yn fodlon ar safon y gwaith. Bydd o leiaf 35% o'n holl swyddi a'n holl swyddi contractwyr yn cael eu harchwilio ar ôl cyflogi'r ymgeiswyr.

Datblygwyd cynllun buddsoddi ar gyfer ailwampio cyfleusterau cyhoeddus a chodwyd safon glanweithdra. Yn ystod 2014/15, yn ogystal ag adeiladu cyfleusterau cyhoeddus newydd yng Nghysgodfa Ddwyreiniol Ynys Y Barri fel rhan o'r gwaith adfywio ar yr ynys, ailwampwyd 3 bloc arall yn Romilly Road/Park Crescent ac Albert Road ac ar draeth Llanilltud Fawr. Mae trefniadau hefyd ar gyfer adnewyddu cyfleusterau ym Mharc Llynnoedd Cosmeston ac wrth Fae Jackson. Gwnaethpwyd gwaith gwella yn ystod 2014/15 hefyd yn Southerndown, Hen Neuadd y Dref, Y Barri a Chysgodfa Orllewinol Ynys Y Barri a bydd 32 o flociau eraill o gyfleusterau cyhoeddus yn cael eu hadnewyddu yn ystod 2015/16.

Ein perfformiad yn ôl Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Casglwyd a chroniclwyd data ar gyfer 46 o ddangosyddion cenedlaethol yn ystod 2014/15. O'r rhain, y mae data ar gyfer 44 y gellir ei gymharu â data'r flwyddyn flaenorol sy'n dangos bod:

- 50% o'r meysydd wedi gwella.

- 18% o'r meysydd yn perfformio i'r safon orau bosibl.
- 28% o'r meysydd wedi dirywio.
- 4% o'r dangosyddion yn amhosibl eu cymharu â rhai'r llynedd.

Roedd perfformiodd Cyngor y Fro'n rhagori ar berfformiad Rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn ôl 61% (28) o'r holl ddangosyddion cymaradwy. Cafwyd canlyniad tebyg o'i gymharu â pherfformiad cynghorau Cymru'n gyffredinol.

O'i ddadansoddi'n fanylach gwelwyd bod:

- 8 o'r dangosyddion yn dangos i ni berfformio i'r safon orau bosibl yn y meysydd hynny yn ystod 2014/15. O'r 8 dangosydd hwn, 7 a ddangosodd i ni gynnal y safon honno (drwy sgorio un ai 100% ynteu 0%) o gymharu â'r llynedd. Ein perfformiad gorau o gymharu â'r llynedd oedd mewn perthynas â dangosydd EDU/002i sef 'disgyblion sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu addysg yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy'. Nifer y plant a adawodd heb gymwysterau cymeradwy yn ystod 2014/15 oedd 0% o'i gymharu â 0.2% yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- 49% (23) o'r dangosyddion yn dangos (ar sail gwerth y dangosyddion perfformiad dan sylw) i ni wella ein perfformiad yn ystod 2014/15. Bu'r rhain yn weddol ddigyfnewid o'u cymharu â'r llynedd. 14 o'r 23 dangosydd sy'n dangos bod ein perfformiad yn dal i wella yn ystod 2014/15 o'i gymharu â'r perfformiad y llynedd.
- 13 dangosydd yn dangos (ar sail gwerth y dangosyddion perfformiad dan sylw) bod ein perfformiad wedi dirywio yn ystod 2014/15, sef yr un nifer â'r llynedd. 5 o'r 13 mesur a oedd yn dal i ddangos dirywiad yn ystod 2014/15.
- 4 indicators a ddangosodd i ni wella ein perfformiad yn ystod 2013/14, wedi aros yn ddigyfnewid yn ystod 2014/15. Serch hynny, y mae 3 o'r 4 dangosydd hwn - sef EDU/015a, EDU/015b sy'n ymwneud â darparu datganiadau terfynol o AAA, a SCA/019 sy'n ymwneud â rheoli'r perygl i oedolion bregus drwy eu cyfeirio at wasanaethau amddiffyn - yn dangos i ni barhau i berfformio i'r safon orau bosibl (100%) yn y meysydd hynny. Mae hefyd 8 dangosydd a oedd wedi dangos (ar sail gwerth y dangosyddion perfformiad dan sylw) i ni wella ein perfformiad yn ystod 2013/14, sydd eleni'n dangos bod ein perfformiad wedi dirywio. Y rheiny yw EDU/006ii 'canran y disgyblion a gafodd asesiad athro yn Gymraeg' a ostyngodd o 9.2% yn 2012/13 i 8.9% yn 2014/15; SCA/002b 'nifer y bobl hŷn mewn cartrefi gofal' a gynyddodd ryw fymryn bach o 14.74 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2012/13 i 15.70 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2014/15 (lle y mae cynnydd yn dangos bod y perfformiad yn dirywio), SCA/020 'canran yr oedolion sy'n cael cymorth yn y gymuned' a ostyngodd ryw ychydig, o 2.72% o'i chymharu â'r llynedd; SCC/045 'canran yr arolygon 'plant dan ofal' a phlant mewn angen a gynhaliwyd o fewn yr amser statudol' a ostyngodd fymryn bach o 1.6% o'i chymharu â'r llynedd; SCC/025 'canran yr ymweliadau â 'phlant dan ofal' a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau' a ostyngodd y mymryn lleiaf o 0.8%; PSR/004 'canran yr adeiladau gwag a lenwyd' a ostyngodd o 31.54% o'i chymharu â'r llynedd; STS/005b 'canran y priffyrdd a archwiliwyd er mwyn sicrhau safon uchel neu dderbyniol o lendid' a ostyngodd ychydig o 0.6% a THS/012b 'canran y ffyrdd eilradd mewn cyflwr gwael' a ostyngodd fymryn bach yn unig o 0.2%.
- 8 dangosydd yn ystod 2014/15 a ddangosodd berfformiad digyfnewid o'u cymharu â'r rhai 2013/14.

Dyma ddadansoddiad o'n perfformiad yn ystod 2014/15 yn ôl chwartelau o'i gymharu â Chymru'n gyffredinol:

- 44% (20) o ddangosyddion a restrwyd yn y chwartel uchaf ar gyfer perfformiad, sef 3% yn fwy nag yn ystod y flwyddyn flaenorol pan restrwyd 41% (17) o'r dangosyddion yn y chwartel uchaf o safbwynt perfformiad.
- 15% (7) o ddangosyddion a restrwyd yn y chwartel canol uchaf (2^{ll}) yn ystod 2014/15 o'u cymharu â 7% (3) o ddangosyddion yn ystod y flwyddyn flaenorol (2013/14).
- 20% (9) o ddangosyddion a restrwyd yn y chwartel canol isaf am eu perfformiad yn ystod 2014/15, sef 9% yn llai nag yn ystod y flwyddyn flaenorol pan restrwyd 29% (12) o ddangosyddion yn y chwartel canol isaf.
- 20% (9) o ddangosyddion sydd wedi aros yn y chwartel isaf am eu perfformiad yn ystod 2014/15 sef yr un nifer ag yn ystod y flwyddyn flaenorol (2013/14). Roedd 7 o'r dangosyddion hyn yn y chwartel isaf yn ystod 2013/14 hefyd, sy'n dangos na fu gwella digon sylweddol i'r dangosyddion hynny allu codi o'r chwartel isaf am eu perfformiad hyd yma.

Dyma'r lle yr oedd ein perfformiad ar ei orau (ac wedi'i restru fel y gorau yng Nghymru):

- Ni adawodd unrhyw blant, gan gynnwys 'plant dan ofal', addysg orfodol, hyfforddiant nac addysg yn y gwaith heb ennill cymhwyster allanol cymeradwy;
- Darparwyd pob datganiad (100%) o anghenion addysgol arbennig cyn pen 26 wythnos (ac eithrio a chan gynnwys eithriadau i'r amserlen);
- Cyfeiriwyd pob achos (100%) o berygl i oedolyn bregus at y gwasanaethau amddiffyn;
- Aseswyd anghenion pob gofalwr (100%);
- Sicrhawyd bod gan bob plentyn perthnasol (100%) gynllun llwybr;
- Cadwyd mewn cysylltiad â phob plentyn 19 oed dan ofal (100%);

Deallwn ei bod yn rhaid i ni hefyd berfformio'n well yn y meysydd lle rhestrwyd ein perfformiad yn y chwartel isaf o'i gymharu â gweddill Cymru, sef:

- Nifer y bobl hŷn a gynhelir yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth;
- Nifer yr oedolion a gynhelir yn y gymuned;
- Nifer yr asesiadau cyntaf o blant a welwyd gan weithiwr cymdeithasol;
- Nifer y ffyrdd mewn cyflwr gwael;
- Nifer y manau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd;
- Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth;
- Nifer y cynlluniau gofal i'w hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn;
- Nifer y pwyntiau a sgoriodd plant 16 oed dan ofal ar gyfartaledd am gymwysterau allanol.

Mae'r materion hyn yn cael sylw yng nghynlluniau perthnasol y Cyngor. Cewch weld crynodeb a dadansoddiad o'n perfformiad yn ôl y dangosyddion cenedlaethol drwy fynd i adran [‘Ein Perfformiad yn ôl Dangosyddion Cenedlaethol’](#) yn y Cynllun.

Ein Cytundeb Canlyniadau (2013-2016) â Llywodraeth Cymru

Rydym wedi cymryd cryn gamau tuag at sicrhau'r canlyniadau a restrwyd yn ein Cytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru (2013-2016) dwy gyrraedd y rhan fwyaf o'n targedau ein hunain ar gyfer 2014/15. Methwyd â chyrraedd llond llaw o dargedau, a chynigwyd camau ymarferol a fydd yn sicrhau y cyrhaeddir y rheiny yn ystod 2015/16. Drwy fonitro ein cynnydd yn ôl targedau blwyddyn 3 yn y Cytundeb cawn sicrhau y byddwn yn ôl ar y trywydd iawn o ran perfformiad yn fuan iawn.

Yn ôl ein hunanasesiad, y mae'r Cyngor wedi llwyddo ar y cyfan i gyrraedd y rhan fwyaf o'r targedau a chymryd y rhan fwyaf o'r camau sy'n berthnasol i flwyddyn 2 yn y Cytundeb (2014/15). Er i ni sgorio 9 allan o 10 yn adran y 'Canlyniadau', ffigur dros dro'n unig yw hwn a bydd yn rhaid ei drafod ymhellach â Llywodraeth Cymru ar ôl iddi dderbyn ein hasesiad a gwneud ei hasesiad ei hun. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ein perfformiad fesul maes canlyniadau ar sail ein hunanasesiad. Byddai sgôr o rwng 8 a 10 pwynt oddi wrth Lywodraeth Cymru'n caniatáu i ni hawlio tâl llawn am y maes canlyniadau (sef 70% o £1.2 miliwn). Cewch wybod rhagor drwy gael golwg ar [Gytundeb Canlyniadau 2013-2016: Adroddiad Diwedd y Flwyddyn 2014/15](#).

Maes Canlyniadau	Llwyddiannus	Rhannol lwyddiannus	Aflwyddiannus
Cefnogi'r economi leol	√		
Cynyddu cyflawniad mewn ysgolion	√		
Gwella bywydau pobl hŷn	√		
Gwella tai cymdeithasol	√		
Anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi		√	

Gweithio fel rhan o Bartneriaeth a Chydweithio

Rydym yn dal i gydweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol â phob math o wahanol sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Drwy'r partneriaethau hyn, byddwn yn llwyddo i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon a darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein dinasyddion a hefyd arbed arian. Mae'r pwysicaf o'r hyn y llwyddwyd i'w wneud drwy gydweithio wedi'i nodi isod.

Daeth y Gwasanaeth Rheoli ar y Cyd yn weithredol ar 1 Mai 2015, ac aeth rhai o staff Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd i weithio i Fro Morgannwg (yr awdurdod cyflogi cynhaliol) o dan reoliadau 'Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth)'(TUPE).

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch fframwaith newydd ar gyfer y gwasanaeth hwn i'w weithredu o 1 Rhagfyr 2015 ymlaen. Bydd darpariaeth ar y cyd yn sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau rheoli yn y tymor hir a chynlluniwyd y model gweithredu newydd gyda golwg arbennig ar anghenion defnyddwyr o safbwynt gofynion amddiffyn y cyhoedd.

Rydym wrthi'n hwyluso'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu trefniadau mwy integredig ar gyfer cysylltu â gwasanaeth am y tro cyntaf a derbyn gwasanaeth. Gwneir hyn drwy gymorth Cronfa Cydweithio Rhanbarthol a Chronfa Gofal Canolradd ar y cyd â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Crëwyd swyddi arbenigol newydd er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â galwadau'n effeithiol yn ôl blaenoriaeth ar ran y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor. Erbyn hyn, y mae prosesau ar gael sy'n caniatáu i staff iechyd a gofal cymdeithasol ymdrin â galwadau ar y cyd, a bydd ceisiadau am gyfeirio cleifion ar gyfer sgrinio a thriniaeth yn yr adrannau iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gyd yn cael eu trafod yn y Ganolfan Alwadau. O ganlyniad i'r ad-drefnu hwn, y mae mwy o bobl bellach yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth iawn. Mae'r system ofal ar gyfer Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol yn fwy effeithiol ac wedi'i chyd-drefnu'n well. Byddwn yn gynt o lawer yn cyfeirio cleifion ar gyfer gofal cymdeithasol ac erbyn hyn yn treulio 75% yn llai o amser i ymateb i geisiadau safonol am gyfeirio cleifion a 50% yn llai o amser i ymateb i geisiadau â blaenoriaeth.

Bydd y Fforwm Tai Strategol, sy'n cynnwys swyddogion o'r Fro a chyfarwyddwyr datblygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig amrywiol yr ardal yn ystyried y rhaglen bresennol ar gyfer datblygu tai fforddiadwy ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol drwy sicrhau safleoedd, caniatâd cynllunio a ffrydiau ariannu. Darparodd y Cyngor 148 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn y Fro ar gyfer rhai mewn angen yn ystod 2014/15, un ai drwy adeiladu ynteu prynu eiddo. Ariannwyd 94 o'r rhain yn rhannol drwy gymorth Grant Tai Cymdeithasol oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan gynnwys 42 o gartrefi ar gyfer rhai dros 55 oed fel rhan o Gynllun Gofal Ychwanegol cyntaf Bro Morgannwg a agorodd ym Medi 2014. Darparwyd 32 o gartrefi ychwanegol yn bennaf drwy ddefnyddio'r system gynllunio i orfodi datblygwyr i gynnwys cartrefi fforddiadwy wrth ddatblygu tai ar gyfer y farchnad agored. Roedd y rhain yn cynnwys tai cymdeithasol i'w gosod a thai i'w gwerthu am 70% o'u gwerth ar y farchnad agored i bobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf drwy gynllun Mynnu Prynu'r Cyngor. Oni bai am y cymorth hwn buasai'n amhosibl i bobl felly gael troedle ar yr ysgol eiddo. Darparwyd 16 o gartrefi fforddiadwy i'w gosod am bris canolradd drwy ddefnyddio nawdd oddi wrth Bartneriaeth Tai Cymru, a darparwyd y 6 thŷ olaf heb orfod sicrhau cyfalaf. Tai â chymorth 24 awr y dydd oedd y rhain a gynigiwyd i bobl ifanc, fregus a rhai a fu yng ngofal yr awdurdod er mwyn eu helpu i ddysgu sgiliau newydd a fydd yn eu paratoi ar gyfer byw'n annibynnol.

Darparwyd gwasanaethau gwell ar gyfer rhai yn y Fro a chanddynt anabledd dysgu drwy gymorth grant o Gronfa Cydweithio Rhanbarthol.

Rydym wedi sicrhau Nawdd Gofal Canolradd, a buddsoddi £0.5 miliwn ohono yn ein cynlluniau tai cysgodol presennol. Llwyddwyd o ganlyniad, i godi safon hen letyau ar gyfer pobl hŷn i'r hyn sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain, a hefyd helpu i gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd ynglŷn â lleihau nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. Recriwtiwyd swyddog un pwrpas hefyd a fydd yn cydweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn ysbytai lleol er mwyn nodi'r math o letyau sydd eu hangen ar gleifion wrth ymadael â'r ysbyty. Gallai cyfleusterau 'cam-i-fyny, cam-i-lawr' (llety cysgodol) er enghraifft gael eu cynnwys wrth gynllunio ar gyfer anghenion cleientiaid.

Llwyddwyd i wella gwasanaethau Therapi Galwedigaethol yn y Fro drwy gymorth grant o Gronfa Cydweithio Rhanbarthol. Mae'r prosiect wedi darparu ar gyfer trin mwy o gleientiaid heb ehangu'r gwasanaethau a chyfarpar presennol, drwy adolygu pecynnau drud ac achosion o amlhau triniaeth yn ddiangen, a sicrhau y cynigir y cyfarpar a'r cyfleoedd ail-alluogi cywir bob amser. Fel rhan o'r dull cydweithredol hwn o weithio, buom hefyd yn rhoi cynnig ar fodel gweithio newydd er mwyn gostwng nifer yr ymweliadau asesu cychwynnol y trefnir eilwaith ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol yn ddiangen. Mae hyn wedi arbed arian i'r Cyngor a gwella profiad cleientiaid am na fydd cymaint o asesiadau'n cael eu cynnal gan wahanol arbenigwyr erbyn hyn. Un o'n llwyddiannau eraill oedd yr arolwg ychwanegol gan therapyddion galwedigaethol. Mae hwn yn galluogi therapyddion i gydweithio â rheolwyr achosion a chynnal arolygon prydlon ar gyfer unrhyw rai ag anabledd corfforol a fyddai yn ôl y canlyniadau'n ddiogelach petai'r therapydd galwedigaethol yn fwy effro i broblemau sy'n codi neu a allai godi. Llwyddwyd i gyfathrebu'n well â defnyddwyr y gwasanaeth a darparu gwell gwybodaeth ar eu cyfer, ac y mae cleientiaid yn deall mwy am y broses a'r hyn sydd i'w ddisgwyl, o ganlyniad. Mae'r prosiect hefyd wedi darparu ar gyfer cydweithio'n fwy agos â ffisiotherapyddion er mwyn helpu defnyddwyr.

Cewch fwy o wybodaeth am brosiectau strategol eraill y Cyngor drwy gael golwg ar [y Compendiwm Cydweithio](#).

Barn ein Rheolyddion amdanom

Yn ôl gofynion Mesur Llywodraeth Leol Cymru, y mae'n rhaid i Archwiliwr Cyffredinol Cymru lunio adroddiad blynyddol ar Gynghorau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill o dan y teitl 'Adroddiad Gwella Blynyddol' sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a wnaethpwyd yn ystod 2014-15. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (Medi 2015) oddi wrth yr Archwiliwr Cyffredinol ar y cyfan yn cymeradwyo ein cynlluniau ar gyfer gwella dulliau o ddarparu gwasanaethau. Yn ôl yr Adroddiad, "Mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n dda yn ôl y dangosyddion cenedlaethol a rheoli ei gyllid yn effeithiol. Mae ei drefniadau ar gyfer cynllunio ymlaen llaw a'i gynnydd hyd yma'n argoeli'n dda ar gyfer gwella yn ystod 2015-16". Cyflwynwyd tri ar ddeg o gynigion ar gyfer gwella¹, ac y mae'r rheiny'n cael eu trin yng nghynlluniau perthnasol y Cyngor. Dyma brif ddarganfyddiadau'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod 2014-15:

- Swyddfa Archwilio Cymru: Mae perfformiad cyffredinol y Cyngor yn ôl y dangosyddion cenedlaethol yn gymharol gryf. Er y gall y trefniadau sicrhau gwell perfformiad yn ôl dangosyddion penodol, ni chawn ddarlun digon eglur o'r canlyniadau.
- Swyddfa Archwilio Cymru: Mae'r Cyngor yn llwyddo i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd amgylcheddol nag y sydd yn hanfodol er i'w gyllidebau gael eu tocio ac iddo golli cymaint o staff.
- Mae'r Cyngor wedi cyrraedd ei nod gwreiddiol o ddarparu 'grantiau cyfleusterau i'r anabl' yn gynt ond y mae'r gwerthuso'n canolbwyntio ar ychydig o wybodaeth yn unig ac nid yw'r cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn ddigon strategol.
- Estyn: Mae'r Cyngor wedi cymryd camau tuag at weithredu rhai o argymhellion yr archwiliad.

¹ Mae cynigion gwella yn fater is-blaenoriaeth a nodwyd gan ein rheolyddion yn ystod gwaith archwilio. Bydd ein rheolyddion yn dilyn i fyny ar y cynnydd a wnaed y Cyngor mewn ymateb i'r cynigion yma.

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Mae'r Cyngor wrthi'n gwella ei wasanaethau ar gyfer dinasyddion bregus. Serch hynny, dylai wneud mwy o ymdrech i drefnu lleoliadau mwy sefydlog ar gyfer 'plant dan ofal', a gofalu am y bobl ifanc fwyaf bregus o blith y rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.
- Swyddfa Archwilio Cymru: Er bod y Cyngor yn monitro nifer y Taliadau Tai Dewisol a'r rhesymau dros eu cynnig, nid yw ei drefniadau monitro o gymorth i weld yr effaith y byddant yn ei chael.
- Comisiynydd y Gymraeg: Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei ddarpariaeth Gymraeg sy'n cynnwys hyfforddi staff a chydweithio'n agos ag Urdd Gobaith Cymru.
- Swyddfa Archwilio Cymru: Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli cyllid.
- Swyddfa Archwilio Cymru: Mae'r Cyngor yn dal yn benderfynol o lunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig cadarn, ond y mae gosod cyllidebau ar gyfer y dyfodol yn dipyn o her o hyd yn yr hinsawdd ariannol bresennol.
- Swyddfa Archwilio Cymru: Mae Strategaeth Adlunio Gwasanaethau'r Cyngor yn cydymffurfio â chôd ymarfer da ac yn dangos bod yr awdurdod yn dilyn y prosesau cywir ar gyfer gweddnewid.
- Swyddfa Archwilio Cymru: Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd a rheoli sy'n helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o safbwynt diogelu plant, ar y cyfan yn ddigonol, ond y mae lle i wella.
- Swyddfa Archwilio Cymru: Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 o safbwynt archwilio cynlluniau ac adroddiadau gwella.
- Cyhoeddodd yr Archwilydd farn ddiamedod ar ddatganiadau cyfrifon y Cyngor a gadarnhaodd eu bod yn ddehongliad cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor.

Cewch ddarllen ein Hadroddiad Gwella Blynyddol drwy fynd i www.wao.gov.uk

Barn ein trigolion amdanom

Drwy annog cwsmeriaid i rannu eu barn am wasanaethau a'u profiad ohonynt, cawn hybu cydweithrediad rhwng y Cyngor a dinasyddion a gwella gwasanaethau. Mae ymgysylltu â dinasyddion hefyd yn un o werthoedd craidd y Cyngor a restrwyd yn ei Gynllun Corfforaethol. Drwy archwilio profiad a boddhad cwsmeriaid, byddwn hefyd yn cael gweld ein perfformiad drwy lygaid y cyhoedd. Gweler isod grynodedb o brif ddarganfyddiadau ein harolwg diweddaraf o'r farn gyhoeddus – [Arolwg Barn Gyhoeddus 2014/15](#) a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Medi 2014 drwy gyfnewid â 904 o drigolion mewn oed yn y Fro.

Cynhelir Arolwg Barn Gyhoeddus bob hyn a hyn drwy siarad â sampl cynrychioliadol o drigolion o bob rhan o ardal y Cyngor. Casglu barn trigolion y Fro am wahanol agweddau ar wasanaethau'r Cyngor a dulliau o ddarparu gwasanaethau yw diben yr Arolwg.

Mae'r Arolwg yn dangos ein bod ar y cyfan yn perfformio'n dda o safbwynt pa mor fodlon yw cwsmeriaid ar wasanaethau'r Cyngor. Er i'r ffigurau boddhad ar gyfer lluo o wahanol wasanaethau ddirywio ychydig ers 2012, y mae lefel y boddhad yn gymharol uchel o hyd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn yr Arolwg er enghraifft (84%) yn fodlon ar y cyfan ar wasanaethau'r Cyngor. Er i lai o bobl fynegi barn

gadarnhaol nag yn ystod 2012 (pan gofnodwyd canran o 93%), y mae lefel y boddhad yn dal yn uchel. Yn ôl yr Arolwg y mae 1 o bob 6 o drigolion (16%) erbyn hyn yn anfodlon ar wasanaethau'r Cyngor ac yr oedd 7% yn unig yn ystod 2012. Gellir priodoli'r dirywiad yn lefel y boddhad rhwng 2012 a 2014 i raddau i effaith torri cyllidebau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Gweler isod brif ddarganfyddiadau'r Arolwg Barn Gyhoeddus o safbwynt profiad a boddhad cwsmeriaid wrth iddynt ymwneud â gwasanaethau'r Cyngor:

Canol Trefi

Gofynnwyd yn yr Arolwg Barn i ymatebwyr fynegi barn am ganol y trefi y buont yn ymweld â hwy. Roeddynt dipyn yn fwy positif am y Bont-faen a Llanilltud Fawr nag am unrhyw drefi eraill yn y Fro. Roedd dros 9 o bob deg o ymwelwyr â'r trefi hynny'n teimlo bod canol y dref un ai'n weddol dda (94%) ynteu'n dda iawn (98%). 89% o ymwelwyr a deimlai fod canol tref Penarth un ai'n weddol dda ynteu'n dda iawn ond yr oedd y farn am Y Barri'n llawer mwy cymysg. Er i'r rhan fwyaf o ymatebwyr fynegi barn weddol bositif am Y Barri, teimlai rhai fod canol y dref un ai'n eithaf gwael ynteu'n wael iawn. 38% a deimlai felly am Heol Holton a 41% hefyd am y Stryd Fawr a Broad Street. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr egluro pam y teimlent fod canol y dref yn 'wael', y rhesymau a roddent amlaf oedd 'am fod golwg ddi-raen arno' neu 'am fod y dewis o siopau'n wael'.

Pan ofynnwyd am hygyrchedd canol trefi, dywedodd ymatebwyr fod y gwasanaethau bysiau'n hawdd eu defnyddio a bod darpariaeth dda ar gyfer cerddwyr a 9 o bob 10 a deimlai fod eu trefi un ai'n dda iawn ynteu'n weddol dda yn hynny o beth. Roedd pobl hefyd yn fodlon iawn ar y ddarpariaeth reilffordd ac eithrio yn Y Bont-faen wrth reswm am nad oes yr un orsaf drenau yn y fan honno. Roedd yr ymateb i'r ddarpariaeth ar gyfer seiclwyr yn llawer mwy cymysg gyda 9 o bob 10 (87%) yn dweud ei bod un ai'n gweddol dda ynteu'n dda iawn yn Llanilltud Fawr ond 55% yn unig yn ei chymeradwyo yn Y Barri (Y Stryd Fawr/Broad Street). Roedd ymatebwyr yn fwy beirniadol o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir yng nghanol trefi yn enwedig ym Mhenarth a'r Barri.

Canolfannau Hamdden

Roedd pobl ar y cyfan yn fodlon ar ganolfannau hamdden gydag 8 o bob 10 o ymatebwyr (83%) un ai'n weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn. Serch hynny, er bod y mwyafrif yn dal yn fodlon, y mae llai o foddhad nag yn ystod 2012 pan ddywedodd 94% o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae canran defnyddwyr canolfannau hamdden sy'n fodlon ar y gwasanaeth wedi cynyddu o 6% yn 2012 i 17% yn 2014. Bu cryn dipyn o ganmol ar hygyrchedd canolfannau hamdden gyda 9 o bob 10 unigolyn (92%) yn dweud eu bod yn fodlon ar y ddarpariaeth, ac yr oedd yn agos i'r un nifer o bobl (89%) yn fodlon hefyd ar y wybodaeth a ddarperir am weithgareddau. Canran y rhai sy'n fodlon ar 'lanweithdra adeiladau' (72%) a'r rhai sy'n fodlon ar 'y gweithgareddau ar gynnig' (86%) sydd wedi gostwng fwyaf. Mae canran y rhai sy'n fodlon ar brisiau a pharcio fel petai wedi sefydlogi gyda 84% yn mynegi bodlonrwydd yn y naill achos a 79% yn y llall.

Cynnal a chadw'r priffyrdd

Mae'r ganran sy'n fodlon ar safon cynnal a chadw'r priffyrdd wedi aros yn uchel ar y cyfan gydag ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr (77%) yn dweud eu bod un ai'n weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth. Serch hynny, y mae'r ganran wedi gostwng ers 2012

pan ddywedodd 86% o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae'r ffigurau ar gyfer bodlonrwydd fesul y math o wasanaeth wedi aros yn debyg i ffigurau 2012. Y gwasanaethau a fodlonai ymatebwyr fwyaf oedd: arwyddion traffig ac arwyddion stryd (94%), clirio'r ffordd ar ôl damwain ffordd (92%) a goleuadau stryd (91%). Mewn arolygon blaenorol, nodwyd gostyngiad yn y nifer sy'n fodlon ar wasanaethau fel graeanu ffyrdd, cynnal a chadw ffyrdd a chynnal a chadw palmentydd. Dengys ffigurau arolwg 2014 fod pobl yn fwy neu lai'r un mor fodlon ar wasanaethau graeanu ffyrdd (78%) a chynnal a chadw ffyrdd (41%) eleni ag yr oeddynt yn ystod 2012. Canran y rhai sy'n fodlon ar y gwasanaeth cynnal a chadw palmentydd sydd wedi gostwng fwyaf serch hynny, am ei bod yn 51% eleni o'i chymharu â 68% yn 2012.

Cynnal a chadw parciau a thiroedd

Mae pobl yn dal yn fodlon iawn ar y ddarpariaeth ar gyfer cynnal a chadw parciau a thiroedd a 92% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod un ai'n weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth. Bron i hanner y rhai a ymatebodd (45%) a ddywedodd eu bod yn fodlon iawn. Mae hyn yn weddol debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2012. Glanweithdra parciau gwledig a gafodd gydnabyddiaeth arbennig gyda 96% yn dweud eu bod un ai'n weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn arno.

Rheoli gwastraff a glanweithdra

Mae cryn nifer o bobl yn fodlon ar y gwasanaeth rheoli gwastraff a glanweithdra ar y cyfan sef 88% yn achos y naill ddarpariaeth ac 84% yn achos y llall. Y gwasanaethau ailgylchu o ochr y ffordd a chasglu gwastraff swmpus a oedd wrth fodd y nifer mwyaf o bobl, a 9 o bob 10 o drigolion (sef 91% a 90% yn ôl y ffigurau) a ddywedodd eu bod yn fodlon ar y darpariaethau hynny. Serch hynny, yr oedd pobl yn llai bodlon ar doiledau cyhoeddus a'r gwasanaeth glanhau strydoedd gyda 57% yn cymeradwyo'r naill ddarpariaeth a 78% yn cymeradwyo'r naill.

Bu gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r darganfyddiadau hyn i gyfoethogi eu rhaglen wella ar gyfer 2015/16 ac y maent yn cael sylw yng nghynlluniau perthnasol y Cyngor.

Ein Cyllideb

Mae Cyngor y Fro'n dal i wynebu cyni economaidd difrifol a bydd yn rhaid iddo arbed mwy o arian nag erioed o'r blaen yn ystod y tair blynedd nesaf yn ogystal â gweithredu agenda wella uchelgeisiol. Wrth fod costau a'r galw am wasanaethau ar gynnydd a nawdd yn crebachu, bydd yn rhaid i'r Cyngor arbed £6.8 miliwn yn ychwanegol yn ystod 2015/16, a dim ond drwy weddnewid ei ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau y gall wneud hynny.

Gwnaethom gynnydd da yn ystod 2014/15 a llwyddo i arbed £6.7 miliwn drwy weithio'n fwy effeithiol a chymryd amryw o gamau eraill. Serch hynny, bydd yn rhaid i ni weithio gryn dipyn yn galetach os ydym am arbed y swm a ragnodwyd ar gyfer 2015/16 a'r blynyddoedd i ddod (sef £24.7 miliwn yn ystod y 3 blynedd nesaf).

Bydd y Cyngor yn cael y rhan fwyaf o'i nawdd refeniw net (72%) oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant Cymorth Refeniw a'r Pwll Ardrethi Annomestig. Yr arian hwn ynghyd yw Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor sef prif elfen cyllideb refeniw blynyddol yr Awdurdod a oedd yn £214.331 miliwn yn 2014/15. Daw gweddill y nawdd (28%) o Dreth y Cyngor.

Bu'r Cyngor yn penderfynu ar ei gyllideb ar gyfer 2014/15 drwy ymgynghori â'r prif randdeiliaid sef panel Barn y Fro, Fforwm Strategaeth 50+, Cynghorau Tref a Chymuned, Siambrau Masnach, aelodau etholedig a Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Dangosodd canlyniadau'r ymarfer fod gan lawer o drigolion y Fro dipyn o olwg ar y gwasanaethau y bydd y Cyngor yn eu darparu. 23% o ymatebwyr yn unig a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth isel i lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, er mai dyna'r flaenoriaeth gorfforaethol a ddenodd yr ymateb lleiaf positif.

Dysgu a Sgiliau oedd y maes yr oedd y nifer mwyaf o ymatebwyr (59%) yn ystyried y dylid rhoi blaenoriaeth uchel iddo a'r nifer lleiaf (7%) yn ystyried y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddo. Yr Amgylchedd oedd y flaenoriaeth gorfforaethol a gafodd y gefnogaeth fwyaf wedyn, a 57% a oedd am i'r Cyngor roi blaenoriaeth uchel iddi yn y dyfodol agos. Arweiniad Cymunedol hefyd oedd yn bwysig gan ymatebwyr, a 54% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i'r maes hwnnw ac 8% yn unig a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddo. 55% o ymatebwyr a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i waith sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc tra bod 13% yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth isel i waith felly. Roedd Diogelwch Cymunedol a Chyhoeddus ar y cyfan yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel gyda 47% yn ategu hynny a 15% yn unig yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddo. Tai oedd y flaenoriaeth gorfforaethol a gafodd yr ymateb mwyaf cytbwys yn ôl pob golwg. 48% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth uchel iddi, 35% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth ganolig iddi a 18% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddi yn y dyfodol agos.

Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos na wŷr trigolion y Fro'n aml pa wasanaethau sy'n rhan o orchwyl gwaith yr awdurdod lleol. Awgryma'r sylwadau a ddaeth i law fod trigolion wedi drysu ynglŷn â rhai agweddau ar ein gwaith – e.e. lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles - ac yn pryderu bod y Cyngor yn ariannu gwasanaethau na ddylai fod yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod 2014/15, gwariodd y Cyngor 48% o'i gyllideb ar wasanaethau addysg a llyfrgelloedd, 25% ar wasanaethau cymdeithasol, 10% ar adeiladu a gwasanaethau gweladwy, 8% ar amddiffyn y cyhoedd a pholisi, 6% ar dai eraill, budd-daliadau a chymorth treth y cyngor a 3% ar gynllunio, trafndiaeth, datblygu economaidd a hamdden. Mae arian cyllideb ar gyfer gwasanaethau fel addysg wedi'i ddiogelu a'n her wrth symud ymlaen yw lleihau gwariant yn y meysydd eraill.

Yn ystod 2014/15, gwariodd y Cyngor £58 miliwn ar brosiectau cyfalaf. Ariannwyd hyn drwy fenthyciadau, grantiau, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw.

Er mwyn ymateb i her agenda gyni'r llywodraeth ganolog, y mae Cyngor y Fro wedi sefydlu Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Bydd y rhaglen hon yn ein cymell i gydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn dod o hyd i ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau, am mai dyna'r unig obaith sydd gennym bellach o allu cynnal dewis eang o wasanaethau o safon yn y dyfodol. Byddwn yn seilio'r Rhaglen Ail-

Iunio ar raglen ymgynghori gyhoeddus fanwl, er mwyn cael gwybod barn trigolion am flaenoriaethau'r Cyngor, cyllidebau, gwahanol ddulliau o ddarparu gwasanaethau a'r modd y gellid defnyddio'r rhain i ddatrys y problemau sylweddol sy'n codi oherwydd y toriadau.

Cewch ragor o wybodaeth am y gyllideb yn y [Datganiad Llawn o Gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2014/15](#).

3. Ein Hamcanion Gwella'n fanwl

3.1 Gwella Sgiliau, Gwybodaeth a Chyfleoedd

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol

Mae gan ddinasyddion y Fro'r sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle sydd ganddynt.

Amcan Gwella 1

Sicrhau bod pobl leol yn haws eu cyflogi drwy roi mwy o gyfle iddynt ddysgu a meithrin eu sgiliau gwaith a galwedigaethol.

Arwyddion Llwyddo

- Mae'r rhai sy'n chwilio am waith yn fwy hyderus.
- Mae pobl a fu'n ddiwaith ers amser hir yn cael eu cyflogi.
- Bydd mwy o oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yn ennill cymwysterau achrededig.
- Mae mwy o swyddi mwy cynaliadwy ar gael.
- Mae mwy o ddysgwyr o grwpiau â blaenoriaeth a mwy o ddysgwyr o blith y ddengradd isaf o'r boblogaeth o ran amddifadedd yn mynd ati i ddysgu ac ennill sgiliau.
- Mae mwy o gyfle i rai sy'n chwilio am waith fanteisio ar hyfforddiant TG a hyfforddiant ar-lein.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rheswm canlynol:

- Drwy gydweithio â phrif bartneriaid, buddsoddwyr a phrosiectau adfywio yr ydym wedi sicrhau bod cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i bobl dderbyn hyfforddiant a gweithio. Gwnaethom hyn drwy ganolbwyntio ar symud y rhwystrau a oedd yn eu cadw rhag dysgu a chael hyd i swydd a thrwy feithrin eu sgiliau. O ganlyniad, y mae gan bobl fwy o hyder, bu mwy o bobl yn gyffredinol yn manteisio ar y cyfle i dderbyn hyfforddiant a gweithio ac y mae mwy o gleientiaid yn y pendraw wedi cael eu cyflogi.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Ers y llynedd, y mae mwy o bobl wedi manteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant a gwaith cyflogedig sy'n targedu'r di-waith hirdymor a phobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. Cafodd mwy o gleientiaid swyddi ar ôl cwblhau eu cyrsiau o ganlyniad i hyn, a bu o gymorth hefyd i ostwng canran y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant o 3.8% yn 2013/14 ac yn 2.78% yn 2014/15.

Mae nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi'n lleol yn cynyddu ar y cyfan, ac y mae llai o ddiweithdra yn y Fro nag sydd yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol. Yn hydref 2014, trefnwyd swydd ar gyfer y diweddaraf o 500 o bobl ddi-waith hirdymor y llwyddwyd i'w lleoli drwy'r Rhaglen Waith yn unig. 565 o gwsmeriaid a gyflogwyd ers dechrau'r rhaglen ar ddiwedd 2011.

Mae ein Gwasanaeth Hyfforddiant ar gyfer Swydd, yn dal i roi cefnogaeth unigol i gwsmeriaid ar y Rhaglen Waith drwy nifer o gynlluniau amrywiol er mwyn iddynt allu dod o hyd i waith cyflogedig parhaol. Drwy gynnal sesiynau mewnol am bynciau fel ysgogiad, llunio CV, technegau cyfweliad ac ymglyfwyno, bydd yn eu cefnogi am hyd at 104 o wythnosau ar y tro er mwyn eu paratoi ar gyfer eu cyflogi. Bydd hyfforddwyr swyddi'n helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i swyddi, defnyddio Universal Jobmatch, dysgu sgiliau cyfweliad a llunio ceisiadau a llythyron eglurhaol. Rydym hefyd wrthi'n ehangu'r gwaith hwn ar y cyd â Chymunedau'n Gyntaf er mwyn cael cefnogi cwsmeriaid ar y Rhaglen Waith sy'n bwriadu ymgeisio am nawdd arbennig ar gyfer dilyn hyfforddiant mewn wardiau Cymunedau'n Gyntaf.

Ers dechrau'r Rhaglen Waith ym Mehefin 2011, llwyddwyd i leoli 24 o bobl ifanc yn y Cyngor drwy gynllun prentisiaethau cwmni recriwtio Acorn. Roedd 8 o'r rhain wedi'u dosbarthu fel 'pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'. Rydym yn dal i gydweithio'n agos â'r adran hyfforddiant corfforaethol er mwyn cael hyd i gyfleoedd i gwsmeriaid cymwys yn y dyfodol drwy astudio ein hachosion presennol. Bu hynny'n llwyddiannus iawn a gwelwyd cwsmeriaid yn symud ymlaen i swyddi eraill cynaledig ar ôl cwblhau eu prentisiaethau. Rydym yn y broses o gysylltu â chyflogwyr lleol ar hyn o bryd, a bydd hyfforddwyr swyddi'n gwneud eu gorau i leoli'r cwsmeriaid sydd leiaf tebyg o allu manteisio ar y farchnad lafur mewn lleoliadau tymor byr er mwyn iddynt gael mwy o brofiad gwaith. Mae cnewyllyn o gwsmeriaid ar ôl ym mlwyddyn olaf y rhaglen bellach, a byddwn yn parhau i gydweithio â Thîm Busnes Adran Datblygu Economaidd y Cyngor er mwyn ceisio dod o hyd i gyfleoedd newydd ar gyfer y rhain.

Rhoddyd cymorth ychwanegol hefyd i oedolion sy'n ddi-waith ers cyfnod hir a phobl ifanc yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn benodol, ac y yr oedd hwnnw'n cynnwys ffair swyddi flynyddol. Ymhlith y rhai a fu'n dilyn cyrsiau'n ymwneud â chyflogaeth, 317 a ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â chwilio am swyddi erbyn hyn ac yr oedd 147 wedi'u dosbarthu fel pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. Roedd llawer o bobl wedi mynychu'r cyrsiau, a llwyddwyd i leoli 90 o bobl ddi-waith hirdymor mewn swyddi yn ystod 2014/15. 33 o'r rhai oedd rhai a ddosbarthwyd fel pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. Drwy gynnal grwpiau ffocws yn rheoliad gyda defnyddwyr, yr ydym wedi llwyddo i lunio ein gwasanaethau yng ngoleuni barn cwsmeriaid ac amgylchedd allanol sy'n heriol, yn enwedig o safbwynt y newidiadau i fudd-daliadau lles a gofynion Canolfannau Byd Gwaith ac Adran Gwaith a Phensiynau'r llywodraeth. Rydym hefyd yn helpu trigolion i gofleidio'r dechnoleg ddigidol newydd drwy sicrhau bod cyngor a chefnogaeth ar gael gan y Ganolfan Gyngori ac ar gyfer defnyddio TG i'w helpu i fynd ar-lein, ymgeisio am swyddi, defnyddio universal jobmatch ac arbed arian drwy dalu

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

biliau ar-lein. Mae'r sesiynau 'galw i mewn' a gynhelir tair gwaith yr wythnos yn boblogaidd, ac yn ystod 2014/15, 82 a ddysgodd sgiliau sylfaenol TG, 81 a ddywedodd eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur a 81 o bobl a oedd yn gallu defnyddio gwasanaethau TG.

Rydym yn parhau i gydweithio â phrif gyflogwyr y Fro sy'n cynnal prosiectau adfywio, a rhai sy'n buddsoddi yn yr ardal er mwyn darparu prentisiaethau a lleoliadau profiad gwaith, fel y caiff pobl leol o bob oedran feithrin eu sgiliau a dod o hyd i swyddi. Trefnwyd canolfannau recriwtio'n ddiweddar ar gyfer Whitbread ac ASDA. Byddwn hefyd yn cydweithio â'r cwmnïau sy'n arwain y prosiect ailddatblygu wrth Gyffordd 34 (traffordd yr M4) ac yn dal i gysylltu â chonsortium Ardal Glannau'r Barri sydd wrthi'n cynnal prif brosiect ailddatblygu'r Cei Gorllewinol ar hyn o bryd. Bu rhwng 150 a 170 o gleientiaid Canolfan Byd Gwaith, y Rhaglen Waith a Chymunedau'n Gyntaf yn mynychu sesiynau ffocws ASDA. 60 a fynychai'r sesiynau hyfforddi grŵp ynglŷn â chyfweliadau ac 21 a gafodd help unigol i wneud ceisiadau a pharatoi ar gyfer cyfweiliad. Drwy gael cymorth uniongyrchol, bu 55 o gleientiaid ychwanegol yn llwyddiannus yn eu cais ac wedi'u gwahodd i gyfweiliadau grŵp 'ASDA magic'. 4 o gleientiaid y Rhaglen Waith a lwyddodd i gael swyddi yn ASDA. Yn ogystal â hyn, crëwyd 24 o brentisiaethau newydd a'u rhoi i bobl leol yn ystod 2014/15 drwy gydweithio â phartneriaid a chontractwyr.

Rydym hefyd wedi parhau i adeiladu ar etifeddiaeth Rhaglen Adfywio Ardal Y Barri a fu'n achos i lawer o arian cyfalaf gael ei fuddsoddi mewn parciau, manau agored a chymunedau yn Y Barri. Mae hyn wedi rhoi cyfle i bobl leol o bob oedran feithrin eu sgiliau a chael hyd i waith.

Mae llawer o waith yn dal i gael ei wneud ar y cyd ag Addysg Oedolion ac Addysg Gymunedol y Fro, Tai Newydd a Chanolfan Gynghori Caerdydd a'r Fro i annog pobl i gofleidio'r dechnoleg ddigidol newydd. Bydd darpariaeth mewn amryw o fannau ar draws y Fro am nifer o oriau'r wythnos ar gyfer trigolion sydd am ddefnyddio cyfrifiadur a dysgu sgiliau TG sylfaenol dan arweiniad tiwtor. Bydd llawer o bobl wahanol yn dod i'r sesiynau hyn. Yn ogystal â rhai diwaith sy'n chwilio am help i anfon neges e-bost bydd pobl oedrannus hefyd yn dod i ddysgu defnyddio tabledi, archwilio gwefannau cymharu er mwyn cael talu llai am eu tanwydd a siarad â pherthnasau drwy raglen skype. Mae hyn i gyd yn helpu i sicrhau bod llai o bobl yn cael eu hynysu'n gymdeithasol.

Ar y cyd â Chanolfan Byd Gwaith ac Addysg Oedolion yn y Gymuned, buom yn hyrwyddo llawer o weithgareddau yn ein llyfrgelloedd ar gyfer rhai sy'n anghyfarwydd â'r dechnoleg ddigidol, a byddwn yn dal i gynnig dosbarthiadau a sesiynau i drigolion y Fro. Mae 10 sesiwn Clwb Gwaith/ Universal Jobmatch yn rhedeg ar hyn o bryd, a bydd pob un o'r rhain ar gyfartaledd yn denu 5 o ddysgwyr. Hefyd, mae cyfrifiaduron i'w defnyddio ar y pryd yn ein canolfannau addysg oedolion yn y gymuned ar gyfer unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd am feithrin ei sgiliau digidol a sgiliau ar gyfer chwilio am waith gyda chymorth y staff. Mae'r sesiynau hyn yn targedu cynulleidfa fwy manwl erbyn hyn ac wedi'u seilio ar ymgynghori ehangach â defnyddwyr. 84% o ddefnyddwyr a enillodd y cymwysterau achrededig a ddarparwyd ar gyfer y grwpiau hyn.

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi llunio strategaeth cynhwysiant digidol er mwyn gwella sgiliau trigolion a chwsmeriaid fel y bo modd iddynt gyfathrebu'n fwy hyderus â'r awdurdod a defnyddio gwasanaethau ar-lein pan fo angen. Mae hefyd yn parhau i ymwneud â grwpiau targed drwy nifer o gynlluniau amrywiol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd. Prosiect a gynhelir ar y cyd â phartneriaid er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl y Fro drwy eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau digidol yw 'Get the Vale Online'. Drwy gydweithio â phartneriaid - sef Tai Newydd,

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Cymunedau 2.0, Cymunedau'n Gyntaf Y Barri a Chanolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro - yr oeddem wedi llwyddo yn ystod 2014/15 i greu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd ym mhob rhan o'r Fro i bobl ddefnyddio cyfrifiaduron sy'n cysylltu â'r rhyngwyd. Crëwyd cyrsiau TG ar bob lefel hefyd gan gynnwys hyfforddiant unigol ar gyfer dechreuwyr. Drwy ddefnyddio 'Hyrwyddwyr Digidol' - sef aelodau o'r cyhoedd a hyfforddwyd ar gyfer gwirfoddoli - byddwn yn parhau i annog mwy o bobl i fynd ar-lein a manteisio i'r eithaf ar dechnolegau digidol.

Rydym wedi ymgorffori sgiliau hanfodol a llythrennedd digidol ym mhob rhan o gwricwlwm Addysg i Oedolion yn y Gymuned er mwyn codi dyhead dysgwyr. I'r un perwyl, yr ydym hefyd wedi hyfforddi staff a thiworiaid ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llunio llyfrau gwaith i diwtoriaid er mwyn cael datblygu cynlluniau ar gyfer gwersi gyda chymorth swyddog achredu. Bydd pob tiwtor sy'n dilyn ein rhaglen ddysgu â blaenoriaeth, hefyd yn dilyn cwrs lefel 2 mewn ymgorffori sgiliau hanfodol yn ystod gwyliau'r haf, sy'n adeiladu ar hyfforddiant blaenorol ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth.

Drwy fod yn rhan o Bartneriaeth Ddysgu Caerdydd a'r Fro, yr ydym wedi dysgu cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd strategol sy'n gydnaws â phroffil y Fro ac yn darparu ar gyfer anghenion dysgwyr y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Mae adroddiad diweddaraf Estyn (Ionawr 2015) yn cydnabod bod 'grwpiau cwricwlwm a dilyniant y bartneriaeth wedi cydweithio'n effeithiol er mwyn symud rhwystrau a datblygu cwricwlwm mwy pwrpasol'. Am fod gennym lai o adnoddau erbyn hyn ac i ni ganolbwyntio ar y dysgwyr a gafodd flaenoriaeth, yr oedd llai o gofrestrïadau a llai o ddysgwyr unigol yn gyffredinol eleni. Serch hynny, y mae'r gyfran o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau achrededig wedi cynyddu a bydd y rheiny hefyd yn llwyddo'n well. Llwyddwyd yn gyffredinol i gadw mwy o'r dysgwyr â blaenoriaeth (sef rhai yn y ddengradd isaf o ran amddifadedd) a chododd ganran o 81% yn 2013/14 i 85% yn 2014/15. Yn yr un modd, yr oedd nifer y rhai o'r grŵp hwn a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau wedi cynyddu o 10% yn 2013/14 ac o 32% yn 2014/15. Roedd nifer y rhai o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn y Fro a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau wedi cynyddu o 6% yn 2013/14 ac o 52% yn 2014/15. 84% o'r rhai o'r grŵp hwn a ddilynodd gyrsiau yn ystod 2013/14 a enillodd gymwysterau.

Byddwn yn sicrhau bod mwy o gyfle ar hyd yr amser i oedolion y Fro gael cymwysterau drwy ddilyn cyrsiau addysg. Mae ein holl ddarpariaeth ar wahân i gyrsiau ymgysylltu a chyrtsiau blasu wedi'i hachredu erbyn hyn, sydd o gymorth i ni godi cyfraddau achredu a chwrrd â'r amodau ar gyfer derbyn grantiau. Gwellodd canlyniadau dysgwyr yn sylweddol yn ystod 2014/15, wrth i ganran y rhai a lwyddodd i ennill cymwysterau godi o 64% i 84%, a barnodd Llywodraeth Cymru fod y ddarpariaeth 'yn dda'.

Mae llawer o waith yn cael ei wneud i wella safon yr addysgu ar gyrsiau i oedolion yn y gymuned drwy fonitro gweithgarwch yn y dosbarth yn gyson a dilyn rhaglenni gwella cwrs. Yn ôl adroddiad diweddar Estyn (Ionawr 2015), yr oedd ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y sesiynau sampl a wylwyd yn dda ac yn well nag a nodwyd mewn sesiynau yn ystod yr archwiliad blaenorol. 86% oedd canran llwyddiant dysgwyr y Fro yn ystod 2014/15, sef yr un fath yn union ag yng Nghymru'n gyffredinol.

Faint wnaethom ni?							
	Perfformiad 2012/13)	Perfformiad 2013/14)	Targed 2014/15)	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad ²	Cyfeiriad y cynnydd ³
Nifer y cleientiaid o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a gwblhaodd gyrsiau'n ymwneud â gwaith.		89	180	217		☺	↑
Nifer y cleientiaid ar y Rhaglen Waith a gwblhaodd gyrsiau'n ymwneud â gwaith.		90	80	103		☺	↑
Nifer y cleientiaid a ddosbarthwyd fel rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant a gwblhaodd gyrsiau'n ymwneud â gwaith.			54	87		☺	
Nifer y rhai ar gyrsiau llythrennedd a rhifedd achrededig ar gyfer oedolion a ddaeth i ben â'r cwrs yn llwyddiannus.		224	81	207 ⁴		☺	↓
Nifer y rhai ar gyrsiau achrededig Addysg i Oedolion yn y Gymuned a ddaeth i ben â'r cwrs yn llwyddiannus.		93	89	1346*		☺	↑
Nifer y rhai ar gyrsiau SiSIE a ddaeth i ben â'r cwrs yn llwyddiannus.		81	81	55*		☹	↓
Nifer y rhai a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau i ddysgwyr â blaenoriaeth.			303	736*		☺	
Nifer y sesiynau gwaith (gan gynnwys cymorth wyneb yn wyneb) a gynhaliwyd o dan raglan Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer cleientiaid dros 25 oed er mwyn datblygu eu sgiliau gwaith a'u helpu i ddod o hyd i swyddi.			70	232		☺	
Nifer y sesiynau gwaith (gan gynnwys cymorth wyneb yn wyneb) a gynhaliwyd o dan raglan Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer cleientiaid a ddosbarthwyd fel rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.			100	173		☺	

² Statws y perfformiad: cyrraedd y targed neu ragori arno ☺; o fewn 10% o'r ganran darged ☹; methu'r targed o fwy na 10% ☹.

³ Cyfeiriad y cynnydd yw perfformiad 2014/15 o'i gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2013/14) yn ôl yr holl fesurau lleol. Cymherir perfformiad yn ôl mesurau cenedlaethol â pherfformiad Cymru'n gyffredinol yn 2014/15 pan fo hwnnw'n hysbys.

⁴* Data dros dro. Cyflwynir y data terfynol ar ddiwedd Medi 2015.

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y rhai ar gyrsiau llythrennedd a rhifedd achrededig ar gyfer oedolion a enillodd gymwysterau.	73		75	80		☺	
Canran y rhai ar gyrsiau achrededig Addysg i Oedolion yn y Gymuned a ddaeth i ben â'r cwrs yn llwyddiannus.	82	86	87	88		☺	
Canran y rhai ar gyrsiau SiSIE a ddaeth i ben â'r cwrs yn llwyddiannus.	65		70	71		☺	
Canran y rhai sy'n fodlon ar addysg i oedolion.				82%	77%		↑

Oes unrhyw un yn well ei fydd?							
	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sydd mewn gwaith neu addysg neu'n dilyn hyfforddiant.		95.65	81	92.8		☺	↓
Canran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.		3.8	4.2	2.78		☺	↑
Nifer y bobl leol a gafodd hyfforddiant a gwaith drwy eu recriwtio'n benodol a'u hyfforddi ym mhrosiectau adeiladau'r Cyngor.		48	24 (cyfwerth ag amser llawn)	24 (cyfwerth ag amser llawn)		☺	↓
Nifer y cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf a ddywedodd fod ganddynt fwy o hyder i chwilio am waith.		137	135	317		☺	↑
Nifer y cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf a gafodd waith.		14	24	90		☺	↑
Nifer y cleientiaid ar y Rhaglen Waith a gafodd waith.		219	160	163		☺	↓
Nifer y cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf a ddywedodd eu bod yn fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ar ôl cael eu hyfforddi.			75	81		☺	
Nifer y cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf a ddywedodd eu bod yn haws iddynt ddefnyddio gwasanaethau TG ar ôl cael eu hyfforddi.			75	81		☺	

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Nifer y cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf a ddysgodd sgiliau TG sylfaenol.			75	81		☺	
Canran y dysgwyr â blaenoriaeth ar gyrsiau achrededig a ddaeth i ben â'r cwrs yn llwyddiannus.			81	84*	84	☺	↔

Hanes ein perfformiad

Bydd mwy o drigolion ar gyrsiau addysg i oedolion yn y gymuned yn ennill cymwysteru achrededig ar hyd yr amser. Roedd canran y dysgwyr 'â blaenoriaeth' y llwyddwyd i'w cadw mewn addysg wedi codi o 81% yn 2013/14 i 85% yn 2014/15. Yn yr un modd, yr oedd y nifer o'r grŵp hwn a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau wedi cynyddu o 10% yn 2013/14 ac o 32% yn 2014/15. Roedd y nifer o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn y Fro a gofrestrodd hefyd wedi cynyddu o 6% in 2013/14 ac o 52% yn 2014/15. 84% o bobl o'r grŵp hwn a ddaeth i ben yn llwyddiannus â chysiau achrededig yn 2013/14.

Yn sgîl adroddiadau anfoddfaol o Addysg i Oedolion yn y Gymuned yng Nghaerdydd a'r Fro yn 2013, bu'r Bartneriaeth yn gweithio'n galed i ddilyn y chwe argymhelliad ar gyfer gwella a gynigiodd Estyn. Dyma a oedd gan Estyn i'w ddweud ar ôl cynnal ymweliad monitro ym mis Ionawr 2015 er mwyn pwysu a mesur cynnydd y Bartneriaeth yn ôl argymhellion ei adroddiadau:

- A1: Gwnaethpwyd cynnydd da iawn o safbwynt sicrhau bod dysgwyr yn gyffredinol yn llwyddo ac yn cael eu hachredu.
- A2: Gwnaethwyd cynnydd da iawn o safbwynt sicrhau bod addysg i oedolion yn y gymuned ym Mro Morgannwg yn cael ei harwain yn fwy strategol a'i rheoli a'i chyd-drefnu'n well fel y bo'n fwy cydnaws â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol; ac o safbwynt gosod targedau sy'n cymell perfformio'n well.
- A3 (i): Gwnaethpwyd cryn gynnydd o safbwynt ailwampio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr yr un cyfle i fanteisio ar gyfleoedd priodol ar gyfer dysgu.
- A3 (ii): Gwnaethpwyd cryn gynnydd o safbwynt meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ac o safbwynt sicrhau bod rhai sy'n dilyn cyrsiau addysg sylfaenol i oedolion yn arbennig yn cael cyfle i symud ymlaen i gyrsiau uwch..
- A4: Gwnaethpwyd cynnydd da iawn o safbwynt dadansoddi data'n fanwl a gwella'r prosesau ansawdd sy'n ymwneud â monitro ac asesu perfformiad yn effeithiol a gwella canlyniadau dysgwyr.
- A5: Gwnaethpwyd cryn gynnydd o safbwynt gwella ansawdd yr addysgu ar draws y bartneriaeth.
- A6: Gwnaethpwyd cryn gynnydd o safbwynt gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr a chanddynt broblemau iechyd a phroblemau personol sy'n amharu ar eu cynnydd.

Hanes ein perfformiad

Drwy gael cynnal prosiectau adfywio a denu buddsoddwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, byddwn yn parhau i sicrhau bod gan bobl leol a chymunedau gymaint o gyfle ag sy'n bosibl i weithio. Bu cynlluniau Cymunedau'n Gyntaf a'r Rhaglen Waith y Cyngor yn hwb i fwy fyth o bobl gofrestru ar gyfer hyfforddiant a gwaith eleni, a chafodd mwy o bobl swyddi ar ôl cwblhau eu cyrsiau. Y diwaith hirdymor a phobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant oedd prif darged y cynlluniau hyn.

O ganlyniad, gwelwyd nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant yn gostwng o 3.8% i 2.78%. Yn hydref 2014, trefnwyd swydd ar gyfer y diweddaraf o 500 o bobl ddiwaith hirdymor y llwyddwyd i'w lleoli drwy'r Rhaglen Waith yn unig. Yng Nghlwystr Cymunedau'n Gyntaf, dywedodd mwy o gleientiaid eu bod yn teimlo'n hyderus ynglŷn â chwilio am swyddi, a 90 o'r rhai a gafodd gymorth a lwyddodd i gael gwaith. Wrth symud ymlaen, y mae'n werth nodi y bydd tipyn yn llai o gleientiaid gennym yn y dyfodol am fod cynifer yn cael swyddi erbyn hyn a llai o bobl o ganlyniad yn cael eu cyfeirio atom.

Astudiaeth Achos 1: Darparu'n benodol ar gyfer cwrdd ag anghenion pobl ifanc

Ar ôl trafod â nifer o bartneriaid allweddol a phobl ifanc mewn sesiynau 'cymorth yn y maes', gwelwyd bod pobl ifanc yn arbennig o awyddus i ymgymhwyso ar gyfer gweithio yn y diwydiant rheilffordd. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cryn dipyn o arian eisoes mewn cynlluniau i wella rhwydwaith y rheilffyrdd. Felly, aeth Swyddog Datblygu 'Pobl Ifanc nad ydynt mewn Gwaith nac Addysg nac yn dilyn Hyfforddiant' ati'n benodol i gysylltu â hyfforddwyr Absolute Rail ac asiantaethau rheilffordd lleol er mwyn sicrhau bod cyfle i rai ifanc weithio yn y maes.

Yn ystod y 6 mis diwethaf, 8 o bobl ifanc a enillodd gerdyn cadw'n ddiogel ar y trac (hetiau glas) a 4 a gafodd swyddi o ganlyniad i'r cymorth penodol y bu'r Cyngor yn ei roi. Cawsant help i ymgeisio i asiantaethau rheilffordd ar ôl cwblhau eu cwrs. Un a fu'n cymryd rhan a ddywedodd, "Ar y cwrs cadw'n ddiogel ar y trac, dysgais nid yn unig amboiti gweithio ac ymddwyn yn ddiogel ar y safle, ond hefyd am y ffordd y bydd pethau'n cydweithio a chyd-fynd â'i gilydd, ac y mae gen i lawer mwy o syniad am y gwasanaeth y bydd y rheilffordd yn ei roi, o ganlyniad. Rwy am gysylltu â chwmnïau rheilffyrdd nawr a cheisio cael swydd lle mae cyfle am ddyrchafiad er mwyn i mi gael gyrfa yn y diwydiant sy'n rhoi sicrwydd i mi yn y dyfodol".

Bwriadwn ddarparu cyfleoedd tebyg yn ystod y flwyddyn i ddod am i'r cwrs cyntaf fod mor llwyddiannus, ac y mae nifer o bobl ifanc a ddosbarthwyd fel rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant eisoes wedi mynegi diddordeb yn y cynllun.

Astudiaeth Achos 2: Cynhwysiant Digidol

A) Bydd Diane 57 oed o Gibbonsdown yn gofalu am ei mab awtistaidd. Roedd ganddi beth profiad o ddefnyddio TG, ond nid oedd yn hyderus, ar yr oedd yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd, fel tynnu llun ar dabled iPad ac anfon neges e-bost. Roedd ei mab yn dod gyda hi i'r sesiynau cynhwysiant digidol ac yn defnyddio un o'n tabledi i bori ar y rhyngwyd a dysgu mwy am ei hobïau fel Dr. Who, er enghraifft.

Yn ystod un o'r sesiynau hyn, soniodd fod gan ei mab hen deganau yr oedd hi am eu gwerthu er mwyn iddo gael ychydig o arian i'w wario. Daeth â'r teganau i'r sesiwn nesaf, a chafodd ddysgu tynnu lluniau â chamera digidol a'u llwytho i fyny ar gyfer eu gwerthu ar Ebay. Llwyddodd Diane i restru'r holl eitemau ar ei phen ei hun a'u gwerthu, ac y mae'n bwriadu gwerthu pethau eraill erbyn hyn ac yn awyddus i brynu eitemau yn y farchnad / mewn arwerthiant cist car ar gyfer eu gwerthu ar-lein.

B) Prentis Modern Sylfaen yng Nghyngor y Fro sy'n byw yn ardal Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf yn Y Barri yw Michael. Bu'n cynorthwyo'r Swyddog Cynhwysiant Digidol mewn amryw o sesiynau 'galw i mewn' o amgylch dref. Nid oedd ganddo unrhyw brofiad ar y dechrau, ond o dipyn i beth, cafodd ddysgu sut i helpu gwahanol fathau o bobl i feithrin eu sgiliau TG. Daeth yn boblogaidd iawn gyda'r rhai a fynychai'r sesiynau, a thrwy weithio'n galed, cafodd swydd fel 'Hyrwyddwr Digidol' gyda Chymdeithas Tai Hafod yn y pendraw, a aeth â'i gyflog o £2.73 yr awr i fwy na'r lleiafswm cyflog.

Astudiaeth Achos 3: Darparu'n benodol ar gyfer y Diwaith Hirdymor

Mae Cyfranogwr A sydd dros 25 oed yn ddiwaith ers 10 mlynedd am ei fod yn camddefnyddio sylweddau a bod ganddo ffordd anhrefnus o fyw. Bu'n gweithio gyda'r Swyddog Cyflogaeth 25+ mewn sesiynau unigol i lunio CV a llythyr eglurhaol a deuai'n rheolaidd i'n clwb swyddi. Cafodd help ar y ffordd hefyd drwy gynllun gweithredu. Bu'r Swyddog Cyflogaeth 25+ yn helpu Cyfranogwr A i wneud cais am swydd gydag ASDA ac i baratoi ar gyfer cyfweiliad grŵp 'ASDA magic'. Llwyddodd Cyfranogwr A i gwblhau cyfweiliad grŵp 'ASDA magic', a chafodd ei wahodd i gyfweiliad unigol.

Cafodd ragor o gymorth unigol er mwyn ei baratoi ar gyfer y cyfweiliad. Ar ddiwrnod y cyfweiliad, cwrddodd y Swyddog Cyflogaeth 25+ ag ef er mwyn sicrhau bod popeth yn ei le a'i fod yn barod i wynebu'r cyfweiliad. Nid oedd Cyfranogwr A am fynd i'r cyfweiliad am fod nerfau gwyllt arno a'i fod yn gwbl ddihyder. Cadwodd y Swyddog Cyflogaeth 25+ gwmni iddo am awr neu ddwy cyn y cyfweiliad er mwyn trafod y cwestiynau, sgiliau cyfweiliad ac ati, yna aeth ag ef i'r cyfweiliad ac aros nes iddo orffen. Aeth Cyfranogwr A i'r cyfweiliad, cafodd ymateb rhagorol a phrofiad gwirioneddol bositif a chynigiwyd swydd iddo yn ASDA am 16 awr yr wytrnos. Hyd yn hyn, y mae'n mwynhau'r swydd a'r profiad ac y mae wedi cwrdd â ffrindiau newydd o ganlyniad.

Meysydd sydd angen eu gwella

Erbyn

1	Rhoi offeryn diagnostig Llywodraeth Cymru ar waith er mwyn cael asesu sgiliau sylfaenol ac olrhain, monitro a chofnodi canlyniadau dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg i oedolion yn y gymuned.	2015/16
2	Parhau i drin problemau eithrio digidol drwy ddefnyddio prosiect 'Ar-lein â'r Fro' i hyrwyddo gweithgareddau a chyfleoedd i feithrin sgiliau digidol.	2015/16
3	Parhau i gydweithio â phartneriaid er mwyn gallu cynnig cyrsiau hyfforddiant a gwaith cynaliadwy o safon i bawb.	2015/16

3.2 Diogelu ein Plant a'n Pobl Ifanc Fregus

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynlun Corfforaethol

Bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan, yn cael eu cefnogi ac yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd mewn bywyd sydd ar gael iddynt yn eu cymunedau lleol a'r byd ehangach.

Amcan Gwella 2

Sicrhau bod lleoliadau plant a phobl ifanc dan ofal yn fwy cynaliadwy a sefydlog.

Arwyddion Llwyddo

- Mae lleoliadau'n fwy sefydlog.
- Mae mwy o ofalwyr maeth mewnol cymeradwy.
- Bydd llai o arian yn cael ei wario'n gyffredinol fesul plentyn dan ofal ar leoliadau maeth.
- Bydd plant yn aros mewn lleoliadau lleol/yn dod yn ôl i leoliadau lleol.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rhesymau canlynol:

- Cyrhaeddodd ein nod o ddarparu rhagor o ofalwyr maeth mewnol, a daethom â naw o blant a oedd gynt wedi'u lleoli'r tu allan i'r ardal yn ôl i fyw yn y Fro.
- Er na lwyddwyd i wario llai o arian yn gyffredinol fesul plentyn dan ofal, digwyddodd hynny am fod 10 plentyn maeth ychwanegol i'w lleoli eleni. Eto i gyd, y mae'r plant a leolwyd gyda theuluoedd i gyd mewn cartrefi sefydlog yn yr ardal ac y mae hyn yn cyd-daro â phrif flaenoriaethau'r Cyngor. Nid ydym wedi gwario cymaint ar leoli plant mewn cartrefi preswyl y tu allan i'r ardal sy'n broses ddrutach.
- Barnodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ystod ei harchwiliad yn 2014 fod canlyniadau addysgol plant a phobl ifanc y Fro'n dra chadarnhaol. Byddwn yn parhau i weithio yn y tymor hir i ddarparu lleoliadau mwy sefydlog a chynaliadwy ar gyfer plant a phobl ifanc fregus fel mater o flaenoriaeth arbennig fel y mae'r Cyngor yn ei argymhell.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Mae'r Cyngor yn dal yn benderfynol o sicrhau bod cymaint o 'blant dan ofal' ag sy'n bosibl yn cael eu lleoli'n barhaol. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd yn adolygu pob agwedd ar y fframwaith statudol yn gyson er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â rhoi dewis llawn o drefniadau parhaol i bob plentyn a darparu ar ei gyfer yn brydlon. Mae wrthi hefyd yn cryfhau'r fframwaith sy'n darparu ar gyfer dod â phlant o dan ofal parhaol drwy eu mabwysiadu, eu rhoi yng ngofal gwarcheidwad arbennig, eu dychwelyd i ofal eu rhieni neu'u lleoli gyda gofalwr maeth yn y tymor hir pan fo hynny'n addas. Drwy ddarparu dewis o leoliadau, ceisiwn sicrhau bod lle addas ar gyfer pob plentyn. Mae staff hefyd wedi ymrwymo i drefnu a chefnogi dulliau o ymyrryd yn y broses pan fydd tystiolaeth i gyfiawnhau hynny, a bydd hyn yn ei dro'n ysgogi gwell ymarfer a gofal.

Cymerwyd camau sylweddol tuag at ymestyn gwasanaeth maethu mewnol y Cyngor drwy ddatblygu Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth a phenodi gweithiwr cymdeithasol yn swyddog recriwtio. Recriwtio gofalwyr er mwyn cael cynnig rhagor o wasanaethau seibiant, lleoliadau ar gyfer brodyr a chwiorydd a lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yw gwaith y swyddog hwnnw. Mae Rhaglen Faethu Gydweithredol y De-ddwyrain yn cael ei hystyried yn batrwm o ymarfer da sy'n marchnata, recriwtio ac yn cael gafael ar leoliadau costus yn y rhanbarth. Bu'r ffordd newydd hon o weithio o gymorth i'r Cyngor gyrraedd ei darged o recriwtio 8 o ofalwyr maeth newydd yn ystod 2013/14, a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Cymeradwywyd 9 o ofalwyr maeth yn ystod 2014/15, ac y mae 7 arall yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. 8 oedd y targed recriwtio ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15, ac y mae disgwyl i'r Cyngor recriwtio un yn fwy na hynny. Bydd llai o blant yn cael gofal oddi cartref erbyn hyn hefyd, a chofnodwyd ar 31 Mawrth 2015 fod 47 wedi'u lleoli'r tu allan i'r Fro o'u cymharu â 56 yn 2013/14. Yn ôl archwiliad a gynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o wasanaethau maethu'r Cyngor yn ystod 2014, y mae tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn llwyddo i gael 'canlyniadau addysgol tra chadarnhaol'. Darganfu'r archwiliad hefyd fod y llawlyfr i ofalwyr maeth yn ddefnyddiol iawn, a bod fformat cytundeb lleoli wedi'i seilio ar ganlyniadau wedi helpu gweithwyr cymdeithasol i nodi'r canlyniadau yr oedd angen eu sicrhau.

Bu Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc o gymorth i ni recriwtio gofalwyr maeth a darparu lleoliadau mwy sefydlog. Er enghraifft, 10.4% oedd canran y plant a oedd wedi cael eu lleoli o leiaf deirgwaith yn ystod 2013/14. Roedd hynny'n fwy na'r 8.3% a gofnodwyd ar gyfer Cymru'n gyffredinol, ac yn ein gosod yn 15^{fed} yng Nghymru. Bu tipyn o wella ers hynny, fel y gwelir, a chawsom mai 6.88% o 'blant dan ofal' yn unig a oedd wedi cael eu lleoli o leiaf deirgwaith erbyn 31 Mawrth 2015. Mae hynny'n ein gosod yn 6^{ed} yng Nghymru ac yn y chwarter uchaf o ran perfformiad.

Darganfu archwiliad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2014, fod gofalwyr maeth ar y cyfan yn teimlo eu bod wedi cael 'profiad cadarnhaol iawn' ac wedi gallu cysylltu'n dda â thimau gofal plant. Cofnodwyd bod y gwasanaeth hefyd wedi datblygu systemau manwl iawn ar gyfer sicrhau ansawdd er mwyn gallu ymateb yn gynt i rai sy'n ystyried maethu. Mae'r Cyngor yn arwain ymdrechion i ddatblygu gwasanaeth maethu cydweithredol, a bydd yn gweithredu ar ran pedwar awdurdod lleol mewn ardal lle y mae dau Fwrdd Iechyd.

Mae diogelu plant a phobl ifanc fregus yn flaenoriaeth gorfforaethol sy'n allweddol bwysig i'r gwasanaeth. Drwy sefydlu Grŵp Diogelu

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Corfforaethol, llwyddwyd i'w wneud yn flaenoriaeth gan bob maes gwasanaeth arall hefyd, a sicrhau bod yr Uned Ddiogelu Ganolog yn darparu'n effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a phrofiad rhwng prosesau diogelu ar gyfer plant ac oedolion fel ei gilydd. Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn monitro cydymffurfriad â gofynion diogelu ar draws y Cyngor, a 'recriwtio diogelach' a 'diogelu hyfforddiant' yw rhai o'r meysydd a gafodd sylw. Rydym wedi adolygu'r 'Protocol Esgeuluso' a gadarnhawyd gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro.

Buom yn cydweithio'n ymarferol â Bwrdd Lleol Diogelu Plant, Grŵp Llywio Diogelu'r Cyngor ac ysgolion er mwyn cyflawni ein dyletswyddau diogelu, casglu sylwadau plant a gweithredu protocoliau ynghylch esgeuluso plant yn rhywiol. Drwy gwblhau'r broses o uno byrddau lleol diogelu plant Caerdydd a'r Fro, yr ydym yn sicrhau bod yr holl ddyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig â'r bwrdd lleol diogelu cyfunedig yn cael eu cyflawni. Cafodd adroddiad ar arolwg barn a gynhelir bob blwyddyn er mwyn casglu sylwadau plant sy'n rhan o'r broses ddiogelu, ei gyflwyno drwy'r bwrdd lleol diogelu plant. Hefyd, y mae swyddog diogelu a benodwyd yn unswydd ar gyfer gweithredu ym maes addysg wrthi'n sicrhau bod ysgolion yn cyflawni eu dyletswyddau diogelu.

Roedd adroddiad yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiogelu a chynllunio gofal, yn cydnabod bod ein trefniadau ar gyfer magu plant yn gorfforaethol wedi'u hen sefydlu, a'u bod yn cael effaith uniongyrchol ar ganlyniadau 'plant dan ofal'. Barnodd fod drefniadau effeithiol gennym hefyd ar gyfer rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio ar y cyd ar gyfer 'plant dan ofal'. Roedd yr un adroddiad yn pwysleisio bod prosesau diogelu plant yn cael eu defnyddio'n briodol ar gyfer rheoli perygl a bod prosesau da wedi'u sefydlu ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng o 108 yn 2013/14 i 89 eleni.

Dengys gwaith ymchwil ac ystadegau ar gyfer Cymru gyfan a'r DU, i nifer y plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant awdurdodau lleol gynyddu'n sylweddol rhwng 2012 a misoedd cynnar 2014 o leiaf. Ers hynny, bu'r nifer hwnnw yn graddol ddychwelyd at y norm ystadegol. O'i ddadansoddi, gwelir bod pob gweithwyr gofal plant proffesiynol ac asiantaeth gyfeirio'n fwy awyddus i fynegi pryder am les plentyn a'i ddodi ar y gofrestr, yn sgîl achosion amlwg fel achos 'Babi P' ym mwrdeistref Haringey, Llundain. Nid oedd y Fro'n eithriad yn hynny o beth, ac y mae arolwg o batrymau yn nifer y plant a gofrestrwyd yn dangos y cynnydd hwnnw. Serch hynny, ers 2010/11, bu nifer y plant fesul 10,000 o'r boblogaeth yn y Fro'n llai ar gyfartaledd yn gyson nag yng Nghymru'n gyffredinol.

Mae'n bosibl y gellir priodoli'r gostyngiad i raddau i'r cymorth y bydd Dechrau'n Deg yn ei roi i blant o dan bedair oed a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd cymhwyso. Yn anffodus, nid yw'n hawdd dod i unrhyw gasgliad am effaith y naill wasanaeth ar y llall wrth edrych ar eu cronfeydd data. Y teimlad serch hynny yw na fyddai rheswm i blant ddod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol statudol petaent yn cael cymorth oddi wrth Ddechrau'n Deg.

Mae hefyd yn bosibl bod ychydig o blant wedi manteisio ar brosiectau fel 'Teuluoedd yn Newid Pethau Gyda'i Gilydd' a 'Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd' dan nawdd LIC, ac felly osgoi mynd i gyflwr sy'n gofyn am gymorth gweithiwr cymdeithasol. Yn ôl archwiliad a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Medi 2014, 50% o achosion ar agor i brosiect 'Teuluoedd yn Newid Pethau Gyda'i Gilydd' (o sampl o 42) a oedd wedi cael eu trin gan y gwasanaethau cymdeithasol a'u cau ar ôl hynny. Nid oes modd rhagweld p'un ai a fyddai unrhyw un o'r rhain fel arall wedi cael ei drin

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

fel achos diogelu plant ai peidio.

Bydd llawer o achosion o blant mewn angen yn cael eu cadw gan Dîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a hefyd y Tîm Rheoli Gofal. Yn eu plith y mae plant y mae eu lefel o anghenion fymryn yn is na'r trothwy a osodwyd ar gyfer mynnu'n gyfreithiol fod y gwasanaethau diogelu plant yn ymyrryd yn yr achos. Mae rhai hefyd sydd wedi'u cofrestru eisoes ac mewn gwell amgylchiadau erbyn hyn er bod angen cymorth o hyd ar y teulu i symud ymlaen. Byddwn un ai'n cyfeirio teuluoedd at wasanaethau cymorth a gomisiynwyd oddi wrth Weithredu dros Blant, yn comisiynu cymorth penodol (e.e. therapi chwarae) ar eu cyfer ynteu'n eu cyfeirio at y rhwydwaith ehangach o wasanaethau yn y trydydd sector (e.e. Atal y Fro). Cydnabyddir nad oes digon o wasanaethau cymorth dwys, uniongyrchol a chynhwysfawr sy'n darparu'n ddigonol ar gyfer teuluoedd am gyfnodau digon hir, i ni allu cwrdd â'r anghenion a nodwyd ar gyfer pob plentyn a theulu mewn angen drwy ei asesu. Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid yn y trydydd sector er mwyn datblygu'r gwasanaethau hyn ymhellach yn ystod y flwyddyn hon.

Roedd adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar ddiogelu a chynllunio gofal yn cydnabod bod gwell darpariaeth erbyn hyn ar gyfer comisiynu lleoliadau preswyl sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd i'w cymunedau.

Rydym wedi ymdrechu i wario llai fesul plentyn ar leoliadau maeth yn gyffredinol. Ni lwyddwyd i wneud hynny'n ystod 2014/15 am fod 10 plentyn yn ychwanegol wedi'u lleoli (gyda rhieni maeth yr awdurdod lleol/perthnasau a thrwy asiantaethau maethu annibynnol). Serch hynny, canlyniad cadarnhaol i'r plant hynny ac un sy'n cyd-daro i'r dim â'r blaenoriaethau yn ein strategaeth gomisiynu yw eu lleoli gyda theuluoedd lleol, sefydlog. Gwariwyd llai ar leoli plant mewn cartrefi preswyl drud y tu allan i'r ardal, ac 20 o blant yn unig a leolwyd yn y modd yna eleni o'u cymharu â 23 y llynedd.

Faint wnaethom ni?							
	Perfformiad 2012/13)	Perfformiad 2013/14)	Targed 2014/15)	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad ⁵	Cyfeiriad y cynnydd ⁶
Nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd ynglŷn â gofal maeth.	56	92	100	56		☹	↓
Nifer y plant sydd wedi aros yn yr un lleoliad drwy gydol y flwyddyn.		114		148			↑
Nifer y plant a leolwyd o leiaf deirgwaith yn ystod y flwyddyn.	21	19		13			↑
Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2015.	184	184		189			
Nifer y 'plant dan ofal' a oedd yn cael gofal maeth ar 31 Mawrth 2015.	73 ALI 34 AFA	77 ALI 30 AFA		86 ALI ⁵ 30 AFA ⁶			
Nifer y 'plant dan ofal' a oedd gyda'u teuluoedd neu berthnasau ar 31 Mawrth 2015.	29	31		42			↑
Nifer y 'plant dan ofal' a oedd mewn cartrefi gofal preswyl ar 31 Mawrth 2015.	26	23		20			↑
Nifer y 'plant dan ofal' a oedd mewn lleoliadau eraill ar 31 Mawrth 2015.	18	19		11			
Nifer y 'plant dan ofal' a oedd ar y rhestr fabwysiadu ar 31 Mawrth 2015.	4	4		6			
Nifer y gofalmwyr maeth a recriwtiwyd yn ystod y flwyddyn.	8	8		9			↑

⁵ Awdurdod Lleol

⁶ Asiantaeth Faethu Annibynnol

Pa mor dda oeddem ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran yr ymweliadau statudol â 'phlant dan ofal' a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cynnal yn ôl y rheolau.	95.22	95.29	95	94.49	87.7	☹	↑
Canran y 'plant dan ofal' a leolwyd am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn a gafodd gynllun gofal wrth gychwyn.	100	100	100	100		☺	↔
Canran y 'plant dan ofal' yr oedd eu hail arolwg (a gynhelir ymhen 4 mis) i'w gynnal yn ystod y flwyddyn, a gafodd gynllun prydlon ar gyfer eu lleoli'n barhaol.	100	100	100	100		☺	↔
Canran yr asesiadau iechyd ar gyfer 'plant dan ofal' a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cynnal.	60.75	66.53	70	63.31		☹	↓
Canran y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth a newidiodd ysgol o leiaf unwaith yn ystod y 12 mis blaenorol (ac eithrio am resymau pontio) ar adeg neu adegau pan oeddynt yn derbyn gofal.	21.71	16.36	13.0	13.0	13.5	☺	↑
Cyfradd presenoldeb 'plant dan ofal' mewn ysgolion cynradd a gofnodwyd tra eu bod yn derbyn gofal.	94.43	94.25	95	94.48		☹	↑
Cyfradd presenoldeb 'plant dan ofal' mewn ysgolion uwchradd a gofnodwyd tra eu bod yn derbyn gofal.	89.02	87.61	91	90.05		☹	↑
Canran y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth a leolwyd o leiaf deirgwaith yn ystod y flwyddyn.	11.67	10.40	9.0	6.88	9	☺	↑
Nifer y diwrnodau ysgol y mae 'plant dan ofal', a waharddwyd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, wedi'u colli ar gyfartaledd, drwy gael eu gwahardd am gyfnodau penodol.	6.63	14	6	15.50		☹	↓
Canran y plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn, a gafodd gynllun addysg personol cyn pen 20 niwrnod ar ôl dechrau derbyn gofal neu gychwyn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth.	75.76	40	65	97.14		☺	↑

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y bobl ifanc a fu gynt yng ngofal yr awdurdod, ac sy'n dal mewn cysylltiad a'r awdurdod, y gwyddys eu bod un ai mewn gwaith, addysg ynteu'n dilyn hyfforddiant yn 19 oed.	55.56	44.44	52	57.14	59.5	😊	↓
Canran y 'plant dan ofal' a gafodd eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.	0	1.27	0	0		😊	↑
Nifer y pwyntiau a sgoriodd 'plant dan ofal' ar gyfartaledd am ennill cymwysterau allanol mewn lleoliad addysg a gynhelir gan yr awdurdod lleol.	375.08	348	200	224.46	276	😊	↓
Canran y disgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol, mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, a gafodd eu pen-blwydd yn 15 oed cyn 31 Awst, sydd wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu addysg yn y gwaith heb ennill cymhwyster allanol cymeradwy.	0	0	0	0	1.2	😊	↑

Hanes ein perfformiad

Am iddynt gael eu targedu'n fwy manwl gan y Cyngor a'i bartneriaid ym maes addysg, ni adawodd unrhyw 'blant dan ofal' waith, nac addysg nac addysg yn y gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf heb ennill cymwysterau allanol cymeradwy. Mae hyn yn gyson â pherfformiad yr awdurdodau yng Nghymru sy'n perfformio orau.

Er i ganran y rhai sy'n cael gwaith neu'n dilyn cwrs addysg neu hyfforddiant ar ôl gadael gofal yr awdurdod gynyddu o 44% yn 2013/14 i 57% yn 2014/15, y mae'n dal yn is nag yng Nghymru'n gyffredinol. Drwy gydweithio â staff addysg, darparwyr hyfforddiant a darparwyr y trydydd sector, yr ydym yn canolbwyntio ar ddarparu pob math o hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ac yn eu hannog i fanteisio ar addysg a hyfforddiant.

Byddwn yn dal i gysylltu â phawb a fu yng ngofal yr awdurdod pan fydd yn 19 oed er mwyn parhau i'w helpu yn ôl y gofyn.

Er i'n perfformiad o safbwynt asesu iechyd 'plant dan ofal' wella yn ystod y flwyddyn, methwyd y targed. Rydym wrthi'n trafod â staff iechyd er mwyn ceisio sicrhau bod yr asesiadau hyn (a gynhelir gan Fwrdd Iechyd y Brifysgol ar ran y Cyngor) yn cael eu cynnal yn fwy prydlon.

Er i bresenoldeb 'disgyblion dan ofal' mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (a aseswyd tra eu bod yn cael gofal), wella yn ystod 2014/15,

Hanes ein perfformiad

methwyd y targedau ar gyfer 2014/15 o drwch blewyn.

Mae nifer y diwrnodau ysgol a gollodd 'plant dan ofal' ar gyfartaledd am iddynt gael eu gwahardd o'r ysgol am gyfnodau penodol wedi cynyddu o 14 yn 2013/14 i 15.5 yn 2014/15. Rydym wrthi'n cydweithio â staff addysg ac ysgolion er mwyn lleihau'r nifer hwnnw.

Mae nifer y pwyntiau y bydd 'plant dan ofal' yn eu sgorio ar gyfartaledd am ennill cymwysterau allanol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2014/15. Serch hynny, dylid nodi ei bod yn anodd cymharu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn oherwydd maint y garfan. Roedd ein perfformiad yn ystod 2013/14 yn tystio i lwyddiant rhyfeddol un unigolyn ifanc. Byddwn yn cydweithio'n agos â gwasanaethau addysg er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad 'plant dan ofal'.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau bod llawer llai o 'blant dan ofal' yn newid ysgol unwaith neu'n fwy, a chael ein gosod yn 9^{fed} yng Nghymru am ein perfformiad sy'n well na pherfformiad Cymru'n gyffredinol.

Astudiaeth Achos 1: Sicrhau bod lleoliadau plant a phobl ifanc dan ofal yn fwy cynaliadwy a sefydlog

Mae gan yr unigolyn ifanc hwn (bachgen 17 oed) anableddau corfforol ac addysgol cymhleth, a bydd yn dibynnu'n llwyr ar bobl eraill am ei ofal corfforol ac am gymorth i symud o gwmpas a chyfathrebu. Mae mewn ysgol breswyl yn ardal awdurdod cyfagos sy'n cynnig darpariaeth arbenigol er mwyn cwrdd â'i anghenion penodol. Yr adrannau iechyd ac addysg a fydd yn talu am ei addysg sy'n £54,000 y flwyddyn a'r gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn talu costau'r llety sy'n £70,000 y flwyddyn. Mae ei deulu am barhau i roi cymaint fyth o ofal ag sy'n bosibl iddo, ond bydd angen cymorth ar y teulu i wneud hynny. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn talu £8,000 yn ychwanegol am ofal yn y cartref ar ei gyfer er mwyn i'r teulu allu ofalu amdano'n ddiogel pan fydd yn dod adref dros y penwythnos.

Bu'r cymorth a gafodd y dyn ifanc 17 oed o gryn fantais iddo ef, a'i riant a'i frodyr a'i chwiorydd. Gallai gadw mewn cysylltiad â'i deulu'n rheolaidd tra ei fod gartref, a meithrin cyfeillgarwch â chyfoedion, cymdeithasu a chael profiadau cadarnhaol tra ei fod yn y lleoliad. Oherwydd ei anableddau, ni fyddai'r cyfleoedd sydd ganddo yn y lleoliad ar gael iddo i'r un graddau yn ei gymuned. Mae'r lleoliad o fantais i'w deulu am y gall y rhiant barhau i weithio, rheoli anghenion y plant eraill a chadw mewn cysylltiad â'i blentyn. Mae'r cymorth a roddir i'r unigolyn ifanc gartref yn darparu ar gyfer ei anghenion personol ac y mae hynny'n rhan annatod o'i helpu i gysylltu'n rheolaidd â'i deulu.

Meysydd sydd angen eu gwella

Erbyn

1	Parhau i ddarparu lleoliadau mwy sefydlog ar gyfer ein holl blant dan ofal a gwella ein perfformiad yn ôl y mesurau sy'n gysylltiedig â hynny.	2015/16
---	--	---------

3.3 Helpu Pobl Hŷn i aros yn Annibynnol

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol

Mae dinasyddion Bro Morgannwg yn iach ac yn gyfartal o safbwynt canlyniad eu hymdrechion ac o gael eu cynorthwyo a'u diogelu'n briodol, caiff y rhai mwyaf bregus yn ein cymuned fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn bywyd.

Amcan Gwella 3

Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.

Arwyddion Llwyddo

- Mae pobl yn cael cymorth effeithiol i fyw'n fwy annibynnol.
- Caiff pobl ym mhob rhan o'r Fro fanteisio'n haws ar wybodaeth a gwasanaethau sy'n hyrwyddo iechyd corfforol ac emosiynol.
- Mae pobl yn deall budd-daliadau a dewision ariannol yn dda.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rhesymau canlynol:

- Ar y cyfan, yr ydym wedi llwyddo i gael y canlyniadau yr oeddem am eu cael yn ystod 2014/15. Mae fframwaith ardaloedd cyfunedig newydd, a gyflwynwyd pan oedd y galw am wasanaethau ar gynnydd, yn dechrau cael effaith gadarnhaol drwy hwyluso'r ffordd i bobl hŷn yn gyffredinol fanteisio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Nid oes cymaint o ailadrodd gwaith, a bydd pobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Serch hynny, blaenoriaeth i'r Cyngor yn y tymor hir yw hyn wrth i ni symud ymlaen.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Byddwn yn helpu mwy o bobl ar hyd yr amser i wneud defnydd o dechnolegau cynorthwyol fel Teleofal sy'n rhoi'r modd i rai hŷn a'u gofalwyr reoli effaith a pheryglon salwch tymor hir. Ar ôl ad-drefnu Gwasanaeth Teleofal y tu fewn i Wasanaethau Oedolion, aethpwyd ati i adolygu gwaith a phwrpas y tîm ac y mae camau'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd er mwyn denu mwy fyth o bobl i fanteisio ar y gwasanaeth. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei lunio ar gyfer Teleofal gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Yn ôl y dystiolaeth, prin y bydd modd arbed unrhyw arian ar gostau Teleofal, ond bydd y gwasanaeth yn sicr o gymorth i gadw defnyddwyr yn fwy diogel a thawelu meddwl y rhai sy'n gofalu amdanynt.

Drwy fuddsoddi'n helaethach mewn gwasanaethau ail-alluogi, yr ydym yn helpu mwy o bobl i fyw'n haws yn annibynnol. Cafodd Golau Caredig, y cynllun gofal ychwanegol cyntaf yn y Fro, ei agor yn swyddogol yn Ebrill 2015. Dewis newydd, cyffrous ar gyfer pobl hŷn yr ardal yw hwn sy'n rhoi cyfle iddynt aros yn eu cymuned a hefyd gael y gofal sydd ei angen arnynt yn ôl y gofyn. Bu ymateb y preswylwyr newydd i'r cynllun yn gadarnhaol iawn. Ar ôl cael llety addas, amgylchedd cymunedol cyffrous a chyfle i ddefnyddio'r asiantaeth gofal cartref ar y safle, yr oedd hi'n dipyn yn haws i bobl fyw'n annibynnol.

Mae cyfleusterau 'cam i lawr' newydd sbon ar gael yng Ngolau Caredig a Redlands ar gyfer pobl hŷn sy'n gofyn am ychydig bach mwy o gymorth. Rydym hefyd wedi sicrhau bod pawb mewn llety â chymorth a phob math arall o lety'n cael manteisio i'r eithaf ar gyfarpar Teleofal er mwyn gallu byw'n haws yn annibynnol.

Yn ogystal â hyn, drwy ymgyrch amlasiantaethol Wyn, yr ydym yn hwyluso'r ffordd i bobl hŷn ddefnyddio gwasanaethau ail-alluogi ac adfer a fedr eu helpu mewn argyfwng. Defnyddiwyd arian o'r Gronfa Gydweithredol Ranbarthol i dalu am ragor o oriau o gymorth gan y trydydd sector, gofal ail-alluogi yn y cartref a gweithwyr cyd-drefnu fel y bo'n haws i fwy o bobl ddefnyddio'r gwasanaeth. Byddwn yn mesur llwyddiant y gwasanaeth yn ôl cyn lleied o ofal y bydd yn rhaid ei roi i unigolion ar ôl cyfnod o ail-alluogi.

Gydag arian o'r Gronfa Gydweithredol Ranbarthol a Chronfa Gofal Canolradd, yr ydym wedi parhau i gydweithio â'r trydydd sector a sefydliadau busnes er mwyn cynnig ffordd ataliol nes at y gymuned o helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol - gan gynnwys cleifion dementia. Bu hefyd o gymorth i ni adeiladu ar wasanaeth y Tîm Adnoddau Cymunedol.

Bydd gwasanaethau ailalluogi yn bwysig iawn wrth fynd ati i helpu pobl i ailafael yn y sgiliau ar gyfer byw bob dydd y maent yn eu colli wrth i'w hiechyd ddirywio. Byddant yn caniatáu iddynt ddod yn ôl i fyw'n ddiogel yn eu cymunedau (ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, er enghraifft), ailafael mewn bywyd ac osgoi cael eu rhoi mewn cartref gofal preswyl. Rydym wedi diwygio ein systemau ar gyfer casglu gwybodaeth a phellach yn gallu cynnig darlun cywir o'r graddau y llwyddwyd i godi lefel annibyniaeth unigolion. Mae'r canlyniadau ar y cyfan yn gadarnhaol iawn am fod dros 80% o'r rhai a gafodd y gwasanaeth erbyn hyn yn fwy annibynnol.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Mae ymdrechion i uno gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol wedi dwysau'n aruthrol eleni, yn rhannol am i ni weithredu cynllun ardal uchelgeisiol iawn ar gyfer uno'r cymorth y byddwn yn ei roi i bobl hŷn a rhai ag anabledd corfforol. Y tu fewn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y mae Bro Morgannwg yn un o dair ardal. Mae hyn yn golygu y gall un unigolyn a benodwyd ar y cyd gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd reoli'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol yn yr ardal hon. Mae'r fframwaith gwasanaethau, staffio a rheoli ar gyfer yr ardal wedi cael ei ad-drefnu'n helaeth. O ganlyniad, bu'n bosibl creu ffordd hollol unedig o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol ar gyfer pobl hŷn - gyda gwasanaethau atal, ymyrryd yn gynnar ac ail-alluogi a gofal canolradd a hirdymor i gyd yn rhan o'r un system gydgysylltiedig, gymunedol. Dyma'r model y mae pobl hŷn yn dweud eu bod am ei gael ac y sydd ei angen arnynt. Mae'n drefn sy'n caniatáu iddynt gadw rheolaeth dros eu bywydau eu hun a hefyd gael eu cefnogi a'u cynorthwyo mewn ffordd sy'n gwbl ystyriol o'u hawliau a'u hunan-barch. Yn y model ardal newydd, y mae llawer o'r hen ffiniau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u dymchwel. Mae hyn wedi rhoi cyfle i ni ail-lunio gwasanaethau cymunedol sy'n cynnwys gwasanaeth derbyn integredig a gwasanaeth gofal hirdymor.

Buom yn ddigon ffodus i gael nawdd o Gronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru er mwyn helpu gyda'r ad-drefnu fframwaith ardal hwn. Defnyddiwyd yr arian i wella Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid UnFro, fel y bo'n haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y ganolfan, bydd staff o'r gwasanaethau cymdeithasol, y GIG a'r trydydd sector yn cydweithio er mwyn ateb ceisiadau am gymorth. Bu hyn o gymorth i ni gyfeirio pobl at y gwasanaethau cywir ar y cynnig cyntaf. Mae'r newidiadau i'r Ganolfan Gyswllt wedi digwydd fesul tipyn yn ystod y flwyddyn, ond y mae pob argoel, ar y golwg cyntaf, eu bod yn llwyddiannus iawn. Byddwn yn ymateb i atgyfeiriadau safonol 75% yn gyflymach erbyn hyn nag ym Medi 2014 a byddwn yn ymateb i atgyfeiriadau â blaenoriaeth 50% yn gyflymach. Mae nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu trin yn llwyddiannus yn y Ganolfan Gyswllt hefyd wedi cynyddu, sy'n golygu bod pobl yn cael gwasanaethau'n gyflymach. Ni fu'n rhaid y chwaith i gymaint o bobl gael sylw timau rheoli gofal yn y tymor hir. Rydym yn bwriadu adeiladu ar y holl welliannau hyn yn ystod 2015/16.

Roedd cynlluniau eraill a ariannwyd drwy Gronfa Gofal Canolradd y Llywodraeth a'r Gronfa Gydweithredol Ranbarthol wedi profi'n fanteisiol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Cyflwynwyd un prosiect a ddeuai â gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol ynghyd er mwyn cydadolygu pecynnau gofal. Bu'r cydweithredu yma'n fodd i lawer o ddefnyddwyr ddod yn fwy annibynnol fel na fyddai cymaint o angen i ofalwyr ymweld â hwy yn eu cartrefi. Cwrddwyd â'u hanghenion (a oedd wedi'u hasesu) drwy ddulliau eraill, a barnodd defnyddwyr fod yr adolygiad yn ystyrlon a'i fod yn ymdrin â chanlyniadau positif. Mae'r gwasanaeth bellach yn ymdrechu i sicrhau bod y staff yn gyffredinol yn dod i weithio yn y ffordd yma fel mater o arfer. Fel rhan o'r ymdrech honno, lluniwyd rhestr wirio ar gyfer adolygu er mwyn helpu staff i gynnal adolygiadau'n effeithiol. Annog defnyddwyr gwasanaethau i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl a/neu arafu unrhyw ddirywiad yng nghyflwr eu hiechyd yw ein nod wrth weithio yn y ffordd yma. Roeddwn yn deall bod angen edrych o'r newydd ar ein ffordd o gyfathrebu â defnyddwyr sy'n cael gwasanaeth am y tro cyntaf. Felly, lluniwyd taflen wybodaeth sy'n egluro'r hyn sydd i'w ddisgwyl wrth ddechrau derbyn cymorth a'r hyn a all ddigwydd pan fydd y cymorth yn cael ei adolygu.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Fel y disgwyl, gwelwyd galw cynyddol am wasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn ystod 2014/15. Am fod fframwaith ardal newydd sbon bellach ar gael, y mae'r newidiadau wedi'u cyflwyno a fydd yn hwyluso'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. O ganlyniad, ni fydd cymaint o ddyblygu ymdrech, a bydd pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Rydym yn gweithio er mwyn sicrhau y cynhelir y gwelliannau hyn drwy redeg canolfan gyswilt integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Bu hyn hefyd yn gyfle i ni osod rhai o'r seiliau sydd eu hangen arnom ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Llwyddwyd i weithredu'r Fframwaith Asesu Integredig newydd ar gyfer Pobl Hŷn. Y dasg oedd ail-lunio ein systemau er mwyn gallu cynnig gofal mewn ffordd symlach. Mae hyn yn helpu'r gwasanaeth i weithio tuag at 'gynllunio gofal ar sail canlyniadau' – sef cydweithio â defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalmwyr er mwyn ceisio dod â'r canlyniadau y maent hwythau am eu gweld. Newid hanfodol yw hynny o gynllunio gofal ar sail tasg ac amser i'w gynllunio gyda golwg ar y canlyniadau a nodwyd. Dyma gychwyn addawol y bydd yn rhaid ei ddatblygu dros gyfnod o amser.

Mae timau Therapi Galwedigaethol yn parhau i sicrhau na fydd yn rhaid aros gyhyd am wasanaethau yn ystod 2014/15. Cafodd y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol ehangach arian o'r Gronfa Gydweithredol Ranbarthol a Chronfa Gofal Canolradd a ddefnyddiwyd i roi cynnig ar ddulliau newydd blaengar o weithio. Gwelsom mor fanteisiol oedd i Therapyddion Galwedigaethol a Gweithiwyd Cymdeithasol ymweld â defnyddwyr ar y cyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth mwyaf effeithiol. Pecyn gofal effeithiol yw pecyn sy'n helpu defnyddiwr i aros mor annibynnol ag sy'n bosibl, yn ei ysgogi ac yn gwarchod ei breifatrwydd a'i hunan-barch drwy wneud y defnydd gorau posibl o gyfarpar cymorth. Bu'r arbrofion hyn yn llwyddiannus, ac yr ydym felly wrthi'n rhoi'r dulliau newydd yma o weithredu ar waith.

Bydd gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ym mhob rhan o Gymru'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ar sail asesiad ariannol ffurfiol. Pan fydd gan bobl ddigon o arian i'w wario i allu talu am wasanaethau, gofynnwn iddynt wneud hynny, a byddwn yn sicrhau y gwyddant am y budddaliadau ar gael er mwyn eu helpu i ddod i benderfyniadau ariannol. Ers Ebrill 2014, £55 yr wythnos yw'r tâl mwyaf y gellir ei godi o dan Lywodraeth Cymru am ofal y tu allan i gartref preswyl. Mae'r newid polisi hwn wedi cael cryn dipyn o effaith yn y Fro. Mae wedi ychwanegu at faich gwaith y gwasanaeth a bydd llawer llai o incwm hefyd yn cael ei gynhyrchu. Mae costau cynyddol gofal preswyl a'r galw cynyddol am ofal sy'n dod yn sgîl newid yn y boblogaeth, yn dipyn o dreth bellach ar gyllidebau Gwasanaethau i Oedolion, a'r gallu i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r gwasanaeth yn dal i ddilyn cynllun cyllidebol llym o dan amgylchiadau anodd iawn er mwyn cael arbed yr arian angenrheidiol, a bydd yn rhaid iddo barhau i ad-drefnu ei ffordd o ddarparu gwasanaethau er mwyn ymdopi â'r galw ychwanegol.

Faint wnaethom ni?							
	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Nifer yr achosion Teleofal gweithredol ar hyn o bryd: Tele V		200	225	634		☺	↑
Nifer yr achosion Teleofal gweithredol ar hyn o bryd: Tele V+		100	120	135		☺	↑
Nifer defnyddwyr newydd Teleofal		250	110	309		☺	↑
Nifer y defnyddwyr sy'n oedolion sy'n cael taliad uniongyrchol		122	120	143		☺	↑

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Nifer y gosodiadau Teleofal a gwblhawyd cyn pen mis.		225	80	283		☺	↑
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl.	337	272	250	199		☺	↑
Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon ar wasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl.	94.12	100	80	98.73		☺	↓
Canran yr oedolion a atgyfeiriwyd y rheolwyd y perygl a fu iddynt.		100	95	100		☺	↔

Oes unrhyw un yn well ei fyd?							
	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y gostyngiad yn nifer yr oriau o ofal cartref angenrheidiol ar ôl cyfnod o ail-alluogi drwy Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro.				29			
Cyfraddau 'oedi cyn trosglwyddo gofal' am resymau cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn.		8.17	5.50	4.55	4.83	☺	↑
Canran y cleientiaid a gafodd grant cyfleusterau i'r anabl a	90.20	97.73	80	96.30		☺	↓

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r gwaith a wnaethpwyd.							
Canran y cwynion oddi wrth bobl dros 65 oed neu ar ran pobl felly sydd wedi ysgogi neu wella gwasanaethau.		75	50	100		😊	↑

Hanes ein perfformiad

Methwyd â denu pobl newydd i ddefnyddio Teleofal yn ystod 2013/14. Aethpwyd ati wedyn i symud tîm Teleofal fel y medrai gysylltu'n hawdd â'r Ganolfan Gyswllt a datryswyd problemau ynglŷn â chyflogi staff dros dro. Mae nifer y rhai sy'n cael cymorth Teleofal bellach wedi cynyddu o 250 y llynedd i 309 eleni (2014/15). Mae angen strategaeth hirdymor ar y gwasanaeth o hyd, ond bu tystiolaeth anghyson gwaith ymchwil a natur ddadleuol ei ddata perfformio ei hun yn rhwystr iddo rhag ei llunio. Mewn ymateb i hyn, trefnodd y Cyngor i Deleofal gael ei drin fel blaenoriaeth gan grŵp Gorchwyl a Gorffen o dan arweiniad aelodau o Bwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Cafodd y model gweithredu ar gyfer y Fro ei archwilio'n drwyadl, a'i adolygu yn ôl yr arferion gorau yn y DU, yn sgîl hynny. Cynigiwyd nifer o argymhellion ar gyfer y gwasanaeth, a lluniwyd cynllun gweithredu a roddir ar waith yn ystod 2015/16.

Mae nifer y bobl a orfodir i aros yn yr ysbyty tra bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer eu gofal cymdeithasol, wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2014/15, sy'n dangos i ni wella gryn dipyn yn hynny o beth. Cyflawnwyd hyn o dan amgylchiadau anodd tu hwnt am y bu'n rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol ymdopi â llawer iawn o welyau llawn a galw cyson am wasanaethau ar hyd y flwyddyn eleni. Serch hynny, y mae gwella'r partneriaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth Felindre wedi codi ein calonnau. Mae gostwng nifer yr achosion o 'oedi cyn trosglwyddo gofal' yn gryn gamp sy'n dangos heb os nac oni bai fod y gwasanaeth yn ymateb yn well. Dengys hefyd fod cynlluniau newydd fel y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro ar ôl ei ddiwygio a threfniadau mwy integredig ar gyfer trafod pobl sy'n gadael yr ysbyty, i gyd yn helpu i gynnal y cynnydd. Lleihawyd nifer yr achosion o 'oedi cyn trosglwyddo gofal' o 8.17 i 4.55 yn 2014/15 sy'n dangos i ni berfformio'n well na Chymru ar gyfartaledd (4.83) ac yn ein gosod yn 14^{eg} yng Nghymru. Mae rhagor i'w wneud ar y cyd â BIB, ac yr ydym wrthi'n paratoi cynllun gweithredu newydd bellach, er mwyn gwella'r canlyniadau eto ar gyfer rhai a ddylai gael gadael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny.

Roedd nifer y bobl sy'n cael cymorth i fyw yn eu cartrefi eu hunain wedi gostwng yn 2014/15 i 1665, ac y mae'n ddigon tebyg i'r hyn a welwyd yn 2012/13. Mae pecynnau gofal unigol bellach yn fwy o faint, sy'n dangos ein bod erbyn hyn yn darparu ar gyfer pobl ag anawsterau mwy cymhleth sy'n gofyn am ofal dwysach arnynt pan fyddant yn sâl.

Byddwn yn cymryd 199 o ddiwrnodau i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl erbyn hyn, ac er i ni ragori ar ein targed, daliwn i weithio er mwyn cael ymateb yn gyflymach. Mae mân newidiadau yn y broses a chontract fframwaith ar gyfer adeiladwyr wedi bod o gymorth mawr i ni ymateb yn gyflymach i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd ein perfformiad eleni 30% yn gyflymach nag yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cawsom ganlyniadau cadarnhaol ar y cyfan, gyda 98% o ddefnyddwyr y grantiau'n dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. 96% o bobl a gafodd y grantiau yn ystod 2014/15 a ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r cymorth a gawsant. Mae ein perfformiad cyffredinol yn 13 o ddiwrnodau islaw'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer ein cyfrif gyda pherfformwyr y chwarterel uchaf, a chododd ein safle yng Nghymru o 16^{eg} y llynedd i 8^{fed} eleni.

Rydym wedi ymweld a chysylltu'n amlach â defnyddwyr eleni er mwyn cynnal asesiadau ariannol a chynnig cyngor am fudd-daliadau ac y mae hyn yn adlewyrchu'r galw cynyddol. Rydym hefyd wedi ymateb yn brydlon i unigolion sy'n gofyn am gyngor ariannol a gwasanaethau teleofal.

Astudiaeth Achos 1: Uno gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol

Mae datblygu Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid sy'n integredig yn amlwg wedi gwneud byd o wahaniaeth i'n ffordd o ymwneud â bywydau pobl. Dengys yr achosion enghreifftiol canlynol sut y daethpwyd â gwell canlyniadau i ddefnyddwyr a'u teuluoedd drwy newid y gwasanaeth:

Mae Mr X yn 78 oed ac yn byw ar ei ben ei hun mewn fflat gysgodol. Ni fydd unrhyw un o'i deulu'n cysylltu ag ef. Mae'n dioddef o emffysema, llid y cymalau, clefyd esgyrn brau a ffibriliad atrïaidd. Ym mis Chwefror 2015, cysylltodd warden tai cysgodol â'r ganolfan alwadau am ei fod yn pryderu bod Mr X yn aros yn y tŷ ac yn gwisgo'r un dillad ers rhai wythnosau. Roedd y fflat mewn cyflwr gwael a phob arwyneb gwaith wedi'i orchuddio gan fwyd pydredig, ysbwriel a llestri brwnt. Roedd y warden hefyd yn amau na fu Mr X yn cymryd ei feddyginiaeth. Cysylltodd staff y gwasanaethau cymdeithasol â Mr X a chael nad oedd am iddynt gynnal asesiad gwaith cymdeithasol. Ar ôl iddynt drafod y mater â chydweithwyr ym maes iechyd, teimlent y byddai Mr X efallai'n fodlon i nyrs ymweld ag ef ac y dylid cynnig hynny. Roedd yn gwbl fodlon ar hyn a chynhaliwyd yr ymweliad. Gwelodd y nyrs fod perygl iddo ddirywio'n fwy fyth o ran iechyd a gallu i fynd o gwmpas ac y byddai'n rhaid mynd ag ef i'r ysbyty oni châi gymorth. Ni fu'n cymryd ei feddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Llwyddodd y nyrs i argyhoeddi Mr X y byddai'n dda petai therapydd galwedigaethol adfer a gweithiwr cymdeithasol yn ymweld ag ef. Darganfu'r rhain nad oedd yn gallu ymolchi na gwisgo ac nad oedd chwaith wedi bwyta braidd ddim o'r byd y bu ffrind yn ei brynu iddo. Bu Mr X yn fodlon i feddyg teulu ymweld ag ef ond gwrthododd fynd i'r ysbyty. Derbyniodd Mr X chwe wythnos o ofal ail-alluogi a gynigiwyd iddo am ddim gan Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro, a threfnwyd i ymweld ag ef ddwywaith y dydd er mwyn ei gynorthwyo. Roedd hefyd yn fodlon gael ei gynorthwyo a'i asesu'n barhaus gan therapydd galwedigaethol. Mae wedi caniatáu i ofalwyr y gwasanaeth ail-alluogi lanhau ei fflat a gwneud ei olch. Mae hefyd yn gadael iddynt agor y llenni bob dydd, a thorri ei wallt a'i farf. Erbyn hyn, o gael ei annog, bydd yn bwyta'n rheolaidd. Cafodd gymorth i brynu rhewgell-rewgist a phopty micro-don newydd. Wrth ymweld ag ef, yr oedd gofalwyr yn gallu sicrhau ei fod yn cymryd ei feddyginiaeth a'i ychwanegion. Ar ôl wythnosau o gymorth, y mae Mr X bellach wedi cytuno i newid ei ddillad. Mae'n disgrifio'r gofalwyr fel 'pobl glên iawn'. Mae gweithiwr cymdeithasol wrthi ar hyn o bryd yn cydweithio â therapydd galwedigaethol a gofalwyr er mwyn meithrin perthynas â Mr X. Eu nod yw cael caniatâd ar gyfer cynnal asesiad gwaith cymdeithasol a gofalu amdano yn y tymor hir er mwyn iddo barhau i wella, dod i symud o amgylch yn haws ac aros yn ei gartref ei hun gyhyd ag y bo modd yn ôl ei ddymuniad.

Astudiaeth Achos 2: Uno gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol

Cafodd y nyrs yng Nghanolfan Gyswllt Cwsmeriaid y Cyngor alwad oddi wrth staff Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru'n ei rhybuddio bod dyn (Mr Y) a fu'n gofalu am ei wraig (Mrs Y) ar ei ben ei hun, wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty. Roedd y wraig yn 96 oed ac yn bur anghofus. Bu'r ddau ohonynt yn yr Ysbyty Athrofaol ar y dechrau'n aros am welyau tymor byr. Drwy gydweithio â'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig, cafwyd lle mewn cartref gofal lleol ar gyfer Mrs Y am y barnwyd na fyddai'n ddiogel iddi aros yn ei chartref ei hun a defnyddio pecyn gofal. Roedd Mrs Y a'i gŵr yn fodlon iddi gael ei lleoli. Aethpwyd â Mrs Y i'r cartref y noson honno. Rhyddhawyd Mr Y o'r ysbyty ychydig o ddiwrnodau'n ddiweddarach a daeth ei wraig yn ôl ato i fyw.

Meysydd sydd angen eu gwella		Erbyn
1	Parhau i gydweithio â'r Bwrdd Iechyd er mwyn lleihau nifer yr achosion o 'oedi cyn trosglwyddo gofal' drwy sicrhau bod cyfle priodol i gleifion fanteisio ar wasanaethau fel y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig.	2015/16

3.4 Cynnal Cymunedau Egnïol

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol

Mae gan Fro Morgannwg economi ffyniannus sy'n cynnal cymunedau cydlynol cynaliadwy.

Amcan Gwella 4

Cefnogi a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.

Arwyddion Llwyddo

- Mae canol trefi'n fwy egnïol ac ymarferol.
- Mae llai o leoedd gwag mewn unedau masnachol.
- Mae mwy o fuddsoddi mewn adeiladau yng nghanol trefi drwy gymorth grantiau.
- Rydym yn ateb y galw am fuddsoddi mewn tai.
- Mae'r amgylchedd adeiledig yn well.
- Mae busnesau'n fwy hyderus.
- Mae mwy o ffyniant.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rhesymau canlynol:

- Yn ystod 2014/15, buom yn cydweithio'n llwyddiannus â chanol trefi a busnesau'r Fro er mwyn hyrwyddo buddsoddi a gwella'r amgylchedd adeiledig. Roedd hyn yn ychwanegu at fywiogrwydd a harddwch canol trefi.
- 76% o ymatebwyr Arolwg Barn Cyhoeddus 2014 a ystyriai fod prif ganol trefi'r Fro'n ddeniadol i ymwelwyr. Mae creu canol trefi bywiocach a harddach yn rhan allweddol o weledigaeth adfywio'r Cyngor o hyd. Dechrau'n unig i raglen hir o gynlluniau ar gyfer gwella canol trefi a chynnal eu hegri yn tymor hir yw'r gwaith a wnaethom hyd yma.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Drwy ddefnyddio'r fframwaith canol trefi a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn 2014, yr ydym yn cydweithio â chanol trefi'r Fro er mwyn hyrwyddo buddsoddi a chreu canol trefi bywiocach a mwy deniadol. Sicrhawyd grant partneriaeth gwerth £70,000 er mwyn hwyluso gwaith ym Mhenarth a Llanilltud Fawr, a buom yn cydweithio â busnesau yng nghanol y dref honno ar gynnig i sefydlu Ardal Gwella Busnes. Er nad aethpwyd ymlaen â'r cynnig hwnnw ar ôl y bleidlais ym Mhenarth, yr ydym yn dal i gydweithio â Grŵp Momentwm (a chrëwyd fel rhan o gynllun tref Penarth) ar brosiectau yng nghanol y dref. Rydym hefyd yn mynd ati o ddirif ar y cyd â Chyngor Tref Penarth i ddefnyddio'r buddsoddiad i gychwyn a chynnal digwyddiadau yn y dref. Yn Llanilltud Fawr, buom yn cydweithio â masnachwyr a'r grŵp digwyddiadau i ehangu digwyddiadau a chreu rhai newydd er mwyn dod ag egni ac ymwelwyr i'r dref.

Ym Mhenarth, yr ydym hefyd yn canolbwyntio ar wella Rhodfa Penarth a chynnal cysylltiadau cyfleus â chanol y dref a Hafan Penarth. Yn Y Barri, aethpwyd ati i wella'r olwg ar y strydoedd drwy adnewyddu blaenau siopau, adfer treftadaeth hanesyddol ambell i adeilad yn y stryd fawr a sicrhau bod lloriau uwch adeiladau'n cael eu defnyddio unwaith eto. Rydym wedi creu dewis priodol o gartrefi yng nghanol Y Barri fel rhan o ardal adnewyddu Castleland sy'n helpu i ateb y galw am dai. Rydym hefyd wrthi'n cydweithio â masnachwyr Heol Holton ar fân brosiectau eraill i wella mannau cyhoeddus, ac â masnachwyr y Stryd Fawr ar brosiectau sy'n ymwneud â digwyddiadau, gwella mannau cyhoeddus a dynodi a marchnata nwyddau.

Mae buddsoddi gan y sector preifat yn hanfodol bwysig ar gyfer gwella canol trefi, ac erbyn hyn y mae archfarchnad newydd gan Waitrose yng nghanol Y Bont-faen. Yn Y Barri, y mae cymysgedd o dai a siopau wedi disodli'r hen lys ynadon. Mae'r ddau ddatblygiad hwn a'r hyn a wnaethpwyd yn eu sgîl er mwyn gwella'r olwg ar y strydoedd, yn helpu i ddenu mwy o bobl i ganol y trefi hyn.

Yn y Fro wledig, bu partneriaeth adfywio'r Cyngor (Cymunedau Gwledig Creadigol) yn helpu i wella canol trefi, ac y mae'n cydweithio â llawer o wahanol grwpiau o randdeiliaid ar hyn o bryd er mwyn sefydlu byrddau lleoedd a gyrru'r gwaith gwella yn ei flaen. Bu nawdd Cymunedau Gwledig Creadigol o dan y pennawd 'rheoli cyrchfannau' o gymorth i ni ddarparu arwyddion dehongli newydd yn Llanilltud Fawr a'r Bont-faen sy'n cynnwys gwybodaeth hanesyddol yn o gystal â mapiau gwell o'r trefi. Rydym hefyd yn ceisio sefydlu cynllun 'siopau lleol' newydd ar y cyd â masnachwyr Y Bont-faen er mwyn denu mwy o ymwelwyr a phrysurdeb.

Mae'r cynllun hwn yn bwysig am ei fod wedi gosod sylfaen dystiedig y gallwn adeiladu arni. Drwy gynnal ymarfer meincnodi, cafwyd datganiad ffeithiol am sefyllfa bresennol trefi o safbwynt y siopau sydd ganddynt, y gwneir ohonynt a'r cyfle i wahanol fathau o ddefnyddwyr fynegi barn. Roedd hefyd yn caniatáu i ni eu cymharu â meincnodau perthnasol. Sgorau ar gyfartaledd y trefi a fu'n defnyddio offer meincnodi 'Trefi Byw' yw'r meincnodau hyn. Cafodd Y Bont-faen a Llanilltud Fawr eu hasesu'n ôl meincnod rhanbarthol De Orllewin Lloegr lle y mae nifer o drefi marchnad (yng Ngwlad yr Haf a Wiltshire ran fynychaf) a gymerodd ran yn yr ymarfer. Mae hyn i gyd wedi sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol ar gael y gallwn gyfeirio ati wrth asesu newid. Mae data hefyd sy'n ein helpu i adnabod beth yn union sy'n bwysig a mwyaf heriol, a gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer cefnogi ceisiadau am grantiau. Mae hefyd gyfle uniongyrchol i ni gynnal momentwm y prosiect arbrofol yn Echel 4 gyda chymorth y Swyddog Datblygu Canol Trefi. Mae'r Bont-faen a Llanilltud Fawr ill dwy, gan hynny, mewn lle ardderchog i barhau gyda'r gwaith a ddechreuwyd drwy Echel 4.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Mae gwaith 'rheoli cyrchfannau' wedi sbarduno gweithgarwch a allai dyfu a chael ei gysylltu â phob math o weithgareddau eraill. Gwnaethpwyd gwaith amrywiol i wella ffyrdd a phalmentydd yn Llanilltud Fawr fel rhan o'r cynllun llwybrau seiclo, er enghraifft y gellid ei gysylltu â rheoli cyrchfannau. Gallai datblygu asedau hanesyddol fel Eglwys Illtud Sant a Chapel Galilea a'u cysylltu â chyfleusterau lleol fel bwytai hefyd ddod o dan y categori hwnnw.

Daethom i ben yn llwyddiannus â'r holl brosiectau yn y Cynllun Datblygu Gwledig presennol a chael effaith positif ar nifer o gymunedau yn y Fro. Cynhaliwyd asesiad annibynnol o'r [Cynllun Datblygu Gwledig yn y Fro](#) rhwng 2011 a 2014, ac y mae wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'n crynhoi'r canlyniadau cyffredinol yn y rhaglen y llwyddwyd i'w sicrhau, ac yn tynnu sylw at amryw o astudiaethau achos.

Buom yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid er mwyn gweithredu Rhaglen Ardal Adfywio'r Barri a ddaeth i ben ym Mawrth 2014. Adfywio'r promenâd dwyreiniol yn Y Barri, adfywio Canolfan Blant Gibbonsdown a gwella Heol Thompson yw rhai o'r prif brosiectau a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cytundeb benthyciad wedi'i drefnu erbyn hyn rhwng Llywodraeth Cymru, y Cyngor a'r Consortiwm er mwyn i ni gael dod i ben yn gynt â'r gwaith o adeiladu heol rhwng Ardal y Glannau yn Y Barri a'r Ynys a rhagwelwn gwblhau'r heol yn haf 2015. Bydd yn haws teithio rhwng y dref ac Ynys Y Barri wedyn, a bydd hynny yn ei dro'n cyfoethogi datblygiad trefol a chyfleusterau cymunedol newydd yr ardal. Rydym yn parhau i gydweithio â phrif bartneriaid er mwyn cyflawni rhagor o waith adfywio yn Y Barri.

Er mwyn gwneud y gorau o'r Fro fel cyrchfan ymwelwyr a thwristiaid, aethom ati ar y cyd â phrif bartneriaid i lunio Cynllun Gweithredu Cyrchfannau sy'n ymdrin â rheoli a gwella canol trefi fel rhan o'i gwmpas gwaith. Bu hyn o gymorth i ni wybod pa gamau i'w cymryd yn bennaf a pha rai i'w cymryd o ran blaenoriaeth er mwyn gwella profiad ymwelwyr a helpu i greu economi ymwelwyr leol gynaliadwy a llwyddiannus. Y pedwar maes y mae Cyngor y Fro a'i bartneriaid yn eu datblygu'n bennaf fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cyrchfannau yw: Hybu Delwedd Bro Morgannwg (Hyrwyddo'r Fro); Gwella Mannau Cyhoeddus a'r Isadeiledd ar gyfer Ymwelwyr (Datblygu Lleoedd); Gwella'r Ddarpariaeth a'r Profiad a roddir i Ymwelwyr (Datblygu'r Ddarpariaeth) a Gwella Synnwyr Lle (Hybu Lleoedd).

Yn ein harolwg barn cyhoeddus dwyflynyddol a gynhaliwyd yn ystod 2014/15, gofynnwyd i drigolion fynegi barn am ganol y trefi y buont yn ymweld â hwy a dyma'r prif ddarganfyddiadau:

- Roedd y cyhoedd yn llawer mwy cadarnhaol am ganol y Bont-faen a Llanilltud Fawr nag am unrhyw ganol tref arall yn y Fro. Dros 9 o bob 10 o ymwelwyr â chanol y trefi hynny a ystyriai eu bod un ai'n dda iawn neu'n weddol dda (sef 98% yn achos y naill dref a 94% yn achos y llall). 89% a deimlai felly am ganol Penarth, sef y drydedd dref orau gan yr ymatebwyr. Roedd y farn am Y Barri, serch hynny'n fwy cymysg. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn weddol gadarnhaol, teimlai rhai fod canol y dref honno un ai'n 'eithaf gwael neu'n wael iawn'. 38% a deimlai felly am Heol Holton a 41% am y Stryd Fawr a Broad Street. Pan ofynnwyd i ymatebwyr egluro pam y teimlent fod canol y dref yn 'wael', y rhesymau a roddwyd, amlaf oedd 'mae golwg di-raen arno', 'mae dewis gwael o siopau yno' a 'mae gormod o siopau elusen'.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

- Bu tipyn o ganmol ar hygyrchedd canol trefi gyda 9 o bob 10 o ymatebwyr yn teimlo bod trefniadau da iawn ynteu gweddol dda yn eu trefi hwy ar gyfer defnyddio bysiau neu gerdded yng nghanol y dref. Bu llawer o ganmol hefyd ar y trenau i ganol trefi ac eithrio yn achos Y Bont-faen lle nad oes gorsaf drenau i'w chael. Cymysg oedd y farn am y trefniadau ar gyfer seiclwyr, ac er bod 9 o bob 10 (87%) yn teimlo bod y rheiny un ai'n dda iawn neu'n weddol dda yn Llanilltud Fawr, 55% o ymatebwyr yn unig a deimlai felly am Y Barri (Y Stryd Fawr/Broad Street). Roedd ymatebwyr yn fwy beirniadol am y lle sydd ar gael yng nghanol trefi ar gyfer parcio ceir, yn enwedig ym Mhenarth a'r Barri.
- Canol Penarth a ganmolwyd fwyaf am nodweddion megis arwyddion eglur, glanweithdra cyffredinol, cynnal a chadw cyffredinol, yr olwg ar gelfi'r strydoedd a'u cyflwr, harddwch blaenau siopau a hysbysebion cysylltiedig, blodau a dail addurniadol a'r dewis o siopau amrywiol. Llanilltud Fawr, Penarth a'r Barri a ddilynodd wedyn yn y drefn honno.

Yn ystod 2015/16, bydd y Cyngor a'i brif bartneriaid yn parhau i ddatblygu argymhellion y Fframwaith Canol Trefi a darganfyddiadau'r arolwg barn cyhoeddus er mwyn cael meithrin prysurdeb canol trefi nid yn unig drwy eu gwella'n gorfforol ond eu hyrwyddo hefyd.

Faint wnaethom ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Nifer y blociau tai yn Heol Holton uchaf a gafodd gynnig grant ar gyfer eu gwella.			4	9		☺	
Nifer yr holl ymwelwyr a ddaeth i Fro Morgannwg fel twristiaid (Arolwg 'STEAM' sef model Scarborough ar gyfer monitro gweithgarwch economaidd twristiaid).	3,193,500	3,742,000	3,500,000	3,663,000		☺	↓

Pa mor dda oeddem ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran yr unedau manwerthu ar gyfartaledd sy'n wag ym mhrif ganolfannau siopa'r Fro.	8		7.8	9.60		☹	
Canran yr unedau manwerthu sy'n wag yng nghanol tref Y Barri, Heol Holton.	10		9	8.66		☺	
Canran yr unedau manwerthu sy'n wag yn Y Bont-faen	2		2.5	8.03		☹	

Pa mor dda oeddem ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran yr unedau manwerthu sy'n wag yn Heol Windsor, Penarth.	2.5		2.5	4.18		☹	
Canran yr unedau manwerthu sy'n wag yn Broad Street/y Stryd Fawr, Y Barri.	11.10		10.8	9.92		☺	
Canran yr unedau manwerthu sy'n wag yn Llanilltud Fawr.	2.60		2.5	3.21		☹	

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y trigolion sy'n teimlo bod canol tref Y Barri (Heol Holton) un ai'n dda iawn neu'n weddol dda o safbwynt harddwch cyffredinol.				59			
Canran y trigolion sy'n teimlo bod canol tref Y Barri (Broad Street/y Stryd Fawr) un ai'n dda iawn neu'n weddol dda o safbwynt harddwch cyffredinol.				62			
Canran y trigolion sy'n teimlo bod canol tref Y Bont-faen un ai'n dda iawn neu'n weddol dda o safbwynt harddwch cyffredinol.				98			
Canran y trigolion sy'n teimlo bod canol tref Llanilltud Fawr un ai'n dda iawn neu'n weddol dda o safbwynt harddwch cyffredinol.				93			
Canran y trigolion sy'n teimlo bod canol tref Penarth (Heol Windsor) un ai'n dda iawn neu'n weddol dda o safbwynt harddwch cyffredinol.				86			
Canran y trigolion sy'n teimlo bod canol ein trefi'n fannau hardd i bobl ymweld â hwy.				76			
Canran y busnesau sydd wedi goroesi mewn mannau gwaith a reolir gan Gyngor Bro Morgannwg.		100	90	91.3		☺	↓

Hanes ein perfformiad

Mae prif ganol trefi'r Fro'n wynebu rhwystrau penodol ar hyn o bryd sydd wedi achosi i gyfradd unedau gwag y pum canol tref ar gyfartaledd ddirywio o 1.6%. Serch hynny, ffigur a ystumwyd gryn dipyn gan gynnydd sydyn yn nifer yr unedau gwag yn Y Bont-faen yw hwn. Rhwystr mwy cyffredinol yw arferion siopa newydd fel siopa ar-lein drwy wasanaeth 'clicio a chasglu' sy'n cael ei gynnig yn amlach erbyn hyn. Mae sôn hefyd fod rhai manwerthwyr wedi rhoi'r gorau i fasnachu yng nghanol trefi oherwydd rhenti a'r ardrethi cynyddol. Mae rhwystrau fel y rhain yn codi mewn llawer o drefi tebyg yn y DU.

Mae rhai canol trefi yn y Fro'n gweld siopau'n cau a manwerthwyr yn ymadael am resymau naturiol sydd y tu hwnt i ddyletswydd a rheolaeth y Cyngor, e.e. profedigaeth, newid cyfeiriad a symud o'r ardal ar ôl i les ddod i ben, ac ati. Er bod tuedd gynyddol i unedau fynd yn wag yng nghanol trefi Penarth (Heol Windsor) a'r Bont-faen, ni fyddant yn aros felly am gyfnod hir. Mae'r ddwy dref hon yn dal i hawlio sgôr uchel am eu harddwch a hynny'n aml sy'n cyfrif am y cyfnod byr rhwng cau ac ailagor unedau.

Mae'r Cyngor wrthi'n annog pob un o'r pum canol tref i ddod yn fywiocach a gwella ei berfformiad wrth i'r economi dyfu ac ymdrechu i adennill y nerth a oedd ganddi cyn y dirwasgiad diwethaf. Mae'r Swyddog Datblygu Canol Trefi'n llwyddo i ddenu pob canol tref i gydweithio â'r gymuned fasnachu ar brosiectau a chynlluniau a fydd yn hybu prysurdeb ac yn denu buddsoddwyr newydd i'r ardaloedd hyn yn y dyfodol.

Mae'r brif ganolfan sef Y Barri'n cael ei hadfywio'n sylweddol yn Ardal y Glannau, ar yr ynys ac yng nghanolfan siopa Broad Street lle y mae cynigion ar gyfer gwella mannau cyhoeddus yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae llawer o fanwerthwyr wedi dangos diddordeb mewn buddsoddi yn y dref, ac am fod y farchnad am nwyddau darfodus mor fywiog, y mae pob un o'r prif gadwyni archfarchnad ond un bellach wedi ymsefydlu ac yn gweithredu yma.

Y teimlad cyffredinol yw bod canol trefi'r Fro'n ddeniadol gyda 76% o drigolion yn eu gweld un ai'n 'dda iawn' neu'n 'weddol dda'. Drwy wella'r ardaloedd hyn yn gyson drwy raglen grantiau Ardal Adnewyddu Masnachol Y Barri a chynlluniau eraill o dan arweiniad y Swyddog Datblygu Canol Trefi byddwn hefyd yn gwella cyfraddau unedau gwag y Fro gyfan.

Astudiaeth Achos: Cefnogi a gwella prif ganol trefi'r Fro

Bu'r Swyddog Datblygu Canol Trefi'n cydweithio â threfi'r Fro er mwyn cynnal digwyddiadau amrywiol sy'n hybu bywiogrwydd a phrysurdeb. Cynhaliwyd marchnadoedd crefftau'r Nadolig yng nghanol Penarth, Llanilltud Fawr a'r Barri. Cafodd yr holl ddigwyddiad dderbyniad da gan fasnachwyr a siopwyr, a llwyddwyd i hybu prysurdeb yn y trefi ar y diwrnod a chynyddu masnach yn yr ardal. Roedd rhai o fasnachwyr y marchnadoedd hyd yn oed wedi gwerthu eu holl gynnyrch. Cynhaliwyd marchnad y gwanwyn yn y Stryd Fawr, Y Barri er mwyn dod â phrysurdeb i ran o'r stryd sydd fel arfer yn dawel. Unwaith eto, llwyddodd y digwyddiad hwn i hybu prysurdeb, a chafodd masnachwyr lawer mwy o gwsmeriaid o ganlyniad iddo. Maent yn edrych ymlaen bellach at redeg digwyddiadau tebyg yn yr haf a'r gaeaf er mwyn adeiladu ar lwyddiant y farchnad. Mae'r Swyddog Datblygu Canol Trefi wrthi'n cydweithio â Grŵp Momentwm Penarth a Chyngor Tref Penarth ar hyn o bryd ar brosiect marchnad bwyd stryd arbrofol er mwyn cael bywiogi rhan dawel o ganol y dref yn ogystal â dod â nwyddau cynhyrchwyr bwyd lleol i sylw trigolion ac ymwelwyr.

Meysydd sydd angen eu gwella		Erbyn
1	Gwella canol trefi'r Fro drwy fframwaith canol trefi mabwysiedig y Cyngor.	2015/16
2	Cydweithio â phartneriaid er mwyn hyrwyddo rhagor o waith adfywio yn Y Barri.	2015/16

3.5 Gwella Sgiliau, Gwybodaeth a Chyfleoedd

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol

Mae gan ddinasyddion y Fro'r sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle sydd ganddynt.

Amcan Gwella 5

Sicrhau bod llai o bobl ifanc yn cael eudosbarthu i gategori rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.

Arwyddion Llwyddo

- Bydd pobl ifanc 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' yn dod i'n sylw'n gynnar a byddwn yn cyfeirio'r rhai mwyaf anghenus at wasanaethau.
- Mae gwasanaethau wedi'u cyd-drefnu er mwyn i bobl ifanc yn y categori hwn gael gwella eu sgiliau gwaith a'u sgiliau sylfaenol.
- Bydd canran lai o bobl ifanc yn cael eu dosbarthu i gategori rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.
- Bydd canran lai o bobl ifanc sy'n gadael addysg yn 18 oed yn llithro i'r categori hwn.
- Bydd pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dosbarthu i'r categori hwn yn dod i'n sylw'n gynnar ac yn cael cymorth penodol wrth symud ymlaen at y ddarpariaeth ar gyfer rhai dros 16 oed ac ar adegau pontio eraill.
- Byddwn yn sicrhau bod nifer y bobl ifanc a ddosberthir i'r categori hwn ym mlwyddyn 11 a blwyddyn 12 yn aros yn isel.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rhesymau canlynol:

- Mae llawer o waith wedi'i wneud ar y cyd â phartneriaid allweddol, a gwelwyd canran y bobl ifanc a ddosbarthwyd i'r categori hwn ym mlwyddyn 11 yn gostwng o 3.8% i 2.75% a'r ganran ym mlwyddyn 12 yn gostwng o 2.02% i 1.78%.
- Mae canran y plant yn y categori hwn ym mlwyddyn 13 hefyd wedi gostwng o 4.8% i 4.08%, a chafodd mwy o bobl ifanc dros 18 oed gymorth i ddod o hyd i swyddi.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Rydym wedi parhau i ddatblygu darpariaeth a strategaethau'n unswydd er mwyn cadw pobl ifanc rhag llithro i'r categori hwn, yn enwedig ym mlynedd 11, 12 a 13, a bu mapio'r ddarpariaeth bresennol o gymorth i ni yn hynny o beth. Llwyddwyd i lenwi'r bylchau a ddaeth i'r golwg yn ystod yr ymarfer mapio drwy wella gwasanaethau. Lluniwyd cyfeirlyfr sy'n dangos cymysgedd eang o ddarpariaeth a'i hysbysebu'n helaeth er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cynnig symud ymlaen i addysg bellach neu swydd. Rhannwyd hwnnw â Llywodraeth Cymru, ysgolion, darparwyr hyfforddiant a'r sector gwirfoddol. Rydym hefyd wedi dechrau defnyddio darpariaeth deithiol er mwyn gallu cysylltu â phobl ifanc rhwng 18 a 25 oed.

Mae gwasanaethau'n cydweithio'n fwy effeithiol erbyn hyn, ac wedi cydgyfrannu yn y gwaith o ddatblygu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid, gan rannu adnoddau. Sefydlwyd protocol rhannu gwybodaeth hefyd (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) ar y cyd â phartneriaid. Drwy gyd-drefnu yn y modd yma, cawsom rannu gwybodaeth â phartneriaid, a bu hynny yn ei dro o gymorth i ni olrhain y plant a ddsbarthwyd i'r categori hwn a chyfeirio ein hadnoddau'n fwy effeithiol. Mae'r ffordd hon o weithio wedi helpu i sicrhau na fydd cynifer o fyfyrwyr yn llithro i gategori rhai 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' ar ôl gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 a blwyddyn 12.

Proffil ar gyfer asesu'r perygl o niwed y mae'r ysgolion yn ei ddefnyddio ers Medi 2014 yw'r system nodi cynnar. Bydd yn rhaid iddynt ei lunio ddwywaith y flwyddyn, a darparu'n benodol wedyn ar gyfer y bobl ifanc sydd debycaf o lithro i gategori rhai 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'. Mae'r system wedi profi'n effeithiol iawn o safbwynt cysylltu â phobl ifanc drwy wasanaethau a dargedwyd. Yn ei gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid y mae Llywodraeth Cymru'n enwi'r Fro fel astudiaeth achos gadarnhaol.

Mae mwy o gymorth ar gael i fyfyrwyr sy'n pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd yn 16 oed erbyn hyn. Bydd dau aelod o'r tîm gwasanaeth ieuencid (swyddogion pontio) yn gweithio gyda phobl ifanc a gyfeiriwyd atynt drwy'r ysgolion, a 177 o bobl ifanc i gyd a fu'n ymwneud yn ymarferol â swyddogion cymorth pontio yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, yr oedd pobl ifanc 16 oed yn cael cymorth hyfforddwr dysgu wrth ymadael â'r ysgol.

Dengys y gwaith a wnaethpwyd gyda Chymunedau'n Gyntaf fod 64 o bobl ifanc wedi dilyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Drwy'r archfarchnad ASDA newydd, llwyddodd Cymunedau'n Gyntaf i helpu llawer iawn o bobl ifanc i ddod o hyd i swyddi. 16 o bobl ifanc a gafodd leoliadau gwaith drwy Yrfa Cymru, a 9 hyd yma sydd wedi gorffen eu lleoliadau ac y mae nifer wrthi'n cyflawni lleoliadau ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i gydweithio â chynlluniau adfywio er mwyn cael cynnig cyfleoedd hyfforddi a gweithio da a chynaliadwy. 13 o bobl ifanc a oedd wedi'u dosbarthu fel rhai 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' a gafodd swyddi fel rhan o'r Rhaglen Waith yn ystod 2014/15. Dengys yr adroddiad blynyddol ar Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid i 69 o bobl ifanc gael swyddi o ganlyniad i gwrs addysg, hyfforddiant neu gyfnod o wirfoddoli.

Drwy gydweithio â phartneriaid allweddol yn y ffordd gydgyssylltiedig yma, llwyddwyd i ostwng canran y bobl ifanc a ddsbarthwyd fel 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' o 3.8% i 2.75% ym mlwyddyn 11 ac o 2.02% i 1.78% ym mlwyddyn 12. Cafodd mwy o

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

bobl ifanc dros 18 oed hefyd gymorth i ddod o hyd i swyddi. Mae ein perfformiad o safbwynt canran y bobl ifanc ym mlwyddyn 13 a ddosbarthwyd i'r categori hwn hefyd wedi gwella am mai 4.08% yw'r ganran eleni o'i chymharu â 4.8% yn 2013/14. Mae gostwng canran y bobl ifanc a ddosbarthwyd i'r categori hwn yn dal yn flaenoriaeth gan y Cyngor.

Yn ystod ymweliad monitro yn Hydref 2014, dywedodd Estyn fod dulliau'r Cyngor ar gyfer olrhain, adnabod a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o lithro i'r categori hwn, wedi gwella. Dywedodd hefyd ein bod yn fwy abl bellach i gymryd camau priodol ac ymyrryd yn benodol tra bod y bobl ifanc yn yr ysgol. O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn gynt yn dod o hyd i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio ac yn gallu olrhain y rhai y bydd angen eu helpu a'u cefnogi er mwyn cadw eu diddordeb.

Faint wnaethom ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Nifer y bobl ifanc sy'n ymwneud yn ymarferol â gweithwyr Cymorth Pontio		109	45	177		😊	↑
Canran y deg etholaeth waethaf yn y Fro am ddiweithdra ymhlith yr ifainc a gafodd ymweliad gan hyfforddwyr dysgu'n defnyddio darpariaeth symudol.		100	100	100		😊	↔
Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg nac yn dilyn hyfforddiant nac yn dysgu yn y gwaith.	65	63	60	43		😊	↑
Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 12/13 y gwyddys nad ydynt mewn addysg nac yn dilyn hyfforddiant nac yn dysgu yn y gwaith.	65	39	110	52		😊	↓
Nifer y bobl ifanc a ddosbarthwyd fel rhai 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' a fu mewn cysylltiad â Swyddogion Cymorth ar gyfer pobl ifanc felly.		109	45	214		😊	↑

Pa mor dda oeddem ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y rhai y daethom i gysylltiad â hwy drwy ddefnyddio'r ddarpariaeth symudol a fu wedyn yn ymwneud â'r gwasanaeth er mwyn cael gwella eu rhagolygon gwaith.		73.8	40	33		☹	↓
Canran y bobl ifanc a fu dan ofal ac y sydd mewn cysylltiad â'r awdurdod o hyd y gwyddys eu bod un ai mewn addysg, yn dilyn hyfforddiant, ynteu mewn swydd pan oeddynt yn 19 oed.	55.56	44.4	52	57.1	59.5	☺	↓
Canran y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd yn rheolaidd.	92.81	93.38	93.0	94.2	93.6	☺	↑
Canran y disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n dewis aros mewn addysg amser llawn.	87.6	88.33	86	90.96		☺	↑
Y gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc ym mlwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant.	3.9	3.80	3.25	2.75	3.07	☺	↑
Y gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc ym mlwyddyn 12 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant.	2.1	2.02	1.95	1.78	1.91	☺	↑
Y gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc ym mlwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant.	4.4	4.8	4.20	4.08	4.9	☺	↑

Oes unrhyw un yn well ei fydd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y rhai rhwng 16 a 18 oed sydd mewn addysg, gwaith neu'n dilyn hyfforddiant.	93.2	91.6	81	94.8		☺	↑
Canran y disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed eisoes ar ddiwrnod olaf y mis Awst blaenorol, a adawodd addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb unrhyw gymwysterau allanol cymeradwy.	0	0	0	0	1.2	☺	↑

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys rhai mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed eisoes ar ddiwrnod olaf y mis Awst blaenorol) a adawodd addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb unrhyw gymwysterau allanol cymeradwy.	0.13	0.24	0.1	0	0.4	☺	↑
Y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a ddisbarthwyd fel 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'.	3.98	3.5		2.78			↑
Nifer cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' a gafodd swyddi.		6		14			↑
Nifer cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' a ddywedodd fod ganddynt fwy o hyder bellach i chwilio am swydd.		68		147			↑
Nifer cleientiaid y Rhaglen Waith 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' a gafodd swyddi.	2	4		13			↑
Nifer y rhai 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' a fu'n ymwneud â Chymunedau'n Gyntaf, a ddywedodd fod ganddynt fwy o hyder bellach i chwilio am swydd.		68		147			↑

Hanes ein perfformiad

Am i un o'n partneriaid gael anhawster i sicrhau nawdd, methwyd â chyrraedd mwy o bobl ifanc drwy'r ddarpariaeth symudol fel y'i bwriadwyd. Serch hynny, byddwn yn cymryd camau penodol yn ystod 2015/16 i gysylltu â mwy o bobl ifanc er mwyn gwella eu rhagolygon gwaith.

Yn 2013, 4.8% o bobl ifanc 18 oed ym mlwyddyn 13 a oedd wedi'u dosbarthu fel 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', a gostyngodd y ganran honno i 4.08% yn 2014. Gellir priodoli'r gostyngiad hwnnw i'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a gwell cyfathrebu rhwng partneriaid. Serch hynny, y mae angen datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer rhai rhwng 18 a 24 oed. Dylai'r warant ieuenctid a roddir ar waith ym Medi 2015 fod yn hwb i fwy o bobl ifanc 18 oed gofleidio addysg, gwaith cyflogedig a hyfforddiant. Bydd prosiectau Cymunedau'n Gyntaf drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac ymgynghorwyr Canolfan Byd Gwaith hefyd yn helpu mwy o bobl rhwng 18 a 24 oed

yn y categori hwn i gael hyd i swyddi neu fanteisio ar hyfforddiant. Bydd Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru'n datblygu rhagor o ganllawiau er mwyn mynd i'r afael â'r garfan o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed. Bydd disgwyl i ysgolion chweched dosbarth gwblhau'r offeryn nodi cynnar, trefnu'r ddarpariaeth wedyn ac yna sicrhau ei bod ar gael i rai sydd mewn perygl o ymddieithrio. Am fod y ganolfan byd gwaith yn rhannu data am bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed mewn wardiau, gallwn ddarparu'n fwy manwl ar gyfer ardaloedd.

Ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr ydym wedi cyflwyno systemau a phrosesau newydd sydd wedi sicrhau na chafodd unrhyw blant (gan gynnwys rhai 15 oed dan ofal) ymadael ag addysg orfodol, hyfforddiant na dysgu yn y gwaith heb gymhwyster cymeradwy.

Astudiaeth Achos: Ymgysylltu ag unigolyn ifanc nad yw mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant

O ganlyniad i waith amlasiantaethol, cafodd merch ifanc (LM) ei chyfeirio at EMOJIS, sef prosiect sy'n ymdrechu i feithrin dawn fynegi, hyder a hunan-barch pobl ifanc. Bydd y prosiect hwn yn helpu pobl ifanc i fynegi eu teimladau mewn ffordd ddiogel a meithrin gwell perthynas â'u cyfoedion a'u teuluoedd. Mae'r cyrsiau sydd ar gynnig – e.e. 'Deall Ymatebion Emosiynol' - i gyd yn pwysleisio'r dull hwn o weithredu. Bydd y bobl ifanc yn cael eu hannog i ymwneud â gweithgareddau fel celf a chreffft, canu, cynhyrchu cerddoriaeth, gwneud ffilmiau, trafodaethau, tennis bwrdd, pêl, teithiau, trin cyfryngau a gwaith peiriannydd sain.

Roedd LM wedi cael ei chyfeirio at brosiect Gwasanaeth Cefnogi Ieuenctid EMOJIS drwy dîm 'Teuluoedd yn Cydweithio am Newid' (Families Achieving Change Together) (FACT). Ni fu mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant ers 18 mis am fod problemau gwewyr meddwl ganddi, ac yr oedd hefyd yn ddihyder ac wedi methu â magu hunan-barch am na fedrai ysgrifennu na darllen yn dda a bod ganddi ychydig o nam ar ei lleferydd.

Aeth dau o weithwyr prosiect EMOJIS i ymweld â LM yn ei chartref er mwyn torri'r iâ a'i helpu i fagu digon o hyder i fynychu'r grŵp. Magu hunanhyder, dod yn fwy hunanymwybodol a chanolbwyntio ar dechnegau ar gyfer ysgogi'r hunan, ac annog LM i ymwneud yn fwy ag aelodau eraill y grŵp ac ehangu ei chylch cymdeithasol, oedd y pwyslais ar y dechrau. Gwneud cerdd o'i hanes a'i fynegi ar gân oedd un ffordd o gyfathrebu a ddefnyddiodd LM.

Mae LM wedi magu mwy o hyder erbyn hyn a hyd yn oed perfformio o flaen grŵp o oedolion ar ei phen ei hun. Mae wedi dysgu ei mynegi ei hun yn well yng nghwmni pobl eraill, ac yn dal i ehangu ei chylch cymdeithasol drwy fynychu'r clwb ieuenctid lleol. Mae LM wedi llunio portffolio gyda chymorth gweithwyr EMOJIS a chael ei derbyn ar gwrs cyfryngau yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro a fydd yn dechrau ym mis Medi. Mae hyn yn gryn gamp am na fu mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant ers 18 mis. Ymateb LM i hyn i gyd oedd y byddai'n dal yn gaeth i'w hystafell wely, yn isel ei hysbryd a heb unrhyw uchelgais ar gyfer y dyfodol oni bai am ymyrraeth EMOJIS.

Meysydd sydd angen eu gwella

Erbyn

1	Sicrhau bod llai o bobl ifanc ar hyd yr amser yn cael eu dosbarthu i'r categori hwn ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13 drwy helpu mwy ohonynt i ymgysylltu â byd gwaith, addysg a hyfforddiant.	2015/16
---	--	---------

3.6 Cynnig Cymorth a Chyngor

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol

Caiff trigolion Bro Morgannwg dai addas o safon y medrant eu fforddio a chyngor a chymorth wrth drafod tai.

Amcan Gwella 6

Cymryd llai o amser i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

Arwyddion Llwyddo

- 80% o'r rhai a gafodd grant cyfleusterau i'r anabl a oedd yn fodlon ar y broses ar gyfer darparu grantiau.
- 80% o'r rhai a gafodd grant cyfleusterau i'r anabl a ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r gwaith a wnaethpwyd.
- Caiff pobl aros yn fwy annibynnol a pharhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rhesymau canlynol:

- Gallwn ddarparu grantiau ar gyfer defnyddwyr mewn dwy ran o dair o'r amser a gymerwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae ein perfformiad yn gwella o'i gymharu â pherfformiad cynghorau eraill Cymru ac fe'n gosodwyd yn 8^{fed} yng Nghymru eleni o'i gymharu ag 16^{eg} y llynedd.
- Byddwn yn parhau i gydweithio â chwsmeriaid er mwyn cael sicrhau bod eu profiad o'r broses ddarparu grantiau'n un cadarnhaol drwyddi draw ac o gymorth iddynt fwy'n fwy annibynnol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn eu bod yn fodlon arno ac yn fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r cymorth a gawsant.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Gweithredwyd contract fframwaith ar gyfer contractwyr adeiladu sy'n defnyddio gwasanaeth asiantaeth y Cyngor i drefnu gwaith addasu ar gyfer ymgeiswyr, a bu hynny a'r mân ddiwygiadau prosesu a wnaethom o gymorth mawr i ni ddarparu grantiau'n gynt yn ystod 2014/15. Mae'r 199 o ddiwrnodau a gofnodwyd yn dangos bod ein perfformiad yn 30% yn well nag yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'n ein gosod yn yr 2^{il} chwarter yng Nghymru ac yn 8^{fed} ymhlith cyngorau eraill Cymru. 98% o'r cwsmeriaid a ddefnyddiodd y gwasanaeth grantiau cyfleusterau yn ystod y flwyddyn a ddywedodd eu bod yn fodlon arno. 96% o'r rhai a gafodd grantiau cyfleusterau i'r anabl hefyd a ddywedodd eu bod yn fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r cymorth a gawsant. Er bod y ffigurau hyn yn dal yn uchel, gostyngodd lefel bodlonrwydd cwsmeriaid ryw ychydig. Felly byddwn yn parhau i gydweithio â chwsmeriaid er mwyn cael sicrhau bod eu profiad o'r broses yn un cadarnhaol sy'n dod â chanlyniad cadarnhaol - sef sicrhau eu bod yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Gan ddilyn methodoleg sy'n argymhell gwella gwasanaethau drwy'u chwynnu, bu pob aelod allweddol o staff yn helpu i ddod o hyd i rannau eraill o'r broses grantiau cyfleusterau ar gyfer eu gwella. Bydd hyn yn hwb pellach i'n perfformiad o safbwynt gwasanaethu cwsmeriaid a darparu grantiau. Gweithredwyd rhai o'r camau gwella eisoes sef: symleiddio'r broses ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid er mwyn osgoi ailadrodd gwaith; cyfeirio cwsmeriaid newydd at y pecyn gwybodaeth ar gyfer y grantiau; a chyfeirio hen gwsmeriaid yn syth at therapydd galwedigaethol. Rydym hefyd wedi cyflwyno rhestr o therapyddion galwedigaethol (OT3) sy'n helpu i benderfynu pa rai o'r cwsmeriaid sy'n cysylltu â'r Cyngor am y tro cyntaf y dylid eu hasesu ar gyfer addasu eu heiddo drwy gymorth grant cyfleusterau i'r anabl. Drwy ddefnyddio'r rhestr hon, gallwn gynnal prawf moddion yn gynharach yn ystod y cyfnod ymgeisio a rhoi gwybod i ymgeisydd faint yn union y bydd disgwyl iddo ei gyfrannu wrth dderbyn grant addasu. Ar ôl cael eu hasesu gan therapydd galwedigaethol, bydd ymgeiswyr mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau doeth heb rwystro'r broses.

Drwy gydweithio â'r tîm newydd sbon ar gyfer datrys problemau llety, gallwn hefyd addasu eiddo ar gyfer ymgeiswyr sydd yn yr ysbyty. Mae modd wedyn eu rhyddhau'n syth i gartrefi addasedig, ac ysgafnhau rywfaint ar y pwysau sydd ar ysbytai i gael pob gwely'n barod ar gyfer y claf nesaf cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae Cofrestr Tai Hygyrch y Cyngor sy'n denu llawer mwy o danysgrifwyr nag y medr eu cynnwys, yn ein helpu i ddeall anghenion penodol pobl anabl o safbwynt eu llety ac addasu eu tai ac weithiau adeiladu tai newydd er mwyn cwrdd â'r anghenion hynny. Mae'n rhan o gynllun dosbarthu tai HOMES4U ac yn cael ei chynnal ar y cyd â gwasanaeth addasu eiddo'r Cyngor. 288 o ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ac y mae 20 o'r rhain yn bobl ifanc o dan 18 oed.

Drwy gydweithio â datblygwyr yn y sectorau preifat a chymdeithasol, y mae'r Cyngor am sicrhau bod mwy o dai hygyrch yn cael eu darparu fel rhan o'u dyletswyddau o dan y polisi cynllunio. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, yr ydym wedi cynnig mwy na 160 o dai i ymgeiswyr yr oedd angen cartrefi mwy addas arnynt. Cafodd peth eiddo ar stadau newydd hefyd ei gynllunio'n unswydd ar gyfer ymgeiswyr a oedd yn gofyn am gael addasu tŷ'n fanwl iawn er mwyn ei droi'n gartref am oes. Byddwn yn cyd-dynnu'n dda â'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig partner yn HOMES4U sydd hefyd yn sicrhau bod cyfran o'r holl dai newydd yn y Fro un ai'n hygyrch neu wedi'i haddasu. Pan fydd tenant yn gwneud cais am addasu eiddo'r Cyngor, byddwn yn ei asesu er mwyn cael penderfynu p'un ai a fo'r gwaith y gofynnir amdano'n arferol neu

resymol ai peidio. Pan na fydd yn ymarferol nac yn rhesymol, byddwn yn chwilio am dŷ mwy addas, a llwyddwyd eisoes i symud dros 20 o'r achosion mwyaf cymhleth i dai eraill yn y stoc bresennol a addaswyd yn briodol. Ar ôl cael hyd i eiddo, byddwn hefyd yn trefnu i waith addasu angenrheidiol (darparu ystafell wlyb neu osod lifft risiau, er enghraifft) gael ei wneud cyn i'r tenant symud i mewn. Unwaith eto, bydd hyn i gyd yn dibynnu ar asesiad.

Yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, y mae'r Cyngor wedi gwario dros £2.6 miliwn ar addasu'r stoc dai bresennol. Mae hyn yn ogystal â'r gwaith addasu mawr a mân sydd hefyd yn cael ei wneud fel rhan o gontract Safon Ansawdd Tai Cymru er mwyn i denantiaid anabl allu aros yn eu cartrefi eu hunain. Yn gyffredinol, y mae ein dull o weithredu'n ein galluogi i drefnu'r ychydig o adnoddau sydd gennym yn well ar gyfer cwrdd ag anghenion tai'r rhai mwyaf anghenus. Mae hefyd yn cyfrannu tuag at helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser, sef un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Faint wnaethom ni?							
	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Nifer yr ymholiadau ynglŷn â chymorth i addasu cartrefi trigolion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.	179	286		310			↑
Nifer y grantiau cyfleusterau i'r anabl a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn	88	146		167			↑
Nifer y grantiau cyfleusterau i'r anabl a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.	93	129		158			↑

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl.	346	283.75	250	199	231	😊	↑
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plentyn neu rywun ifanc.	454	440.11	350	197.80		😊	↑
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl ar gyfer oedolyn.	337	272.31	245	198.66		😊	↑
Canran y cwsmeriaid a oedd yn fodlon ar y gwasanaeth	94.12	100	80	98.73		😊	↓

grantiau cyfleusterau i'r anabl.							
Gwerth grant cyfleusterau i'r anabl ar gyfartaledd.	£9,151.24	£7,396.84	£7,500	£7,470.41		☺	↓

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y cleientiaid a gafodd grant cyfleusterau i'r anabl a ddywedod eu bod yn teimlo'n fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad.	90.20	97.73	80	96.30		☺	↓

Hanes ein perfformiad

O'r 310 o ymholiadau ynglŷn â chymorth i addasu eiddo a gafodd tîm grantiau cyfleusterau i'r anabl yn ystod y flwyddyn, 299 a oedd yn ymwneud ag oedolion ac 11 â phlant. O'r ymholiadau hyn, 52 i % (161) a adawyd heb eu trin ymhellach am nifer o resymau ac yn bennaf am i: (1) 30 o ymgeiswyr dynnu eu ceisiadau'n ôl ar ôl i asesiad moddion ddatgelu y byddai'n rhaid iddynt dalu cyfraniad uchel; (2) 28 ymwrthod â grant ar ôl i'r Cyngor gysylltu â hwy; (3) 28 o gwsmeriaid dynnu'n ôl am nad oeddynt am gwblhau asesiad moddion; (4) 25 dynnu'n ôl heb gynnig unrhyw eglurhad; (5) 11 o ymgeiswyr fethu â chysylltu â'r Cyngor o gwbl; (6) 9 o ymgeiswyr farw; (7) 8 o ymgeiswyr symud tŷ / gael eu cymryd i ofal yr awdurdod.

Yn ystod y flwyddyn, 163 o grantiau cyfleusterau i'r anabl (151 ar gyfer oedolion a 12 ar gyfer plant) gwerth £1,209,103, a oedd wedi'u cymeradwyo. Pedwar grant addasu sylweddol gwerth £198,926 a gymeradwywyd hefyd. 153 o grantiau (142 ar gyfer oedolion a 10 ar gyfer plant) gwerth £1,142,973 a 5 grant addasu sylweddol gwerth £242,531 ar gyfer plant a ddarparwyd gan y tîm grantiau cyfleusterau i'r anabl.

Mae cost darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn dal i ostwng yn sgîl gwella gwasanaethau'n gyson yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a bydd pob grant unigol ar gyfartaledd yn costio rhyw 7,500. Roedd pob grant a ddarparwyd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 wedi cymryd rhyw 199 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i'w gwblhau o'r adeg y daeth y cwsmer i gysylltiad â'r Cyngor yn gyntaf hyd y diwedd. O ganlyniad, cawsom ein gosod yn 8^{fed} yng Nghymru eleni o'i gymharu ag 16^{eg} y llynedd. Yn ogystal â hynny, byddwn yn darparu grantiau'n gynt ar gyfer oedolion a phlant fel ei gilydd ar hyd yr amser.

Dangosodd ymgynghoriad â chleientiaid yn ddiweddar gymaint y mae cwsmeriaid yn gwerthfawrogi gallu ymwneud â'r gwasanaeth wyneb yn wyneb drwy gydol y broses ddarparu grantiau, yn enwedig pan fydd angen help arnynt i gwblhau gwaith papur a deall y prif gamau yn y broses. Mae'n bwysig i ni gofio hyn wrth symud ymlaen, am fod staff yn ystyried cyflwyno dulliau newydd o weithio, sy'n cynnwys defnyddio technoleg cyfarpar symudol, er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Rydym wedi rhagori ar ein targed yn gyffredinol drwy ostwng nifer y diwrnodau y bydd angen eu cymryd er mwyn darparu grant cyfleusterau i'r

anabl i 199, ac yr ydym yn parhau i geisio ymateb yn gyflymach i geisiadau ar ran oedolion a phlant fel ei gilydd. Byddwn yn treulio 30% yn llai o amser eleni na'r llynedd wrth ddarparu pob grant unigol, am i ni wella'r broses. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol ar y cyfan gyda 98% o gwsmeriaid yn dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. 96% o'r rhai a gafodd grantiau cyfleusterau i'r anabl yn ystod 2014/15 a ddywedodd hefyd eu bod yn fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r cymorth a gawsant. Er bod y ffigurau'n dal yn uchel, gostyngodd lefel bodlonrwydd cwsmeriaid ryw ychydig. Felly byddwn yn parhau i gydweithio â chwsmeriaid er mwyn cael sicrhau bod eu profiad o'r broses yn un cadarnhaol sy'n dod â chanlyniad cadarnhaol - sef sicrhau eu bod yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Astudiaeth achos: Gwella'r cynllun addasu cartrefi

Drwy gyfraniad sylweddol therapyddion galwedigaethol y Fro, ac ar ôl ailwampio'r holl broses ddarparu, y mae amserau aros wedi gostwng bob blwyddyn ers 2008/9, a byddwn bum gwaith cyflymach yn darparu grantiau erbyn hyn.

Daeth Mrs. Lewis o Longmeadow Drive, Dinas Powys i gysylltiad â'r Cyngor yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2014 er mwyn gofyn i ni osod ramp a lifft risiau yn ei chartref. Ar ôl i swyddogion cyswllt a therapyddion galwedigaethol ymweld â hi ym mis Ionawr ac i arolwg gael ei gynnal, aethpwyd ati i wneud y gwaith gwella. Bu'r swyddog grantiau'n ymweld â'r eiddo'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod safon y gwaith yn foddhaol, a daethpwyd i ben â'r cyfan a'i gadarnhau â llofnod ym mis Mai, sef 136 o ddiwrnodau'n unig ar ôl i ni dderbyn yr alwad gyntaf.

Dywedodd Mrs. Lewis: "Roeddwn yn straffaglu i fynd â'r gŵr allan drwy'r drws ffrynt oherwydd y grisiau, ond ar ôl cael ramp newydd ar gyfer pobl anabl, llwybr gwastad at y drws a lifft risiau, y mae'n gallu mynd allan yn ei gadair olwyn gyda fi a themlo'n rhan o'r gymuned ehangach.



"Am fod disgwyl i mi gyfrannu at y gost, roedd yn bwysig i mi gael gwerth fy arian, ac roeddwn yn rhyfeddu at safon y ramp, drws a'r lifft risiau a gallu arbennig Gwasanaeth Asiantaeth Grantiau Bro Morgannwg i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth ac yn cael ei gwblhau mor gyflym." "Ar ôl cael y pethau hyn, allwn i byth â gwneud hebbyddyn nhw."

Bydd grantiau cyfleusterau i'r anabl yn ariannu gwaith addasu mewn tai preifat er mwyn i drigolion anabl gael byw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd ag y bo modd. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet dros Dai, y Cyngorydd Bronwen Brooks: "Rwy'n falch iawn y bu cymaint o wella ar y gwasanaeth, ac yn gobeithio os daliwn i weithio'r un mor galed, y cawn ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn gyflymach fyth yn y dyfodol."

Meysydd sydd angen eu gwella		Erbyn
1	Parhau i berfformio i'r un safon ac ymdrechu i leihau'r cyfnod o ddisgwyl am grantiau cyfleusterau i'r anabl.	2015/16

3.7 Gwella Cyrhaeddiad a Phresenoldeb yn ein Hysgolion a'n Canolfannau Dysgu

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol

Bydd gan ddinasyddion Bro Morgannwg y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i wneud y gorau o'u cyfleoedd.

Amcan Gwella 7

Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefel cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.

Arwyddion Llwyddo

- Mae perfformiad disgyblion wedi gwella yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, yn enwedig ar lefelau +1.
- Mae cyrhaeddiad o safbwynt Darllen, Ysgrifennu a Chyfrif, yn unigol ac ar y cyd, wedi gwella ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol.
- Mae cyrhaeddiad o safbwynt arholiadau TGAU Saesneg a Mathemateg a Throthwy Cynwysedig Lefel 2 wedi gwella.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill wedi cau rywfaint.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rhesymau canlynol:

- Gwellodd perfformiad disgyblion ym mhob un o'r Cyfnodau yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14. Mae llawer mwy o bobl ifanc wedi cyrraedd dangosydd lefel 2+ - sef 5 arholiad TGAU graddau A* - C (gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg) a'r ganran eleni'n 62.2% o'i chymharu â 54.4% yn 2014. Buom yn cydweithio ag ysgolion er mwyn sicrhau bod anghenion pob myfyriwr rhwng 14-19 oed yn cael sylw, ac o ganlyniad, ni adawodd unrhyw fyfyrwr addysg orfodol heb gymwysterau cymeradwy.
- Er bod y bwlch rhwng perfformiad plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'u cyfoedion, wedi cau rywfaint yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3, y mae wedi agor yng Nghyfnod Allweddol 4. Felly, byddwn yn parhau i weithio er mwyn gwella canlyniadau ym mhob Cyfnod Allweddol. Bydd gweithio i godi safonau a lefelau cyrhaeddiad a rhoi'r addysg orau bosibl i ddisgyblion thrwy hynnyAs a key priority for the Council, the work to raise standards and levels of attainment will continue in the long term in order to secure the best possible education for pupils and levels of attainment for all key stages.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Gweithredwyd Strategaeth Gwella Ysgolion sy'n dangos sut y bydd y Fro'n helpu i wireddu'r dyhead cenedlaethol a gafodd ei egluro yng nghynllun gweithredu 'Gwella Ysgolion' Llywodraeth Cymru. Cododd safonau ym mhob Cyfnod Allweddol yn ystod 2013 a 2014. Gwellodd perfformiad disgyblion Cyfnod Allweddol 4, a chododd canran y rhai a enillodd raddau A* - C mewn 5 pwnc TGAU (gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg) o 55.4% i 62.2%. Dyma gynnydd o dros 100 o fyfyrwyr ychwanegol.

Rhoddyd cymorth i holl ysgolion y Fro weithredu'r Strategaeth Lythrennedd Ranbarthol sy'n dilyn gofynion y Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol, a Strategaeth Rifedd sy'n dilyn y Rhaglen Rifedd Genedlaethol. Bu'r rhain yn sylfaen ar gyfer codi safonau rhifedd a llythrennedd ym mhob Cyfnod Allweddol.

Rydym yn dechrau cau'r bwch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion erbyn hyn. Gwnaethpwyd cynnydd ym mhob maes ar wahân i CA4, sy'n dal i gael sylw arbennig gan y gwasanaeth. Yn ôl dangosydd y Cyfnod Sylfaen, y gwahaniaeth rhwng perfformiad y plant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a pherfformiad y plant eraill yn 2012 oedd 21 pwynt canran. 18 pwynt canran oedd y ffigur cyfatebol yn ysgolion Cymru'n gyffredinol. Yn 2014, yr oedd y bwch hwnnw wedi cau gryn dipyn ac yn 12.5 o bwyntiau canran yn y Fro o'i gymharu â 16 yn ysgolion Cymru'n gyffredinol. Cofnodwyd tuedd debyg yng Nghyfnod Allweddol 2 ar gyfer y dangosydd pynciau craidd (DPC) lle yr oedd y gwahaniaeth rhwng perfformiad y ddau grŵp wedi gostwng o 16 o bwyntiau canran yn 2012 i 14 yn 2014. Roedd hyn unwaith eto'n cymharu'n ffafriol â'r 18 pwynt canran a gofnodwyd yn ysgolion Cymru'n gyffredinol yn 2014. Roedd y bwch perfformio yng Nghyfnod Allweddol 3 a oedd yn 29 o bwyntiau canran yn 2012 yn ôl y DPC hefyd wedi cau'n sylweddol. Aeth y gwahaniaeth rhwng lefelau disgwylidig cyrhaeddiad plant a allai hawlio prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill gryn dipyn yn llai yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. 17 pwynt canran yw'r ffigur erbyn hyn o'i gymharu ag 20 ar gyfer ysgolion Cymru'n gyffredinol. Llwyddodd y Fro i gau'r bwch perfformio rhwng y grwpiau hyn yng Nghyfnod Allweddol 4 hefyd i 27.5 o bwyntiau canran a oedd yn rhagori ar y 33 a gofnodwyd ar gyfer Cymru'n gyffredinol. Serch hynny, gwelwyd agor y bwch unwaith eto eleni yn y Fro ac yng Nghymru fel ei gilydd pan gofnodwyd 37.6 o bwyntiau canran yn y naill achos a 34 o bwyntiau canran yn y llall.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag ysgolion a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De er mwyn amlhau cyfleoedd dysgu a gwella lefel cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Bwriadwn gyflwyno system asesu yn ystod tymor yr hydref, 2015 a fydd yn rhoi mwy fyth o bwyslais ar adnabod problemau'n gynnar, ymyrryd ac olrhain cynnydd disgyblion er mwyn sicrhau bod lefelau cyrhaeddiad yn codi wrth symud ymlaen. Bydd y Consortiwm hefyd yn cydweithio ag ysgolion unigol er mwyn sicrhau bod eu systemau dewisedig yn caniatáu iddynt olrhain cynnydd eu disgyblion yn effeithiol. Bu hyn o gymorth iddynt ddod o hyd i'r plant a oedd mewn perygl o dangyflawni, a threfnu'n briodol ar gyfer dwysau dysgu a gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Er mwyn dod yn well yn hyn o beth, yr ydym wedi sefydlu Grŵp Uwchradd sy'n gyfrifol am y grant hwnnw, a byddwn eisoes yn cyfarfod yn rheolaidd gan ganolbwyntio ar rannu ymarfer da. Drwy weithredu yn y modd yma a chydweithio ag ysgolion, byddwn yn sicrhau bod patrwm o ddefnyddio Grantiau Amddifadedd yn effeithiol er mwyn cau'r bwch rhwng disgyblion yn cael ei sefydlu ar gyfer pob Pennaeth cynradd ac uwchradd.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Buom yn cydweithio ag ysgolion a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De er mwyn sicrhau bod y targedau ar gyfer gwella ysgolion un ai'r un fath â rhagfynegiadau enghreifftiol Llywodraeth Cymru a rhagamcanion mwyaf priodol Ymddiriedaeth Teulu Fischer, ynteu'n uwch na hynny. Bydd ysgolion bellach yn gosod targedau priodol a'r rheiny'n cael eu cymeradwyo gan ymgynghorwyr her unigol, a bydd y rhan fwyaf o'r targedau hynny yn gydnaws â Model D Ymddiriedolaeth Teulu Fischer. Rydym wrthi'n cryfhau'r gwaith hwn ar hyn o bryd drwy osod targedau uchelgeisiol newydd ar gyfer gwireddu rhagamcanion priodol yr Ymddiriedolaeth.

Rydym wedi gwella systemau mewn ysgolion er mwyn gwella'r canlyniadau ar bob lefel ac ym mhob Cyfnod Allweddol ar gyfer Saesneg a mathemateg ar y cyd – sef llwyddo yn y naill bwnc a'r llall. Mae'r ysgolion yn barod i dderbyn yr her hon erbyn hyn ac yn deall mor bwysig yw i bob disgybl lwyddo'n dda yn y ddau bwnc hwnnw. Gwelwyd cynnydd yn hynny o beth hefyd yng nghanlyniadau 2014 pan gyrhaeddodd 62% o ddisgyblion drothwy L2+ yn eu harholiadau TGAU.

Rydym wedi sicrhau bod ein gwasanaeth comisiwn yn cyflwyno targed newydd effeithiol ar gyfer darllen, ysgrifennu a mathemateg ar y cyd i'n holl ddisgyblion. Hefyd, fel rhan o'r targedau lleol, gofynnwyd i bob ysgol osod ei tharged ei hun ar gyfer darllen, ysgrifennu a mathemateg ar y cyd er mwyn ysgogi gwelliant.

Pan drefnodd Llywodraeth Cymru 60 ysgol y Fro yn ôl categorïau'n ddiweddar, dosbarthodd 17 ohonynt i gategoriâu cymorth (sef 15 i'r categori oren a 2 i'r categori coch) gan gadarnhau bod angen rhagor o her a chymorth ar yr ysgolion hynny i wella. Drwy gydweithio ag ysgolion yn gyffredinol a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, bwriadwn dynnu pob un o'r ysgolion hynny o'r categorïau hyn. Rydym wedi defnyddio ein pwerau statudol i drin ysgolion a oedd yn tangyflawni bryd bynnag yr oedd hynny'n briodol. Mae'r holl ysgolion sy'n tangyflawni wedi derbyn llythyron rhybuddio a chyn rhybuddio. 3 ysgol uwchradd a dderbyniodd rybudd ffurfiol am eu perfformiad a materion eraill yn ystod y flwyddyn. Gosodwyd targedau gwella amlwg a chafwyd help priodol gan wasanaeth rhanbarthol Consortiwm Canolbarth y De i drin diffygion penodol, a bu'r monitro cyson yn prysuro cynnydd mewn 2 o'r ysgolion. Serch hynny, bu'n rhaid i'r Cyngor ymyrryd yn ffurfiol mewn un ysgol am iddi fethu ei thargedau.

Byddwn yn parhau i gydweithio â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De er mwyn gwella arweiniad a rheolaeth mewn ysgolion. Yn ystod ymweliad monitro'n ddiweddar, dywedodd arolygwyr Estyn fod yr Awdurdod yn dod yn ei flaen yn dda o safbwynt hybu perfformiad ysgolion a safon yr arweiniad drwy herio aml a dwys. 'Bu'r awdurdod yn cydweithio'n dda â Phenaeithaid, llywodraethwyr a'i wasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol er mwyn gwella'r ddarpariaeth'.

Rhoesom Strategaeth Callio ar waith yn ei chyfanrwydd ar y cyd ag ysgolion. Cafodd y strategaeth honno ei defnyddio ar draws y rhanbarth i wella presenoldeb mewn ysgolion. Gwelwyd rhagor o wella yn hynny o beth eleni mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd lle cofnodwyd 30,000 o ddiwrnodau ychwanegol. Mae hynny'n cyfateb i 2 ddiwrnod ychwanegol ar gyfartaledd fesul plentyn cynradd ac uwchradd ac yn ein gosod yn 4^{ydd} ymhlith awdurdodau Cymru am ein perfformiad.

Faint wnaethom ni?

Mae pob ysgol wedi'i chategoreiddio yn ôl y system gategoreiddio genedlaethol a chael adnoddau priodol.

Bu'r fframwaith herio a chefnogi rhanbarthol yn sail i'r prosesu gwerthuso ym mhob ysgol. Mae adroddiad gwella ysgolion wedi'i ysgrifennu a chael ei dderbyn gan bob ysgol.

Defnyddiwyd nifer o strategaethau er mwyn prysuro cynnydd mewn ysgolion a glustnodwyd ar gyfer cymorth a her ychwanegol (cymorth categori coch neu oren). Y strategaethau hynny oedd:

- Trefnu ymweliadau bob tymor (oren) neu bob hanner tymor (coch) gan ymgynghorwyr her;
- Llunio cynlluniau gwella manwl;
- Cynnig cymorth a addaswyd ar gyfer yr unigolyn gan gynnwys cymorth rhifedd/llythrennedd trylwyr;
- Monitro cynnydd yn ôl amcanion a llunio adroddiadau;
- Trefnu ymweliadau gan aelodau o'r pwyllgorau craffu.

Cyflwynwyd strategaeth Callio ym mhob ysgol ac adolygu'r Gwasanaeth Swyddogion Lles Addysg er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi sylw arbennig i absenoldeb parhaus. Cyflwynwyd hysbysiadau cosb sefydlog fel strategaeth ychwanegol ar gyfer gwella presenoldeb.

Datblygwyd partneriaeth ysgol i ysgol er mwyn codi safonau drwy rannu ymarfer da. Fel rhan o hyn, trefnwyd:

- Canolbwyntiau addysgu Olevi;
- Canolbwyntiau addysgu;
- Canolfannau arbenigol;
- Ysgolion Pathfinder/ysgolion cymorth;
- Grwpiau gwella ysgolion.

Casglwyd a dadansoddi'r data am dargedau pob ysgol er mwyn sicrhau bod y safonau uwch yn cael eu cynnal. Heriwyd ysgolion yn ôl yr angen.

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13 (Blwyddyn Academaidd 2011/12)	Perfformiad 2013/14 (Blwyddyn Academaidd 2012/13)	Targed 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Perfformiad 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Cyfartaledd Cymru 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 2 (KS2): Pawb Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro.	86.00	87.97	90.00	90.48	86.13	😊	↑
DPC CA2: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro.	72.28	69.80	77.00	77.55	71.90	😊	↑
DPC CA2: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro.	88.41	90.46	92.00	92.43	89.60	😊	↑
CA2 DYM ar y cyd: Pawb Canran holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2, a lwyddodd mewn Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg (DYM) ar y cyd.	81.18	83.30	85.00	85.41	80.60	😊	↑
Saesneg CA2: Pawb Canran holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig yn y Saesneg.	88.54	90.54	92.00	92.17	88.42	😊	↑
Saesneg CA2: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran holl ddisgyblion CA2 sy'n cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd safon ddisgwyliedig yn Saesneg.	76.24	77.54	Not set	81.63	75.70		↑

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13 (Blwyddyn Academaidd 2011/12)	Perfformiad 2013/14 (Blwyddyn Academaidd 2012/13)	Targed 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Perfformiad 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Cyfartaledd Cymru 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Saesneg CA2: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran holl ddisgyblion CA2 nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig yn y Saesneg.	90.69	92.54	Not set	93.75	91.60		↑
Mathemateg CA2: Pawb Canran holl ddisgyblion CA2 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	90.92	93.39	92.00	92.28	88.93	☺	↓
Mathemateg CA2: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran holl ddisgyblion CA2 sy'n cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	80.69	75.40	Not set	83.67	77.30		↑
Mathemateg CA2: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran holl ddisgyblion CA2 nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	92.72	92.80	Not set	94.38	91.80		↑
DPC CA3: Pawb Canran yr holl ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro.	72.39	82.54	85.00	83.96	81.02	☹	↑
DPC CA3: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro.	43.20	53.80	Not set	65.87	61.30		↑

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13 (Blwyddyn Academaidd 2011/12)	Perfformiad 2013/14 (Blwyddyn Academaidd 2012/13)	Targed 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Perfformiad 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Cyfartaledd Cymru 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
DPC CA3: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro.	77.08	86.58	Not set	87.46	85.60		↑
CA3 DYM ar y cyd: Pawb Canran holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, a lwyddodd mewn Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg (DYM) ar y cyd.	66.50	76.30	78.00	74.87	75.10	☹	↓
Saesneg CA3: Pawb Canran holl ddisgyblion CA3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig yn y Saesneg.	78.72	87.91	90.00	88.70	85.90	☹	↑
Saesneg CA3: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion CA3 sy'n cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig yn y Saesneg.	53.88	69.15	74.00	74.27	69.50	☺	↑
Saesneg CA3: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion CA3 nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig yn y Saesneg.	82.76	90.59	92.00	91.47	89.70	☹	↑
Mathemateg CA3: Pawb Canran holl ddisgyblion CA3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	83.13	88.03	90.00	89.03	86.50	☹	↑
Mathemateg CA3: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion CA3 sy'n cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	64.08	67.16	72.00	75.24	70.70	☺	↑

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13 (Blwyddyn Academaidd 2011/12)	Perfformiad 2013/14 (Blwyddyn Academaidd 2012/13)	Targed 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Perfformiad 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Cyfartaledd Cymru 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Mathemateg CA3: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion CA3 nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	86.28	91.27	93.00	91.85	90.20	☹	↑
CA4 Canran disgyblion CA4 a gyrhaeddodd lefel 2 yn y Saesneg.	66.25	65.58	71.00	70.94	66.20	☹	↑
CA4 Canran disgyblion CA4 a gyrhaeddodd lefel 2 mewn Mathemateg.	61.19	62.34	71.00	67.99	61.70	☹	↑
CA4 Canran disgyblion CA4 a gyrhaeddodd lefel 2 yn y Saesneg.	66.25	65.58	71.00	70.94	66.20	☹	↑
CA4 Canran disgyblion CA4 a gyrhaeddodd lefel 2 mewn Mathemateg.	61.19	62.34	71.00	67.99	61.70	☹	↑
CA4: Pawb Canran disgyblion 15 ac 16 oed a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd.	53.88	50.21	55.00	60.13	52.60	☺	↑
CA4: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran disgyblion 15 ac 16 oed sy'n cael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd.	26.5	27.6	29	29.3	26.56	☺	↑
CA4: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran disgyblion 15 ac 16 oed nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd.	59.3	54.6	60	66.1	58.99	☺	↑
Canran disgyblion ysgolion uwchradd sy'n mynychu'r ysgol.	92.81	93.38	93.00	94.25	93.60	☺	↑

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13 (Blwyddyn Academaidd 2011/12)	Perfformiad 2013/14 (Blwyddyn Academaidd 2012/13)	Targed 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Perfformiad 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Cyfartaledd Cymru 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
CA4: Pawb Canran y disgyblion 15 ac 16 oed a enillodd 5 neu ragor o gymwysterau TGAU graddau A*-C neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol.	79.63	82.61	84.00	87.04	82.30	☺	↑
CA4: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion 15 ac 16 oed sy'n cael prydau ysgol am ddim a enillodd 5 neu ragor o gymwysterau TGAU graddau A*-C neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol.	66.70	71.70	72.00	72.28	65.34	☺	↑
CA4: Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion 15 ac 16 oed nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a enillodd 5 neu ragor o gymwysterau TGAU graddau A*-C neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol.	83.60%	85.60	91.00	91.22	87.40	☺	↑
CA4 Canran y disgyblion 15 ac 16 oed a enillodd 1 neu ragor o gymwysterau TGAU gradd G neu'n uwch neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol.	96.88	97.90	97.00	98.43		☺	↑
CA4 Canran y disgyblion a oedd eisoes yn 15 oed ar ddiwrnod olaf (31) y mis Awst blaenorol ac yn mynychu ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyrhaeddodd drothwy Lefel 2 a hefyd ennill cymwysterau TGAU graddau A*-C yn y Gymraeg neu'r Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg.	55.31	55.42	60.00	62.20	55.40	☺	↑
Canran yr holl ddisgyblion 15 oed (gan gynnwys rhai yng ngofal yr awdurdod) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol a adawodd addysg orfodol, cwrs hyfforddi neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy.	0.13	0.24	0.10	0.00		☺	↑

Pa mor dda oeddem ni?							
	Perfformiad 2012/13 (Blwyddyn Academaidd 2011/12)	Perfformiad 2013/14 (Blwyddyn Academaidd 2012/13)	Targed 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Perfformiad 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Cyfartaledd Cymru 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14)	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sydd mewn addysg, gwaith neu'n dilyn hyfforddiant.	93.2	95.65	81	92.8		☺	↓
CA2 Cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 4+ y DPC.	46.00%	61.30%		68.10%			↑
CA3 Cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 5+ y DPC.	26.00%	62.50%		75.00%			↑
Canran yr ysgolion a archwiliwyd gan Estyn yn ystod y flwyddyn ariannol y barnwyd bod safon eu darpariaeth un ai'n dda neu'n well nag o'r blaen.		72.73	77.00	87.50		☺	↑

Hanes ein perfformiad

Mae cyfran y bobl ifanc sy'n cyflawni dangosydd lefel 2+ (sef ennill 5 cymhwyster TGAU graddau A*- C sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg) wedi codi'n sylweddol o 55.4% y llynedd i 62.2% eleni. Er nad oedd hyn yn ddigon i ni gyrraedd ein targed o 65%, y mae'n gosod Cyngor y Fro'n ail yng Nghymru am ei berfformiad ac wedi sicrhau bod mwy na 100 o fyfyrwyr ychwanegol yn cael gwell cyfle i ddilyn addysg a hyfforddiant pellach.

Yn y Cyfnod Sylfaen, y mae cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarterau meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt Cyfathrebu yn y Gymraeg (CyyG) a Dangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen (DDyCS) wedi cynyddu. Gostwng ryw ychydig i 50%, serch hynny, a wnaeth y gyfran a restrwyd yn y chwarterau meincnodi hynny ar gyfer Datblygiad Mathemategol (DM). Gostwng hefyd i ychydig yn llai na 50% a wnaeth y gyfran a restrwyd yn y chwarterau meincnodi uwch neu uchaf gyfer Datblygiad Cymdeithasol a Phersonol (DCPh) a Chyfathrebu yn y Saesneg (CyyS) nes eu bod bellach yn 47% yn y naill achos ac yn 49% yn y llall.

Mae pob dangosydd perfformiad ac eithrio'r Gymraeg a DCPh yn dangos cynnydd o safbwynt perfformio i safon Deilliant 6 uwch. Er i gyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarterau meincnodi uwch neu uchaf ar gyfer CyyG a DCPh gynyddu, y mae'n dal yn is na 50%. Mae canran yr

Hanes ein perfformiad

ysgolion a restrwyd felly ar gyfer CyyS a DM hefyd wedi gostwng ond yn 50% o hyd ar gyfer DM.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, y mae cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 4+ wedi cynyddu o 56.8% i 62% yn achos Saesneg a Gwyddoniaeth, o 60% i 80% yn achos y Gymraeg, o 50% i 68% yn achos Mathemateg ac o 61.3% i 68.1% yn achos y Dangosydd Pynciau Craidd. Mae cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 5+ wedi cynyddu o 63.6% i 70.5% yn achos y Saesneg ac o 61.4% i 70.5% yn achos Gwyddoniaeth. Mae'r gyfran wedi lleihau ryw fymryn bach yn achos mathemateg o 68% i 66%.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, y mae cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 5+, wedi cynyddu o 62.5% yn 2013 i 75% eleni yn achos Mathemateg a'r Dangosydd Pynciau Craidd ac o 50% yn 2013 i 62.5% yn achos Gwyddoniaeth. Serch hynny, gostyngodd y gyfran o 75% i 62.5% yn achos y Saesneg, a disgynnodd 1 ysgol o chwarter 2 i chwarter 4.

Mae cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 6+ wedi cynyddu o 50% i 75% yn achos Mathemateg ac aros yn ddigynnewid yn achos y Saesneg (37.5%), y Gymraeg (100%) a Gwyddoniaeth (75%). Mae cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 7+ wedi cynyddu i 62.5% yn achos Mathemateg ac i 62.5% yn achos Gwyddoniaeth ond aros yn ddigynnewid yn achos y Saesneg (37.5%). Mae'r gyfran yn achos y Gymraeg yn dal islaw'r ganolrif yn y chwarteri meincnodi.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, y mae nifer yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt y Dangosydd Pynciau Craidd wedi cynyddu o 2 ysgol (25%) yn ystod 2012/13 i 5 ysgol (62%) yn 2013/14. Mae'r nifer a restrwyd yn y chwarteri hynny am eu perfformiad o safbwynt trothwy Lefel 1 wedi gostwng o 5 i 2 ysgol eleni. Mae nifer yr ysgolion a gyrhaeddodd y meincnod uwch neu uchaf am eu perfformiad o safbwynt Lefel 2 (5 TGAU A*-C) wedi cynyddu o 4 yn 2012/13 i 5 eleni. Felly hefyd y nifer a gyrhaeddodd y meincnodau hynny am eu perfformiad o safbwynt Lefel 2+ (5 TGAU A*-C gan gynnwys y Gymraeg/Saesneg a Mathemateg) a gynyddodd o 3 ysgol yn 2012/13 i 5 yn 2013/14.

O ran Dangosyddion Perfformiad (DP) y Cyfnod Sylfaen, y mae Deilliant 5 a Deilliant 6 yn dangos cynnydd ers y flwyddyn flaenorol ac y mae cyfran uwch o ddisgyblion wedi llwyddo yn y ddau ohonynt.

Yn 2013/14, 90.5% o ddisgyblion y Fro a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2. Roedd y ffigur hwn yn uwch nag yn ystod 2012/13 ac yn gosod y Cyngor yn y chwarter uchaf ac y mae hefyd yn uwch nag yng Nghymru'n gyffredinol (86.1%).

Mae ein perfformiad o safbwynt Lefel 4+ wedi gwella yn y Gymraeg a'r Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, y Dangosydd Pynciau Craidd a Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg ar y cyd (DYM) ers y llynedd, a chyfran uwch o ddisgyblion wedi cyrraedd Lefel 4.

Hanes ein perfformiad

Mae ein perfformiad o safbwynt Lefel 5+ wedi gwella yn y Gymraeg a'r Saesneg a Gwyddoniaeth ers y flwyddyn flaenorol.

Yn 2013/14, 84% o ddisgyblion y Fro a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3. Roedd y ffigur hwn yn 1.5% yn uwch nag yn ystod 2012/13 ac yn gosod y Fro yn y chwarter uchaf ac yn uwch na Chymru'n gyffredinol (81%).

Mae ein perfformiad o safbwynt Lefel 5+ wedi gwella ym mhob pwnc craidd (ac eithrio'r Gymraeg a DYM) ers y llynedd a chyfran uwch o ddisgyblion wedi cyrraedd Lefel 5.

Mae ein perfformiad o safbwynt Lefel 6+ wedi gwella'n ôl pob DP craidd ers y flwyddyn flaenorol a chyfran uwch o ddisgyblion wedi cyrraedd Lefel 6.

Roedd canlyniadau'r Fro o safbwynt lefel 2+ - sef mesur allweddol yng Nghyfnod Allweddol 4 - yn dangos cynnydd o 7%, sy'n cyfateb i 100 o ddisgyblion ychwanegol. O ganlyniad i hyn, ac yn ôl y data diweddaraf, y Cyngor felly, yw'r ail awdurdod gorau yng Nghymru o ran ei berfformiad.

Er bod lefelau cyflawni plant dan ofal yr awdurdod yn dal i wella, y mae angen gweithredu ymhellach er mwyn eu codi i lefel eu cyfoedion (gallai fod yn anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn am fod y carfannau dan sylw mor fach). Yn 2013/14, 58.3% o blant dan ofal yr awdurdod a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r ffigur hwn yn ein gosod yn 9^{fed} yng Nghymru ac y mae ychydig yn uwch na chanran Cymru'n gyffredinol (51.6%). Serch hynny, y mae'n llawer llai na'r ffigur ar gyfer plant nad ydynt dan ofal yr awdurdod.

40% o blant o dan ofal yr awdurdod a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r ffigur hwn yn ein gosod yn 13^{eg} yng Nghymru ac yn weddol debyg i ganran Cymru'n gyffredinol (37.2%). Mae hefyd bron yn union hanner y ffigur a gofnodwyd ar gyfer plant nad ydynt dan ofal yr awdurdod (82.5%). 348.⁷ oedd nifer y pwyntiau a sgoriwyd am gymwysterau ar gyfartaledd gan blant dan ofal 16 oed. Mae hyn yn gosod y Fro yn y chwarter uchaf ac y mae'n uwch na nifer Cymru'n gyffredinol (262 o bwyntiau). Serch hynny, y mae'n is na'r 375 o bwyntiau a gofnodwyd yn ystod 2012/13 pan ragorodd y Fro ar bob awdurdod arall yng Nghymru. Mae hefyd yn cymharu'n anffafriol â'r 557.2 o bwyntiau a sgoriodd y plant nad ydynt dan ofal yr awdurdod. 87% o blant dan ofal a oedd yn mynychu ysgolion uwchradd yn rheolaidd yn ystod 2013/14. Mae'r ganran hon wedi gostwng o 89% yn ystod 2012/13 ac yn golygu bod Cyngor y Fro'n un o'r awdurdodau gwaethaf yng Nghymru am ei berfformiad yn y maes hwn. 91.6% a gofnodwyd ar gyfer Cymru'n gyffredinol. Yn ystod 2013/14, 1% o blant dan ofal a waharddwyd yn barhaol

⁷ Mae nifer y pwyntiau allanol y bydd plant dan ofal 16 oed yn eu sgorio ar gyfartaledd wedi gostwng i 224 erbyn hyn ac yn ein gosod yn 19^{eg} yng Nghymru am ein perfformiad eleni o'i gymharu â 3^{ydd} y llynedd. Seiliwyd hyn ar ddata a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn asesu pob agwedd ar ein perfformiad o safbwynt plant dan ofal, gan ddefnyddio amrediad eang o ddata meincnodi addysg genedlaethol, cyn gynted ag y bydd yr holl ddata ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 wedi'i gadarnhau. Mae'n bwysig nodi bod y dasg o gymharu data ar gyfer y grwp hwn o flwyddyn i flwyddyn yn anodd iawn am fod y carfannau dan sylw mor fach. Dyled nodi hefyd fod ein perfformiad yn ystod 2013/14 yn adlewyrchu llwyddiant eithriadol un unigolyn ifanc arbennig. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn codi lefelau cyflawni a chau'r bwch rhwng perfformiad plant dan ofal a'u cyfoedion ym mhob maes.

Hanes ein perfformiad

rhag mynd i'r ysgol. Dyma'r tro cyntaf ers pum mlynedd i blentyn dan ofal gael ei wahardd yn barhaol rhag mynd i'r ysgol. Roedd yr unigolyn ifanc hwn yn mynychu lleoliad y tu allan i'r sir. Byddwn bellach yn monitro lleoliadau fel y rhain yn amlach, er mwyn dod i wybod yn gynt am unrhyw broblemau a allai fygwth lleoliadau yn y dyfodol. Mae nifer y diwrnodau a gollodd plant dan ofal drwy gael eu gwahardd am gyfnod sefydlog wedi cynyddu o 6.6 yn 2012/13 i 14 eleni. Dyma'r nifer mwyaf o ddiwrnodau a gofnododd unrhyw awdurdod yng Nghymru ac y mae'n ddwywaith y nifer a gofnododd Cymru'n gyffredinol (6.8 o ddiwrnodau). Mae ymdrechion ar y cyd ag ysgolion i leihau nifer y gwaharddiadau yn y dyfodol yn parhau, ac yn flaenoriaeth gwasanaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15. 40% o Gynlluniau Addysg Personol a gwblhawyd o fewn y cyfnod penodol yn ystod 2013-14. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd systemau a phrosesau newydd gan gynnwys staff addysg pwrpasol. Mae'r berthynas rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn gwella a'r data diweddar ar gyfer cwblhau Cynlluniau Addysg Personol (97.14%) yn tystio i hynny.

Gan gydweithio'n ymarferol ag ysgolion, a thrwy gymorth Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, yr ydym yn dechrau cau'r blwch rhwng perfformiad y plant sy'n hawlio 'prydau ysgol am ddim' a'u cyfoedion ym mhob maes erbyn hyn, ac eithrio Cyfnod Allweddol 4 sy'n faes sydd angen ei wella.

Astudiaeth Achos: Strategaeth Callio

Mae Strategaeth Callio'n sicrhau bod ymdrech gyson yn cael ei gwneud ar draws yr awdurdod i hybu presenoldeb. 7 cam allweddol y strategaeth yw:

1. Anfon llythyr cychwynnol a siart Callio at rieni er mwyn rhoi gwybod am y strategaeth (gweler Llythyr Cychwynnol at Rieni).
2. Anfon cofnod presenoldeb diweddaraf plentyn at ei rieni bob hanner tymor gan ei nodi ar ffrâm graddfa liwiau Callio (gweler Llythron at Rieni).
3. Arddangos posteri Callio mewn mannau amlwg yn yr ysgol fel y medr rhieni a disgyblion eu gweld yn hawdd.
4. Defnyddio system graddfa liwiau Callio i gyhoeddi darlun wythnosol o sefyllfa presenoldeb y disgyblion.
5. Defnyddio system graddfa liwiau Callio i ganmol presenoldeb da.
6. Defnyddio system graddfa liwiau Callio fel sail ar gyfer trin problemau a allai godi yn y dyfodol.
7. Arddangos copi o ffrâm graddfa liwiau Callio ar wefan eich ysgol.

Effeithiodd hyn ar bresenoldeb ar draws yr awdurdod lleol gan sicrhau bod 30,000 o ddiwrnodau ychwanegol yn cael eu treulio yn yr ysgol. 2 ddiwrnod ychwanegol fesul disgybl cynradd ac uwchradd yw hynny ar gyfartaledd, ac y mae'n ein gosod yn 4^{ydd} ymhlith awdurdodau lleol Cymru am ein perfformiad.

Astudiaeth Achos: Grŵp Gwella Ysgolion 24

Pwy a fu wrthi?

Penaethiaid, arweinwyr rhifedd, athrawon a disgyblion:

Ysgol Gynradd Tregatwg, Ysgol Gynradd Brynnau, Ysgol Babyddol Sant Joseff, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis, Ysgol Gynradd Blaengarw, Ysgol Gynradd Coedylan, Ysgol Gynradd Croesty, Ysgol Gynradd Cwmfelin, Ysgol Gynradd Llantrisant, Ysgol

Astudiaeth Achos: Grŵp Gwella Ysgolion 24

Gynradd Nant-y-moel ac Ysgol Gynradd Saint Andras.

Canolbwynt:

- Asesu a dysgu sgiliau rhesymu rhifyddol yn well a darparu'n well ar eu cyfer;
- Datblygu sgiliau rhesymu rhifyddol disgyblion drwy 'arwain dysgu'.

Roedd holl ysgolion Grŵp Gwella Ysgolion 24 yn rhan o'r cynllun gwella rhesymu rhifyddol. Grŵp o ysgolion amrywiol, gan gynnwys ysgolion Cymraeg ac ysgolion ffydd, oedd y Grŵp Gwella, ac yr oedd cyfran o'r disgyblion yn hawlio pryddau ysgol am ddim o dan nifer o wahanol amgylchiadau. Roedd pob un o'r ysgolion yn ymwybodol o'r angen am ganolbwyntio'n arbennig ar wella rhesymu rhifyddol. Cytunwyd y byddai'n rhaid gweithredu ar y cyd er mwyn dod i asesu'r maes yn well, darparu'n well ar ei gyfer a denu mwy o ddisgyblion i ymwneud ag ef. Byddai athrawon a disgyblion yn cael hyfforddiant arbennig a byddai gan athrawon gyfle i safoni'r gwaith rhesymu rhifyddol er mwyn creu portffolio a fyddai'n ddeunydd cyfeirio addas yn y dyfodol. Byddai sgoriau safonedig 2014 yn cael eu defnyddio fel data sylfaenol a strategaethau'n cael eu mesur yn ôl canlyniadau profion yn ystod y flwyddyn ddilynol.

Camau gweithredu:

Roedd gan bob ysgol aelod o staff yn ei chynrychioli yn ystod y cyfarfod cychwynnol a chytunwyd ar gynllun. Cytunwyd mai meithrin sgiliau athrawon, magu diddordeb disgyblion a llunio set o wersi ac adnoddau penodol a fyddai'n addas i'w haildefnyddio oedd y bwriad. Lluniwyd cynllun a oedd yn egluro'r prosesau, y camau gweithredu a'r amserlen. Cynllun ar ffurf gweithdai fyddai hwn, lle byddai 3 disgybl Blwyddyn 4, 5 neu 6 a oedd yn ddigon galluog i gyrraedd lefel +1 mewn mathemateg yn cael datblygu sgiliau a gweithgareddau rhesymu rhifyddol er mwyn gallu eu rhannu yn eu hysgolion eu hunain. Roedd y sesiwn gyntaf yn canolbwyntio ar ddatrys problem. Roedd y disgyblion wedyn yn creu problem i'w datrys yn eu hysgolion eu hunain. Yn ystod yr ail sesiwn, cyflwynodd y disgyblion ganlyniadau'r gweithgaredd y buont yn ei ddilyn yn eu hysgolion eu hunain i blant ysgolion y Grŵp Gwella.

Effaith ar ysgol unigol

Roedd hyn yn gwella delwedd rhesymu ym meddyliau'r disgyblion fel y daethant i weld bod y pwnc yn dipyn o hwyl yn hytrach nag yn fwrn. Llwyddodd y disgyblion i wella eu sgiliau rhesymu a defnyddio pob math o wahanol strategaethau i ddatrys problemau ac yr oedd eu sgiliau siarad a gwrando i'w gweld yn aml yn rhagorol wrth iddynt ystyried ffyrdd o ddatrys problem. Roedd bron pob un o'r disgyblion yn fodlon rhoi cynnig arni a daethant yn fwy bodlon mentro a gwneud camgymeriadau ar hyd yr amser. Roedd y disgyblion mwy dawnsus a fu'n cymryd rhan yn y gweithdai'n cael cyfle i feithrin sgiliau uwch wybyddol wrth egluro sut y daethant o hyd i allwedd y dirgelwch h.y. eu symud ymlaen drwy broses o brofi a methu. Daethant yn llawer mwy hyderus a bodlon wrth iddynt arwain gwersi yn eu hysgolion eu hunain. Cawsant feithrin eu sgiliau cymdeithasol wrth gydweithio â disgyblion o ysgolion eraill. Roedd brwdfrydedd y disgyblion dros ddatrys y dirgelwch wedi treiddio drwy'r ysgol gyfan, a bu sawl grŵp blwyddyn yn ymwneud â'r gweithgaredd drwy ddefnyddio amlygiad rhyngweithiol a grëwyd gan y disgyblion a fu'n mynychu'r gweithdai.

Astudiaeth Achos: Grŵp Gwella Ysgolion 24

Effaith ar y Grŵp Gwella Ysgolion

Roedd gallu rhannu'r syniadau a'r adnoddau sy'n berthnasol i resymu rhifyddol â chydweithwyr o les i'r athrawon a fu'n ymwneud â'r strategaeth. Roedd pob ysgol wedi elwa ar arbenigedd uwch arweinydd o un o'r ysgolion a feddai ar ddigon o weledigaeth i gyflwyno rhesymu yng nghydestun gweithgaredd diddan. Drwy gymryd rhan yng ngwaith y Grŵp Gwella Ysgolion, cafodd ysgolion ar draws yr ardal flasau ffordd arloesol o ddysgu rhesymu rhifyddol, a bu hynny o gymorth iddynt ddysgu'r rhan hon o'r cwricwlwm. Cafodd yr athrawon a fu'n mynychu'r gweithdai weld strategaethau cyson ar gyfer meithrin sgiliau rhesymu rhifyddol disgyblion a'u cyflwyno wedyn yn eu hysgolion eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn fwy hyderus yn gwneud gweithgareddau rhesymu rhifyddol a phrofion rhesymu cenedlaethol, ac yn llwyddo i ddefnyddio pob math o wahanol strategaethau'n effeithiol. Roedd pob ysgol a fu'n ymwneud â'r gweithgaredd wedi sôn yn benodol am y llu o ddisgyblion a oedd wedi cymryd rhan, ac am y posibilrwydd o addasu'r dull hwnnw o weithredu ar gyfer gwahanol weithgareddau trawsgwricwlaidd. Gallai adnoddau gael eu darparu a'u defnyddio a'u haddasu ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol - datrys dirgelwch Powerpoint er enghraifft. Daeth athrawon yn fwy ymwybodol o iaith fathemategol a sgiliau meddwl, a buont yn ymdrin yn fwy â'r agweddau ar rifedd sy'n ymwneud â datrys problemau ac yn magu mwy o ddiddordeb yn yr elfennau hynny.

Meysydd sydd angen eu gwella

Erbyn

1	Sicrhau bod presenoldeb yn parhau i wella wrth i'r nawdd ar gyfer Callio fynd yn llai. Gweithredu'r broses ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog. Sicrhau bod y gwasanaeth Swyddogion Lles Addysg yn defnyddio pob arf sydd ar gael iddo wrth drin absenoldeb cyson.	2015/16
2	Olrhain perfformiad grwpiau o ddysgwyr ac addasu'r ddarpariaeth er mwyn gwella cyrhaeddiad os bydd angen. Y grwpiau y dylid eu holrhain yw: Dysgwyr +1; Plant dan ofal; Disgyblion sy'n cael pryddau ysgol am ddim; Disgyblion yn y system cyfiawnder ieuencid a Disgyblion sy'n adnabyddus i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.	2015/16
3	Parhau i gydweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn sicrhau y defnyddir y grant hwnnw'n effeithiol. Gwneud hynny drwy nodi, hybu a monitro cynnydd dysgwyr dan anfantais yn fanwl ac yn drefnus ar draws yr ysgol er mwyn gwella cyrhaeddiad.	2015/16

3.8 Darparu Gwasanaeth Landlordiaid o Safon

Canlyniad Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol

Caiff trigolion y Fro dai addas a fforddiadwy o safon a chyngor a chymorth wrth drafod tai.

Amcan Gwella 8

Gwella ein gwasanaeth trwsio ymatebol ar gyfer tenantiaid.

Arwyddion Llwyddo

- Mae tenantiaid yn fwy bodlon am fod:
 - safon y gwaith trwsio'n well ar ôl ei wirio'n amlach.
 - rhagor o waith trwsio wedi'i drefnu a'i gyflawni.
 - y gweithlu'n fwy cynhyrchiol.
 - ymdrech i wneud y gwaith yn iawn y tro cyntaf.
- y gyllideb ar gyfer gwaith trwsio'n cael ei rheoli'n well.

Statws Gwerthuso: CYFLAWNWYD

Gwyddom hyn am y rhesymau canlynol:

- Drwy fabwysiadu system weithio symudol newydd, fwy effeithiol, cawsom sicrhau arbedion effeithlonrwydd, dod yn fwy cynhyrchiol, a lleihau costau'r gwasanaeth yn gyffredinol. Mae bellach yn haws o lawer i denantiaid roi gwybod am y gwaith sydd angen ei wneud a bydd ein hymateb yn gyflymach a'r gwaith trwsio'n fwy graenus.
- Yn ystod y flwyddyn, 93% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn fodlon ar y broses ar gyfer rhoi gwybod am waith sydd angen ei wneud, a 92% a ddywedodd eu bod yn fodlon ar safon y gwaith. Byddwn yn parhau i weithio yn y tymor hir er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer tenantiaid y Cyngor.

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

Bu cryn wella ar ein darpariaeth mewn ymateb i adroddiad ar y gwasanaeth trwsio ymatebol a gynhaliwyd gan archwilwyr mewnol. Rydym wedi mabwysiadu fframwaith perfformio ar gyfer gwaith trwsio er mwyn cael gwella ein perfformiad o safbwynt darparu'r gwasanaeth, bodloni cwsmeriaid a rheoli costau. Wrth fonitro gwaith trwsio ymatebol/cynnal a chadw tai a'r costau yn ystod y flwyddyn, gwelwyd bod nifer sylweddol o gwsmeriaid yn gyson fodlon ar y broses ar gyfer rhoi gwybod am waith ac ar safon y gwaith sy'n cael ei wneud. Rhwng Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, 93% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn fodlon ar y broses ar gyfer rhoi gwybod am waith a 92% a ddywedodd eu bod yn fodlon ar y gwaith ei hun. Yn ogystal â monitro perfformiad yn rheolaidd, bydd staff trwsio hefyd yn cyfarfod yn gyson â chleientiaid/thenantiaid er mwyn helpu'r Cyngor i nodi unrhyw feysydd eraill sydd angen eu gwella.

Mae dogfen safonau gwasanaeth wedi cael ei llunio a'i dosbarthu'n helaeth i denantiaid a chwsmeriaid mewnol y gwasanaeth. Dull effeithiol oedd hwn o egluro i gwsmeriaid beth yn union sydd i'w ddisgwyl gennym. Mae Rheolwr Tîm wedi'i benodi'n unswydd ar gyfer gwella perfformiad gweithredol, a recriwtiwyd dau gynllunydd i redeg y system weithio symudol – sef y llwyfan TG sy'n hybu'r broses ymarferol o dderbyn a chyflawni gwaith ar gyfer cwsmeriaid.

Mae pob aelod o'r staff rheng flaen wedi'i hyfforddi ar gyfer cadw'n ddiogel ar y safle, a chyflwynwyd nifer o brotocoliau a nodiadau gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon a gymeradwyir gan ein cwsmeriaid.

Byddwn bellach yn sicrhau bodlonrwydd tenantiaid fel mater o arfer ar ôl pob gwaith trwsio, ac yn mynd ati'n gyson i chwilio am yr hyn sydd angen ei wella, a'i gywiro. Bydd darganfyddiadau arolygon bodlonrwydd yn cael sylw mewn cyfarfodydd timau, a byddwn yn eu defnyddio i addysgu adran er mwyn dod â gwell dulliau o wasanaethu a gwell profiad i'r cwsmer.

Mae cofnodion a thafleuni amser electronig wedi cael eu cysoni, ac y mae'r gwasanaeth wrthi bellach yn mesur ac yn monitro hynny er mwyn sicrhau y cofnodir amser yn gywir. Bu hyn o gymorth i ni weithio'n fwy effeithiol.

Rydym wrthi bellach yn ceisio sefydlu trefn gadarn ar gyfer archwilio ein holl waith trwsio. 35% o'r holl waith sy'n cael ei archwilio ar ôl ei gyflawni ar hyn o bryd, a 100% o waith contractwyr. Pe gallem wella ein perfformiad yn hyn o beth, byddai llai o waith eilradd a diangen yn cael ei wneud, byddai'r Cyngor yn cael gwell gwerth am ei arian, a byddai safon y gwasanaeth (safon y gwaith trwsio) a phrofiad y cwsmer dipyn yn well.

Byddwn yn monitro baich gwaith y staff er mwyn sicrhau bod gwaith trwsio ymatebol yn cael ei gwblhau'n brydlon i safon uchel yn ôl disgwyliadau'r cwsmer. Yn ystod 2014-15, byddai pob dyn ar gyfartaledd yn cwblhau 4.5 o ddarnau o waith y diwrnod. Yn ôl data meincnodi APSE ar gyfer 2013/14, yr oedd 99.66% o'n holl waith nad oedd yn waith brys wedi'i gyflawni heb i ni gael ein galw'n ôl wedyn na'n gorfodi i ateb unrhyw gwynion. Hynny yw, yr oedd 'yn iawn y tro cyntaf', a chawsom ein rhestru'n 5^{ed} yn ein grŵp teulu am ein perfformiad, ar sail hynny. Bydd y gwasanaeth yn mynd i'r rhan fwyaf o'i gyfarfodydd â chwsmeriaid. Roedd 10.13% o'n cyfarfodydd yn ddiffwyth yn ystod

Beth ydym wedi'i wneud a'i gyflawni?

2013/14 yn ôl data APSE, ac yr oedd hynny'n ein gosod yn 7^{fed} yn y grŵp teulu. Aethom i 95% o'r holl gyfarfodydd a drefnodd yr awdurdod ar ein cyfer, a chawsom ein rhestru'n 6^{ed} yn y grŵp teulu ar sail hynny. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar leihau nifer y' trefniadau a fethwyd' ac ar godi safon y gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid.

Byddwn yn monitro'r cyfrif masnachu er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol. Rhoddwyd hyfforddiant a chymorth rheoli cyllid hefyd i bob rheolwr rheng flaen sy'n trafod gwaith trwsio ymatebol. Bu hynny a'r gwaith monitro rheolaidd o gymorth i ni reoli'r gyllideb ar gyfer gwaith trwsio'n effeithiol, ac y mae pob argoel y bydd y ffigurau ar ddiwedd 2014/15 yn dangos ein bod wedi cadw o fewn y gyllideb honno.

Faint wnaethom ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Dim mesurau							

Pa mor dda oeddem ni?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y tenantiaid sy'n fodlon ar y broses drwsio ymatebol.			90	93		😊	
Canran y gwaith trwsio y trefnwyd cyfarfodydd yn ei gylch a chadw at y trefniadau.				99.83			
Canran yr holl waith trwsio ymatebol a archwiliwyd ar ôl ei gyflawni.				35			
Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddod i ben â gwaith trwsio ymatebol (o bob blaenoriaeth).				10.37			
Gwerth archeb trwsio ymatebol ar gyfartaledd.				£143.46			

Oes unrhyw un yn well ei fyd?

	Perfformiad 2012/13	Perfformiad 2013/14	Targed 2014/15	Perfformiad 2014/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Statws y Perfformiad	Cyfeiriad y cynnydd
Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon ar y gwaith trwsio terfynol.			90	92		😊	

Hanes ein perfformiad

Yn sgîl yr adroddiad archwilio, newidiwyd y tîm trwsio'n sylweddol a llunio cynllun gweithredu a arweiniodd at weithredu nifer o gamau. Roedd y rheiny'n cynnwys cyflwyno protocoliau ar gyfer ymdrin a 'meysydd sydd angen eu gwella' – h.y: archwilio gwaith gorffenedig yn amlach a chofnodi'n amlach; sicrhau cydymffurfio â threfnau ariannol; monitro'r system ar gyfer gweithio symudol yn fanwl gywir; rheoli cyllidebau; meithrin ysbryd newydd o weithio mewn tîm er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau; cynyddu lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid; cynyddu cynhyrchiant a gweithredu trefn eglur a chryno ar gyfer atebolrwydd. Mae gennym ffordd symudol, fwy effeithiol o weithio erbyn hyn sydd o gymorth i sicrhau arbedion, cynyddu cynhyrchiant a lleihau costau gwasanaeth.

Mae'r data perfformio uchod yn dangos i ni wella o safbwynt darparu gwasanaeth ac o safbwynt sicrhau gwasanaeth hygyrch. Mae'r holl waith ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chynyddu lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid wedi'i gyflawni o fewn cyllidebau ein cleientiaid.

Astudiaeth achos: Gwella'r gwasanaeth trwsio ymatebol

Ar ôl ymgynghori â thenantiaid, yr oeddem wedi trefnu i 'Swyddog Cynnal a Chadw' fod wrth law yn ein prif Swyddfa Dai ar gyfer tenantiaid yr oedd yn well ganddynt drafod diffygion wyneb yn wyneb yn hytrach na ffonio. Gofynnwyd i ni ddod bob yn ail wythnos ar y dechrau ond cyn pen nis yr oedd y gwasanaeth mor boblogaidd nes y bu'n rhaid ei gynnal bob wythnos. Mae cysylltu'n uniongyrchol â'n tenantiaid yn y modd yma wedi gwella'r ddarpariaeth a chynyddu lefelau bodlonrwydd. Byddwn yn rhedeg cynllun arall tebyg erbyn hyn ar ôl derbyn cais oddi wrth denant ar un o'r stadau drwy fwrdd tenantiaid yr ardal honno, ac yr ydym yn ystyried ei ddatblygu and are looking to roll this out as 'area surgeries' to all areas.

Meysydd sydd angen eu gwella

Erbyn

1	Gwella'r archwiliadau a gynhelir cyn ac ar ôl pob gwaith trwsio ymatebol, ymwneud âg is-contractwyr ac annog rheolwyr i sicrhau bod Swyddogion Cynnal a Chadw'n cydymffurfio'n llwyr â'r Nodyn Trefn Ariannol ynglŷn â defnyddio is-contractwyr, fel y rheolir gwariant a chael gwerth am arian.	2015/16
2	Gwella'r prosesau ar gyfer cyflogi iscontractwyr er mwyn sicrhau y ceir gwerth am arian wrth eu defnyddio'n unol â Nodyn Trefn Ariannol y Cyngor.	2015/16

4. Perfformiad Cyngor Bro Morgannwg ar Ddiwedd 2014/15: Dangosyddion Perfformiad a gesglir yn Genedlaethol

Crynhoi ein perfformiad yn ôl dangosyddion cenedlaethol

Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru ac Uned Data Llywodraeth Leol yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad nifer o wasanaethau awdurdodau lleol, gan dynnu sylw at unrhyw feysydd lle bu newid mawr yn lefel gyffredinol y perfformiad. Yn y modd yma, gallwn gymharu perfformiad pob un o 22 awdurdod lleol Cymru yn y gwasanaethau hynny â'i gilydd. Mae'r adran hon yn crynhoi ein perfformiad yn ystod 2014/15 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2013/14) a pherfformiad pob awdurdod arall.

Ein Perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Yn ystod 2014/15, cafodd 46 o ddangosyddion perfformiad eu casglu a'u cyhoeddi'n genedlaethol. O'r 46 dangosydd, 44 a oedd yn cynnwys data y gellid ei gymharu â data perfformiad 2013/14, a dyma a ddarganfuwyd:


- 8 dangosydd i gyd a nododd y perfformiad gorau posibl yn ystod 2014/15. O'r 8 dangosydd gorau hwn, gwelwyd mai 7 a oedd wedi llwyddo i gynnal eu perfformiad gorau posibl (sef un ai 100% ynteu 0%) pan aed i gymharu data eleni a'r llynedd. EDU/002i (Nifer y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb ennill cymhwyster allanol cymeradwy) oedd y dangosydd a sicrhaoedd y perfformiad gorau posibl o'i gymharu â'i berfformiad y llynedd. Yn ystod 2014/15, 0% o blant a adawodd heb unrhyw gymwysterau cymeradwy o'i gymharu â 0.2% yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- 49% (23) o'r dangosyddion a nododd gynnydd (yn ôl gwerth y DP) yn ystod 2014/15. Mae'r rhain wedi aros yn weddol ddigyfnewid o'u cymharu â dangosyddion y flwyddyn flaenorol. 14 o'r 23 dangosydd eleni sydd wedi parhau i nodi cynnydd yn ystod 2014/15 o'u cymharu â rhai'r llynedd.
- 13 dangosydd a nododd ddirywiad (yn ôl gwerth y DP) yn ystod 2014/15, sef yr un nifer yn union ag yn ystod y flwyddyn flaenorol. 5 o'r 13 mesur sydd wedi parhau i nodi dirywiad yn ystod 2014/15.⁸
- 4 dangosydd a nododd cynnydd o ran perfformiad yn ystod 2013/14 sydd wedi aros yn ddigyfnewid yn ystod 2014/15⁹. Serch hynny, 3 o'r 4 (EDU/015a, EDU/015b, sy'n ymwneud â darparu datganiadau terfynol o AAA, a SCA/019 sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle y mae'r perygl o dan reolaeth) sy'n parhau i ddangos bod y perfformiad gorau posibl (100%) yn dal i gael ei gynnal. Mae hefyd 8 dangosydd a nododd gynnydd yn ystod 2013/14 (yn ôl gwerth y DP) sydd eleni'n nodi dirywiad o ran eu perfformiad. Y rheiny yw: EDU/006ii (nifer y disgyblion a aseswyd a gafodd Asesiad Athro yn Gymraeg) a ostyngodd o 9.2% yn ystod 2012/13 i 8.9% yn ystod 2014/15;

⁸ Y rheiny yw: SCA/002a (a ostyngodd 6.36% ers y llynedd), SCA/007 (a ostyngodd ryw fymryn bach, sef 2.6% ers y llynedd), SCC/037 (a nododd 124 o bwytiau'n llai nag yn ystod y flwyddyn flaenorol), LCL/001b (a nododd 543 o ymweliadau'n llai nag yn ystod y flwyddyn flaenorol), LCS/002b (a nododd 288 o ymweliadau'n llai nag yn ystod y flwyddyn flaenorol).

⁹ Dangosyddion a arhosodd yn ddigyfnewid o'u cymharu â rhai 2013/14 yw: EDU/015a, EDU/015b, SCA/019 and THS/012).

SCA/002b (nifer y bobl hŷn mewn cartrefi gofal) - cynyddodd y ffigur hwn fymryn bach o 14.74 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn ystod 2012/13 i 15.70 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn ystod 2014/15 (lle y mae cynnydd yn dangos bod y perfformiad wedi dirywio); SCA/020 (nifer yr oedolion sy'n cael cymorth yn y gymuned) a ostyngodd tua 2.72% o'i chymharu â chanran y flwyddyn flaenorol; SCC/045 (nifer yr adolygiadau o blant dan ofal a phlant mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol) a ostyngodd tua 1.6% o'i chymharu â chanran y llynedd; SCC/025 (canran yr ymweliadau statudol â phlant dan ofal a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau) a ostyngodd ryw fymryn bach o 0.8%; PSR/004 (nifer y tai gwag yn y sector preifat a ailgyfaneddwyd) a ostyngodd 31.54% o'i chymharu â chanran y llynedd; STS/005b (Nifer y priffyrdd a archwiliwyd yr oedd eu safon o lendid yn dderbyniol neu'n uchel) a ostyngodd ryw fymryn bach o 0.6% a THS/012b (nifer y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd sydd mewn cyflwr gwael), a ostyngodd y mymryn lleiaf o 0.2%.


- 8 dangosydd a nododd berfformiad digyfnewid yn ystod 2014/15 o'u cymharu â rhai 2013/14.



Dadansoddi Dangosyddion yn ôl chwarter

Dengys y data ar gyfer 2014/15 fod perfformiad dangosyddion cenedlaethol y Cyngor wedi gwella gryn dipyn yn ystod y flwyddyn. Mae mwy o ddangosyddion wedi'u dosbarthu yn y chwarter uchaf o ran perfformiad erbyn hyn – sef 20 yn ystod 2014/15 o'u cymharu â 17 yn ystod 2013/14, ac y mae'r un patrwm i'w weld o safbwynt rhai a ddosbarthwyd i'r chwarter canol uchaf. 7 dangosydd a ddosbarthwyd i'r chwarter canol uchaf yn ystod 2014/15 o'u cymharu â 3 yn ystod 2013/14. O ganlyniad, y mae llai o ddangosyddion yn y chwarter canol isaf, erbyn hyn. Serch hynny, aros yn weddol ddigyfnewid yr oedd ein perfformiad chwarter isaf gyda'r un nifer o ddangosyddion yn union yn cael eu dosbarthu i'r chwarter hwnnw eleni ag yn ystod y flwyddyn flaenorol. O'r 9 dangosydd a dosbarthwyd i'r chwarter isaf am eu perfformiad yn ystod 2014/15, 7 a ddosbarthwyd i'r un chwarter yn ystod 2013/14. Dengys hyn na fu unrhyw wella o bwys yn eu perfformiad iddynt allu symud o'r chwarter hwnnw. Y dangosyddion hyn yw: SCA/002 (nifer y bobl hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n cael cymorth yn y gymuned), SCA/020 (canran yr oedolion sy'n cael cymorth yn y gymuned), SCC/011b (percentage of initial assessments where child has been seen alone by a social worker), SCC/011a (Canran yr asesiadau cychwynnol sy'n dangos bod y plentyn wedi gweld y gweithiwr cymdeithasol), THS/012a (canran y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael), PPN/009 (canran y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd) a LCS/002b (nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwarae a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth).

Dengys y siart isod sut y perfformiodd y Cyngor ym mhob un o'r chwarteri rhwng 2012/13 a 2014/15 o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru.



Y chwarter uchaf (1^{af}):

- 44% (20) o ddangosyddion a ddosbarthwyd i'r chwarter uchaf o ran perfformiad yn ystod 2014/15, sef 3% yn fwy nag yn ystod y flwyddyn flaenorol pan ddosbarthwyd 41% (17) o ddangosyddion i'r chwarter uchaf.

Y chwarter canol uchaf (2^{il}):

- 15% (7) o ddangosyddion a ddosbarthwyd i'r chwarter canol uchaf (2^{il}) o ran perfformiad yn ystod 2014/15, o'u cymharu â 7% (3) yn ystod y flwyddyn flaenorol (2013/14).

Y chwarter canol isaf (3^{ydd}):

- 20% (9) o ddangosyddion a ddosbarthwyd i'r chwarter canol isaf yn ystod 2014/15, sef 9% yn llai nag yn ystod y flwyddyn flaenorol pan ddosbarthwyd 29% (12) i'r chwarter canol isaf.

Y chwarter isaf (4^{ydd}):

- 20% (9) a arhosodd yn y chwarter isaf o ran perfformiad yn ystod 2014/15, sef yr un nifer yn union ag yn ystod y flwyddyn flaenorol (2013/14).

Perfformiad y Cyngor o'i gymharu â Chymru'n gyffredinol a Rhanbarth De Ddwyrain Cymru

Maes gwasanaeth	% y dangosyddion cymaradwy a nododd welliant.				Cymhariaeth â Chymru a De-ddwyrain Cymru'n gyffredinol ar gyfer 2014/15		
	Nifer y dangosyddion	Y Fro	Cymru		Nifer y dangosyddion	Y Fro	Cymru
Gofal Cymdeithasol	18	39% (7)	55% (10)	55% (10)	18	56% (10)	56% (10)
Addysg	11	64% (7)	73% (8)	73% (8)	11	91% (10)	91% (10)
Trafnidiaeth a Phrifyrdd	5	40% (2)	100% (5)	100% (5)	5	40% (2)	20% (1)
Tai'r Sector Preifat	2	50% (1)	100% (2)	0% (0)	2	50% (1)	50% (1)
Digartrefedd	0*	N/A	N/A	N/A	1	100% (1)	100% (1)
Gwasanaethau Rheoleiddio	2	100% (2)	100% (2)	100% (2)	2	50% (1)	50% (1)
Hamdden a Diwylliant	2	0% (0)	0% (0)	0% (0)	2	50% (1)	50% (1)
Rheoli Gwastraff a Glanweithdra	4	75% (3)	50% (2)	50% (2)	4	25% (1)	75% (3)
Y Gweithlu	0*	N/A	N/A	N/A	1	100% (1)	100% (1)
Yn Gyffredinol	44*	50% (22)	66% (29)	61% (27)	46	61% (28)	61% (28)

* Nid oedd unrhyw ddata cymaradwy ar gael yn ystod 2014/15 ar gyfer HHA/013 a CHR/002.

NSI/PAM Dangosyddion Perfformiad Arolwg Perfformiad a Graddau 2014/15

Crynodeb Dangosyddion

Allwedd Tuedd y Cynnydd	
Gwella	↑
Digyfnewid	↔
Dirwyio	↓
Y Perfformiad Gorau Posibl	BP

Sylwer: mae'r data cymharol isod yn cael ei wahardd gan Lywodraeth Cymru tan 2 Medi 2015, felly ni chaniateir ei rannu na'i gyhoeddi'n allanol tan hynny.

Y 46 mesur a gyhoeddir gan gynghorau Cymru	Canlyniad 2013/14	Targed 2014/15	a wellodd y canlyniad rhwng 2013/14 a 2014/15?		22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{ed}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
			Canlyniad 2014/15	Gwella ↑ Digyfnewid ↔ Dirwyio ↓	y canlyniadau gwaethaf													y canlyniadau gorau									
Graddio Mae'r saethau'n arwain o'n safle yn ystod 2013/14 hyd at ein safle yn ystod 2014/15																											

Dysgu a Sgiliau

EDU/002i- % y disgyblion a adawodd addysg, hyfforddiant neu addysg yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy (MAG/DSC)	0.2%	0.10%	0.0%	↑ BP																								
EDU/002ii- % y disgyblion dan ofal yr awdurdod a adawodd addysg, hyfforddiant neu addysg yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. (MAG)	0.0%	0.0%	0.0%	↔ BP																								↔
EDU/003- % Canran y disgyblion aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro. (MAG/DSC)	88%	90.0%	90.5%	↑																								↔
EDU/006ii- % y disgyblion a aseswyd gan athro yn Gymraeg yn ystod CA3. (MAG)	9.2%	8.5%	8.9%	↓																								↔
EDU/011- Nifer y pwyntiau ar gyfartaledd a sgoriodd disgyblion erbyn 31 Awst yn y flwyddyn flaenorol (MAG/DSC).	557.2	570.0	576.1	↑																								↔
EDU/015a- % y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd cyn pen 26 wythnos, gan gynnwys achosion eithriadig (MAG).	100%	100%	100%	↔ BP																								↔
EDU/015b- % y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd cyn pen 26 wythnos, ac eithrio achosion eithriadig (MAG).	100%	100%	100%	↔ BP																								↔
EDU/017- % y disgyblion 15 oed a oedd wedi sicrhau trothwy Lefel 2 gan gynnwys arholiad TGAU gradd A* - C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg (MAG).	55.4%	60%	62.20%	↑																								↔
EDU/004- % Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd CA3, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro (DSC).	82.5%	85%	84.00%	↑																								↔
EDU/016a- % y disgyblion a fu'n mynychu ysgolion cynradd (DSC).	94.2%	94.6%	95.30%	↑																								↔
EDU/016b- % y disgyblion a fu'n mynychu ysgolion uwchradd (DSC).	93.4%	93%	94.20%	↑																								↔
LCL/001b- Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth (MAG)	6,819	6,600	6,276	↔																								↔

Gwasanaethau Cymdeithasol

Y 46 mesur a gyhoeddir gan gynghorau Cymru	Canlyniad 2013/14	Targed 2014/15	a wellodd y canlyniad rhwng 2013/14 a 2014/15?		22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{ed}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
			Canlyniad 2014/15	Gwella ↑ Digyfnewid ↔ Dirywio ↓	y canlyniadau gwaethaf													y canlyniadau gorau									
					Graddio Mae'r saethau'n arwain o'n safle yn ystod 2013/14 hyd at ein safle yn ystod 2014/15																						
SCA/001- Nifer y rhai 75 oed fesul 1,000 o'r boblogaeth y bu oedi wrth eu hatgyfeirio ar gyfer gofal cymdeithasol (MAG).	8.17	5.50	4.55	↑																							
SCA/002a- Nifer y bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn) fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n cael cymorth yn y gymuned (MAG).	47.49	50.0	41.13	↓																							
SCA/002b- Nifer y bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn) fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd mewn cartrefi gofal (MAG).	14.74	16.0	15.70	↓																							
SCA/019- % yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle y mae'r perygl o dan reolaeth (MAG/DSC).	100%	95%	100%	↔ BP																							
SCA/020- % y cleientiaid mewn oed sy'n cael cymorth yn y gymuned (DSC).	83.85%	80%	81.13%	↓																							
SCA/007- % Canran y cleientiaid a chanddynt gynllun gofal ar 31 Mawrth a ddylasai gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn	78.3%	87%	75.7%	↓																							
SCA/018a- % Canran gofawyr oedolion a gafodd gynrig asesu neu adolygu eu hanghenion drwy eu hawl eu hun yn ystod y flwyddyn (DSC).	100%	100%	100%	↔ BP																							
SCC/002- % o blant dan ofal a newidiodd ysgol o leiaf unwaith am resymau ar wahân i bontio yn ystod y 12 mis a oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth (MAG).	16.4%	13.0%	13.0%	↑																							
SCC/004- % y plant a leolwyd deirgwaith neu ragor yn ystod y flwyddyn (MAG/DSC).	10.4%	9.0%	6.90%	↑																							
SCC/011b- % yr asesiadau cychwynnol sy'n dangos bod plentyn wedi gweld gweithiwr cymdeithasol (MAG).	21.5%	30.0%	30.70%	↑																							

Gwasanaethau Cymdeithasol					22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{ed}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}		
Y 46 mesur a gyhoeddir gan gynghorau Cymru	Canlyniad 2013/14	Targed 2014/15	a wellodd y canlyniad rhwng 2013/14 a 2014/15?		y canlyniadau gwaethaf												y canlyniadau gorau											
			Canlyniad 2014/15	Gwella ↑ Digyfnewid ↔ Dirywio ↓	Graddio																							
			Mae'r saethau'n arwain o'n safle yn ystod 2013/14 hyd at ein safle yn ystod 2014/15																									
SCC/033d- % y bobl ifanc 19 oed a fu o dan ofal yr awdurdod sy'n dal mewn cysylltiad â'r awdurdod (MAG).	100%	95%	100%	↔ BP																							↔	
SCC/033e- % y bobl ifanc 19 oed a fu dan ofal, ac sydd bellach mewn llety addas nad yw'n llety brys, sy'n dal mewn cysylltiad â'r awdurdod (MAG).	92.6%	95.0%	92.9%	↑																								
SCC/033f- % y bobl ifanc 19 oed a fu dan ofal, sydd bellach mewn addysg neu waith neu'n dilyn hyfforddiant (MAG).	44.4%	52.0%	57.1%	↑																								
SCC/037- Nifer y pwyntiau a sgoriodd plant dan ofal 16 oed ar gyfartaledd am gymwysterau allanol (MAG).	348	200	224	↓																								
SCC/011a- % yr asesiadau cychwynnol a ddangosodd fod plenty'n wedi gweld gweithiwr cymdeithasol (DSC).	67.4%	68.0%	68.4%	↑																								
SCC/041a- % y plant cymwys a gafodd gynlluniau llwybr yn ôl y gofyn (MAG).	100%	100%	100%	↔ BP																							↔	
SCC/045- % yr adolygiadau o blant yn gyffredinol, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol (DSC).	98.0%	95.0%	96.4%	↓																								
SCC/25- % yr ymweliadau â phlant dan ofal a gynhaliwyd yn unol a'r rheoliadau (DSC).	95.3%	95.0%	94.5%	↓																							↔	

Gwasanaethau Datblygu					22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{ed}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}		
Y 46 mesur a gyhoeddir gan gynghorau Cymru	Canlyniad 2013/14	Targed 2014/15	a wellodd y canlyniad rhwng 2013/14 a 2014/15?		y canlyniadau gwaethaf												y canlyniadau gorau											
			Canlyniad 2014/15	Gwella ↑ Digyfnewid ↔ Dirywio ↓	Graddio																							
			Mae'r saethau'n arwain o'n safle yn ystod 2013/14 hyd at ein safle yn ystod 2014/15																									
PSR/002- Nifer y diwmodau a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (MAG/DSC).	284	250	199	↑																								
PSR/004- % y tai sector preifat (sy'n wag ers rwy na 6 mis) a ailgyfanheddwyd am i'r awdurdod lleol ymyrryd yn uniongyrchol (MAG).	49.15%	42.00%	17.61%	↓																								
PLA/006b- Canran yr holl unedau tai ychwanegol sy'n unedau newydd fforddiadwy, a ddaparwyd yn ystod y flwyddyn(MAG/DSC).	31%	30%	35%	↑																								
PPN/009- % y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd (DSC).	85.29%	85%	90.73%	↑																								
LCS/002b- Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (MAG).	6,544	6,600	6,256	↓																								

Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai																																
Y 46 mesur a gyhoeddir gan gynghorau Cymru	Canlyniad 2013/14	Targed 2014/15	a wellodd y canlyniad rhwng 2013/14 a 2014/15?		22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{ed}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}						
			Canlyniad 2014/15	Gwella ↑ Digyfnewid ↔ Dirywio ↓	y canlyniadau gwaethaf												y canlyniadau gorau															
					Graddio Mae'r saethau'n arwain o'n safle yn ystod 2013/14 hyd at ein safle yn ystod 2014/15																											
HHA/013- % y teuluoedd mewn perygl o fynd yn ddiartref a arbedwyd rhag mynd yn ddiartref am o leiaf 6 mis (MAG/DSC).	79.5%	85.0%	78.3%	↓	Ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata cymharol ar gyfer y mesur hwn yn ystod 2014/15.																											
THS/007- % yr oedolion dros 60 oed a chanddynt docyn teithio rhad (DSC).	80.4%	80.0%	82.4%	↑																												
THS/012- % ffyrdd A, B ac C sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (DSC).	9.9%	9.5%	9.9%	↔																												
THS/012a- % ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (MAG).	6.0%	N/A	5.6%	↑			↔																									
THS/012b- % ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (MAG).	4.8%	N/A	5.0%	↓																												
THS/012c- % ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (MAG).	15.1%	N/A	13.9%	↑																												
STS/005b- % Nifer y prifffyrdd a archwiliwyd am safon uchel/dderbyniol o lendid (DSC).	96.3%	96.5%	95.7%	↓																												
STS/006- % Canran yr achosion o ddympio ysbwriel yn anghyfreithlon a gliriwyd cyn pen 5 niwrnod gwaith (MAG).	80.26%	80%	96.38%	↑																												
WMT/004b- % y gwastraff dinesig a gladdwyd mewn safle tirlenwi (MAG/DSC).	43.18%	40.00%	29.41%	↑																												
WMT/009b- % y gwastraff dinesig a gafodd ei aildefnyddio, ei ailgylchu, ei droi'n gompost neu'i drin mewn ffordd fiolegol arall (MAG/DSC).	54.77%	58.00%	56.00%	↑																												
Adnoddau																																
Y 46 mesur a gyhoeddir gan gynghorau Cymru	Canlyniad 2013/14	Targed 2014/15	a wellodd y canlyniad rhwng 2013/14 a 2014/15?		22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{ed}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}						
			Canlyniad 2014/15	Gwella ↑ Digyfnewid ↔ Dirywio ↓	y canlyniadau gwaethaf												y canlyniadau gorau															
					Graddio Mae'r saethau'n arwain o'n safle yn ystod 2013/14 hyd at ein safle yn ystod 2014/15																											
CHR/002: Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd fesul awdurdod lleol oherwydd salwch (DSC)/ (Newydd)	8.64	9.0	9.4	↑																												

Egluro dangosyddion perfformiad y chwarterl isaf

Maes Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Egluro perfformiad 2014/15
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	SCA/002a: Nifer y bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn) fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n cael eu cynnal yn y gymuned (MAG)	<p>Nid yw'r dangosydd hwn yn fesur o'r gwella a fu ar wasanaethau am y gallai nifer isel nid yn unig ddangos bod mwy o bobl yn llwyddo i fyw'n annibynnol, ond hefyd y gwrthwyneb, sef bod y Cyngor yn methu â helpu pobl anghenus. Mae unrhyw newidiadau bach i'w priodoli'n bennaf i newid yn nifer y boblogaeth.</p> <p>Er bod mwy o wasanaethau cymunedol ar gael erbyn hyn, bydd yn anodd o hyd i'r garfan hon fesul 1,000 o'r boblogaeth i gynyddu, am fod nifer y bobl dros 65 oed yn y Fro'n cynyddu.</p>
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	SCA /020: Canran y cleientiaid mewn oed sy'n cael eu cynnal yn y gymuned (DSC)	<p>Nid yw'r dangosydd hwn yn fesur o'r gwella a fu ar wasanaethau am y gallai nifer isel nid yn unig ddangos bod mwy o bobl yn llwyddo i fyw'n annibynnol ond hefyd fod y Cyngor yn methu â helpu pobl anghenus. Mae unrhyw newidiadau bach i'w priodoli'n bennaf i newid yn nifer y boblogaeth.</p>
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	SCA/007: Canran y cleientiaid a chanddynt gynlluniau gofal a oedd i fod i gael eu hadolygu erbyn 31 Mawrth a oedd wedi cael eu hadolygu. (DSC)	<p>Mae hyn yn dangos cynnydd yn y galw am wasanaethau. Dod i ben ag Aseidiadau Integredig newydd a ddylai gael blaenoriaeth yn hytrach nag adolygu achosion sefydledig.</p> <p>Mae meysydd gwasanaeth yn ystyried datblygu unedau gweithredol llai o faint er mwyn canolbwyntio ar adolygu, ond y mae llai o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r dangosydd hwn o hyd nag i'r lleill.</p>
Gwasanaethau Plant	SCC/011a: Canran yr aseidiadau cychwynnol lle cafodd plentyn ymweliad gan weithiwr cymdeithasol. (DSC)	<p>O dan y diffiniad, nid oedd modd cyfrif yr aseidiadau cychwynnol priodol lle cafodd plentyn ymweliad gan swyddog gofal cymdeithasol nad oedd yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig. Felly, 14.83% o'r plant a</p>

Maes Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Egluro perfformiad 2014/15
		welodd swyddog gofal cymdeithasol.
Gwasanaethau Plant	SCC/011b: Canran yr asesiadau cychwynnol lle cafodd plentyn ymweliad gan weithiwr cymdeithasol ar ei ben ei hun. (MAG)	Nid yw bob amser yn briodol i blentyn gael ei weld ar ei ben ei hun yn ystod asesiad cychwynnol. Adolygwyd y trefnau gweithredu a'r prosesau cofnodi ac yr ydym yn parhau i sicrhau bod pob manylyn yn cael ei gofnodi'n gywir.
Gwasanaethau Plant	SCC/037: Y sgôr sydd gan blant dan ofal 16 oed ar gyfartaledd am gymwysterau allanol. (MAG)	Mae'n anodd iawn cymharu sgoriau o flwyddyn i flwyddyn am fod y garfan dan sylw mor fach. Roedd ein perfformiad yn ystod 2013/14 yn adlewyrchu llwyddiant eithriadol un unigolyn ifanc yn benodol. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'r gwasanaethau addysg er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad plant dan ofal.
Yr Amgylchedd a Thai	THS/012a: Canran ffyrdd 'A' sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (MAG)	Roedd angen buddsoddi £1.9m bob blwyddyn yn y rhwydwaith ffyrdd er mwyn ei gadw mewn cyflwr sefydlog. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau rhyw £1.83m y flwyddyn am dair blynedd drwy Gynllun Benthycia Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn caniatáu iddo fuddsoddi cyfalaf mewn gwella'r rhwydwaith ffyrdd lleol a chwblhau gwaith cynnal a chadw a oedd yn aros i'w wneud, er lles a diogelwch pob defnyddiwr. Llwyddwyd i roi arwyneb newydd a thrwsio arwyneb rhyw 22 o gilomedrau o briffordd bob blwyddyn yn ystod y cyfnod dan sylw drwy ddefnyddio'r nawdd hwn. Roedd y nawdd a gawsom rhwng 2012/13 a 2014/15 drwy Gynllun Benthycia'r Llywodraeth wedi caniatáu i ni gwblhau llawer o'r gwaith cynnal a chadw a oedd yn aros i'w wneud, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014/15. Serch hynny, ased sy'n dirywio'n gyson ac yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer cynnal neu wella ei gyflwr yw'r rhwydwaith ffyrdd. Oni bai i ni fuddsoddi ynddo'n gyson,

Maes Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Egluro perfformiad 2014/15
		<p>bydd cyflwr cyffredinol ein rhwydwaith o ffyrdd, gan gynnwys ffyrdd 'A' yn prysur ddirywio i gyflwr ansefydlog. Mae cynnydd cyffredinol yn nifer y cerbydau sy'n defnyddio ffyrdd o bob dosbarth hefyd yn dwysau'r broblem hon.</p> <p>Dengys adroddiad chwarterol gan yr Adran Drafnidiaeth o dan y teitl 'Quarterly Road Traffic Estimates, Great Britain April - June 2015', i nifer y cerbydau ym Mhrydain gynyddu o 2.3% yn ystod y flwyddyn sy'n diwedd Mehefin 2015, ac i nifer y cerbydau nwyddau trwm gynyddu o 1.5%. Bydd hyn, yn enwedig y cynnydd yn nifer y cerbydau nwyddau trwm, yn cyflymu dirywiad y rhwydwaith ffyrdd. Mae effaith y cyfyngu cyffredinol ar nawdd cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw felly'n ddwysach fyth, a bydd priffyrdd yn parhau i ddirywio yn y tymor canolig neu'r tymor hir.</p> <p>Er mwyn gwella perfformiad y Cyngor, bwriadwn chwilio am ddulliau o drin, gwella ac amddiffyn arwyneb ffyrdd a ffordd o barhau i fuddsoddi yn y rhwydwaith fel y'i gwnaethom yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyngor hefyd yn dilyn yr arferion gorau ar gyfer rheoli asedau er mwyn cynllunio gwaith a chywiro'r diffygion gwaethaf fel y caiff nawdd y dyfodol ei gyfeirio yn y ffordd fwyaf diwastraff ac effeithiol.</p>
Yr Amgylchedd a Thai	LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (MAG)	Rhan o'r diffiniad o'r dangosydd hwn yw data sy'n ymwneud â chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ar feysydd chwarae, ac yn y blaen. Mae'n siŵr bod perfformiad y Fro wedi'i ystumio i raddau am i ni fethu â chynnwys unrhyw ffigurau ar gyfer y defnydd y bydd y cyhoedd yn ei wneud o ambell i gyfleustra hamdden arwyddocaol (meysydd chwarae artiffisial a neuaddau chwaraeon ac ati). Gall cynghorau eraill wneud hynny am fod cyfleusterau felly'n cael eu

Maes Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Egluro perfformiad 2014/15
		<p>rhedeg gan wasanaethau hamdden y gwahanol awdurdodau'n hytrach na'r ysgolion eu hunain.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ffyddiog bod ei ddata'n ddilys, ac am iddo hefyd gael ei restru'n gyntaf yng Nghymru am ei lefelau gweithgarwch corfforol gan Chwaraeon Cymru, gwyr fod ei holl gyfleusterau hamdden - gan gynnwys rhai ar safleoedd ysgolion a ddefnyddir gan y cyhoedd ond sydd heb eu cofnodi - i gyd yn cael eu defnyddio'n helaeth. Am mai Cyngor y Fro yw'r unig gyngor yng Nghymru hefyd na fydd yn talu cymhorthdal i weithredwr (sef sefydliad gwasanaeth uniongyrchol, ymddiriedolaeth neu fath arall o sefydliad) reoli ei ganolfannau, ni thychia fod fawr o le iddo boeni am berfformiad ei gyfleusterau. Mae sôn hefyd y bydd y Cyngor yn cael ei enwi fel enghraifft o'r ymarfer gorau mewn adroddiad ar Ddarpariaeth Hamdden Awdurdodau Lleol Cymru sydd i'w ryddhau'n fuan gan Swyddfa Archwilio Cymru.</p> <p>Serch hynny, bydd y Cyngor bob amser yn chwilio am ffyrdd o ddenu mwy o gyfranogwyr, drwy gydweithio â chwmni Legacy Leisure (y partner sy'n rheoli ei ganolfannau hamdden) a darparwyr cyfleusterau hamdden awyr agored. Mae Cynllun Partneriaeth Awdurdod Lleol Bro Morgannwg 2015/16 hefyd yn cynnwys amryw o brif gynlluniau a luniwyd yn unswydd ar gyfer rhoi mwy o gyfle cyfranogi. Mae hyn wedi cael pob bendith gan Chwaraeon Cymru, sydd nid yn unig yn bartner ariannol allweddol o safbwynt gweithredu'r cynllun ond hefyd wedi enwi'r Fro fel enghraifft o'r ymarfer gorau am ddatblygu rhaglenni gweithgarwch corfforol newydd. Bydd y Cyngor hefyd yn darparu meysydd chwarae artiffisial newydd yn ystod y flwyddyn</p>

Maes Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Egluro perfformiad 2014/15
		nesaf a fydd yn sicr o roi hwb i lefelau cyfranogi am y byddant yn cael eu rheoli un ai gan y Cyngor ei hun ynteu partner a fydd yn gallu cofnodi'r defnydd a wneir ohonynt.
Gwasanaethau Datblygu	PPN009: Canran y safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd (DSC)	Mae 'cydymffurfiad bras' yn fesur o gydymffurfiad busnesau â deddfwriaeth. Rydym wedi rhoi hyfforddiant ychwanegol i'r busnesau bwyd a fu'n cyfrannu at ein perfformiad a chynyddodd y nifer sy'n cydymffurfio â'r mesur o 85.29% i 90.73%. Rydym yn dal i ddefnyddio nawdd oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd i dalu am hyfforddiant a chymorth ychwanegol er mwyn helpu busnesau i wella a chydymffurfio â'r mesur.

5. Compendiwm o weithgareddau ar y cyd

Mae'r adran hon yn egluro'r gweithgareddau strategol a wnaeth y Cyngor ar y cyd â chyrrff eraill yn ystod 2014/15 gan nodi ei gynnydd a'i llwyddiant hyd yma.

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<p>Gwasanaethau Rheoli ar y Cyd Gwasanaeth rheoli gwasanaethau ar y cyd ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg.</p>	<p>Cynghorau Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr</p>	<p>Daeth y Gwasanaeth Rheoli ar y Cyd yn weithredol ar 1 Mai 2015, gyda staff o gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd yn dod i weithio i gyngor Bro Morgannwg o dan reoliadau 'trosglwyddo ymgymeriadau (diogelu cyflogaeth) 1981'. Rydym wrthi eisoes yn ymgynghori ynglŷn â fframwaith newydd ar gyfer y gwasanaeth hwn a roddir ar waith o 1 Rhagfyr 2015 ymlaen. Drwy rannu'r ddarpariaeth, gallwn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hir, a lluniwyd y model gweithredu newydd gyda golwg ar anghenion defnyddwyr o safbwynt amddiffyn y cyhoedd.</p>
<p>Partneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro</p>	<p>Cyngor Caerdydd, Coleg Caerdydd a'r Fro, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, YMCA, Cymraeg i Oedolion</p>	<p>Mae gwasanaeth Addysg i Oedolion a Dysgu Cymunedol yng Nghaerdydd a'r Fro wedi gwella'n sylweddol, wrth i bob agwedd ar y bartneriaeth ymdrechu i gydgyssylltu eu gwaith yn fwy. Bydd y Grŵp Strategol yn cytuno ar flaenoriaethau ac yn monitro perfformiad. Mae aelodau o'r bartneriaeth eisoes yn cydweithio ar gynllunio meysydd llafur, marchnata, data, ansawdd ac adnoddau. Rôl y cyd-drefnydd, a gyflogir ar y cyd, fydd canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, a gweithredu model ar gyfer adennill costau llawn cyrsiau dysgu ym mhob rhan o ranbarth Caerdydd a'r Fro. Gellir mesur cynnydd yn ôl yr ystadegau yn yr adroddiad ar Ddeilliannau Dysgwyr sy'n dangos cynnydd sylweddol o safbwynt Cyflawni, Cyrraedd a Llwyddo ers adroddiad 2013. Cafodd y bartneriaeth adroddiad cadarnhaol gan Estyn yn ddiweddar hefyd.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<p>Consortiwm Canolbarth y De Bydd Consortiwm Canolbarth y De'n darparu pob math o weithrediadau gwella ysgolion statudol ar gyfer ysgolion y Fro. Bydd ysgolion yn derbyn cymorth a her yn ôl eu categorïau cenedlaethol ac y mae pwyslais cynyddol ar wella ysgolion drwy system 'ysgol i ysgol'. Lluniwyd cytundeb cyfreithiol ar gyfer y consortiwm dan ofal Cyngor Rhondda Cynon Taf.</p>	<p>Cynghorau Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr, Rhondda Cynon Taf</p>	<p>Mae'r Consortiwm wedi llunio cynllun busnes, trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli a threfnau gweithredu. Mae gweithrediadau'r Consortiwm yn dilyn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae deilliannau disgyblion wedi gwella yn y pum awdurdod lleol ers y llynedd. Mae arolygon thematig ar weithio mewn consortia a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer cryfhau'r pedwar consortiwm sy'n rhan o Gynllun Busnes Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y 2015/16.</p>
<p>Canolbwynt Cysylltiadau Cwsmeriaid / Cyfathrebiadau'r GIG (cf. Cronfa Gofal Canolradd y Gwasanaethau Cymdeithasol) Datblygu canolfan cyswllt cwsmeriaid ar gyfer y gwasanaethau iechyd yng Nghanolfan UnFro.</p>	<p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p>	<p>Mae technoleg cyfathrebu uniongyrchol fel system 'llais ymateb rhyngweithiol' yn cael ei gweithredu ar y cyd er mwyn i ni allu lleihau costau drwy gynnig mwy o systemau hunanwasanaeth a rheoli'r galw'n well yng Nghanolfan Cyswllt Cwsmeriaid y Fro.</p> <p>Yn dilyn cynllun arbrofol llwyddiannus ym Mro Morgannwg, rhoddwyd prosiect ehangu ar waith er mwyn dod â'r gwasanaeth i Gaerdydd a threfnu ar gyfer ateb ymholiadau gan staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn ogystal â staff y Fro. Mae bellach yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau a byddwn yn cymryd llai o amser ar y cyfan i drin ymholiadau.</p>
<p>Teledu Cylch Cyfyng Datblygu cynigion ar gyfer rhannu gwasanaeth dan ofal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr.</p>	<p>Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr</p>	<p>Cytunwyd ar achos busnes a'i gymeradwyo. Llofnodwyd cytundeb dros dro er mwyn caniatáu gweithredu'r rhwydweithiau TCC. Rydym wrthi o hyd yn llunio contract masnachu llawn. Mae disgwyl i'r gwasanaeth newydd gychwyn yn ffurfiol ym Medi 2015. Drwy rannu'r ddarpariaeth, gallwn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir, ac ymateb yn hyblyg pan fydd diffyg ar y dechnoleg.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<p>Archwilio Mewnol Gwasanaeth ar y cyd â Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr.</p>	<p>Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr</p>	<p>Mae'r gwasanaeth eisoes yn weithredol.</p> <p>Bydd gwasanaeth sicrhau ansawdd effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer cynghorau'r Fro a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae costau'n llai o dan y drefn newydd am fod y gwasanaeth wedi'i symleiddio'n sylweddol. Bydd cynllun archwilio ar sail risg yn cael ei lunio bob blwyddyn ar gyfer y ddau awdurdod.</p> <p>Mae'r sylfaen sgiliau'n llawer ehangach ar ôl uno'r ddau wasanaeth, ac y mae cyfle hefyd i fanteisio ar arbenigedd archwilydd TG. Rydym wedi mabwysiadu Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella er mwyn hybu cynnydd a sicrhau bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Yn ôl canlyniadau diweddaraf yr asesiad hwn, 76% o'r gwaith a archwiliwyd sy'n dangos bod staff yn cynhyrchu gwaith o safon uchel ac 8% sy'n dangos meysydd lle bu'r gwaith yn fwy effeithlon ac effeithiol ac felly'n arbed arian sylweddol i'r cleient.</p>
<p>Cronfa Cydweithio Rhanbarthol: Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd Datblygu bwrdd gwasanaethau lleol ar y cyd â Chyngor Caerdydd.</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p>	<p>Sefydlwyd y Bwrdd ym Mehefin 2014, a chynhelir cyfarfodydd bob dau fis. Cytunwyd ar raglen waith ar y cyd ac y mae bellach yn cael ei gweithredu. Mae'r gwaith hwn yn helpu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg.</p>
<p>Gwasanaeth Troseddau Ieuencid</p>	<p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Heddlu De Cymru; y Gwasanaeth Profiannaeth</p>	<p>Cafodd y cynllun blynyddol ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn ddiweddar a'i nod fydd lleihau nifer troseddau pobl ifanc drwy gymryd camau ymarferol i rwystro troseddu a dilyn cynlluniau sy'n targedu'r broblem yn effeithiol.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<p>Cronfa Gofal Canolradd Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig nawdd o'r gronfa hon i ranbarthau er mwyn i gynghorau gael buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn (yn enwedig yr henoed bregus), i barhau'n annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain. Derbyniodd Bro Morgannwg £1,114,000 (refeniw) a £557,000 (cyfalaf) o'r gronfa hon ar gyfer 2014/15.</p> <p>Dyma'r ffrydiau gwaith sy'n cael sylw ar hyn o bryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hwyluso'r defnydd o wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol; • Tîm Cartrefi Addas; • Cartrefi Addas: Unedau Ail-alluogi; • Nawdd y Trydydd Sector; • Ehangu Gwasanaethau Ail-alluogi; • Cyfarpar Teleofal; • Gofal Ychwanegol; • Hyrwyddo Pecynnau Gofal sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau; • Gweddnewid Gwasanaethau Dementia; • Sicrhau Ansawdd. 	<p>Y Trydydd Sector, y Sector Annibynnol, Bwrdd Iechyd y Brifysgol a'r Fro, Cyngor Caerdydd</p>	<p>Hwyluso'r defnydd o wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol drwy ad-drefnu'r broses ar gyfer eu defnyddio, a'i gweithredu yn y Ganolfan Gyswllt ar y cyd â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Crëwyd swyddi arbenigol newydd er mwyn cael dosbarthu galwadau'n effeithiol yn ôl blaenoriaeth ar ran y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor. Erbyn hyn, bydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio'r un prosesau wrth drin galwadau, a bydd y ganolfan alwadau bellach yn derbyn atgyfeiriadau sgrinio a lleoli ar ran gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. O ganlyniad i'r ad-drefnu gwasanaethau yma, cafodd mwy o bobl eu cyfeirio at y gwasanaethau cywir. Mae system ofal fwy effeithiol a chydgyssylltiedig ar gyfer Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol erbyn hyn. Byddwn yn gyflymach o lawer yn ymateb i atgyfeiriadau ar gyfer gofal cymdeithasol, ac yn 75% yn gyflymach wrth ymateb i atgyfeiriadau arferol, a 50% yn gyflymach wrth ymateb i rai a gafodd flaenoriaeth.</p> <p>Ad-drefnu cartrefi'n unedau arbenigol sy'n helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol neu fyw'n annibynnol unwaith eto yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cynnwys gofal ychwanegol ar ffurf 'llety cam-i-lawr' er mwyn i ni allu rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n gynt. Bydd yr unedau hyn yn gwasanaethu fel lletyau tymor hir a thymor byr (cyfleusterau 'cam-i-fyny, cam-i-lawr') tra bod cartref unigolyn yn cael ei addasu. Cwblhawyd 8 o'r 10 uned yn ystod 2014. Ar ôl cael eu gwella a'u hailwampio yr oedd yr unedau'n cwrdd ag anghenion pobl hŷn yn well ac yn eu helpu i aros yn annibynnol am fwy o amser. Rydym wedi dechrau gweithio ar rannau cymunedol o'r cynllun fel y golchdy, yr ystafell TG, yr ystafell ddydd, y gegin gymunedol ac ati. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar y 2 uned adfer er mwyn darparu cyfleustra 'cam-i-lawr' ar gyfer pobl hŷn sy'n pontio rhwng yr ysbyty a'r cartref. Rydym wedi gorffen adeiladu un o'r unedau a'i throsglwyddo i Hafod, ac erbyn hyn, y mae'r cyfleustra 'cam-i-lawr' yn darparu ar gyfer defnyddwyr, a'r darparwr gofal yn y cartref yn cynnig gwasanaeth llawn.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
		<p>Darparu 'tîm cartrefi addas' a fydd yn cydweithio'n agos â Swyddogion lechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn ymateb yn briodol i anghenion tai rhai hŷn sydd ar fin cael eu derbyn i'r ysbyty neu'u rhyddhau ohono. Mae'r cydweithio yma wedi arwain at benodi Cyd-drefnydd Timau Therapyddion Galwedigaethol a Chartrefi Addas pwrpasol. Cytunwyd â Chyngor Caerdydd y byddai swyddogion yn gweithio ar draws y rhanbarth fel y bo'n briodol, er mwyn darparu yn y ffordd orau bosibl ar gyfer rhyddhau cleifion yn gyflym o'r ysbyty.</p> <p>Defnyddio'r Trydydd Sector i ad-drefnu gofal cymdeithasol i oedolion a helpu a chynghori pobl fel y medrant ddewis yn ddoeth. Cynhaliwyd proses dendro a chynnig contractau i Care and Repair ac Age Connects ar gyfer darparu gwasanaethau. Cytunwyd ar amodau perfformio gyda'r darparwyr Trydydd Sector hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y contract. Daeth y contract i rym ar 1 Hydref 2014.</p> <p>Cydweithio â darparwr gofal allanol er mwyn pwysu a mesur p'un ai a fo'n bosibl i'r sector hwnnw ddarparu gwasanaethau ail-alluogi ai peidio, a chynnig argymhellion. Cynhaliwyd proses dendro er mwyn dod o hyd i bartner allanol addas, a chynigiwyd y contract i ddarparwr 'gofal yn y cartref' allanol o'r enw Care Watch. Cafodd gofalwyr eu hyfforddi ar gyfer gweithredu pecynnau gofal ail-alluogi a bu gwasanaethau a Care Watch yn cydweithio er mwyn llunio'r pecynnau hynny. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y patrwm gweithio newydd hwn yn fanwl, ac yn ei ddefnyddio'n helaethach petai'n profi'n effeithiol. Ni fydd yn bosibl mesur ei fanteision o safbwynt arbed arian/osgoi costau yn y dyfodol nes ei fod wedi'i ymgorffori'n llwyr. Serch hynny, y mae pob argoel y bydd ail-alluogi nid yn unig yn arbed arian ar ddarparu pecynnau ond hefyd yn cyflawni nod y gwasanaeth drwy helpu defnyddwyr i fyw'n annibynnol unwaith eto ynteu mor annibynnol ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
		<p>Archwilio gwasanaethau/technologau Teleofal newydd er mwyn helpu pobl hŷn a bregus i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a lleihau costau pecynnau gofal. Dechreuwyd dadansoddi cleientiaid er mwyn cael nodi ac egluro ym mha le'n union y mae'r galw mwyaf. Prynwyd oriorau VEGA, er mwyn i ddefnyddwyr (yn enwedig rhai sy'n dioddef o ddementia) gadw'n ddiogel drwy ddefnyddio technoleg sy'n caniatáu i ni eu holrhain a monitro eu lles.</p> <p>Rydym wedi adolygu 30 o becynnau gofal costus/cymhleth a ddefnyddir i ddarparu 'gofal yn y cartref' ar gyfer pobl hŷn, a'u newid fel yr argymhellwyd. Mae hyn wedi dod â chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr yn ogystal ag arbed costau. Drwy weithio fel hyn, yr ydym wedi llwyddo i roi patrwm newydd o weithio ar brawf a fydd bellach yn cael ei sefydlu drwy ail-leoli staff o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Fel rhan o gynllun ar gyfer gwednewid ein ffordd o ofalu am gleifion dementia, crëwyd swydd Rheolwr Canolfan Adnoddau. Daethpwyd i gysylltiad â phrosiect SPIDER (Arloesi yn y Gwasanaethau Cyhoeddus drwy ddefnyddio Dylunio yn Rhanbarthau Ewrop) er mwyn i Fro Morgannwg fod yn isbartner, ac â darparwyr hyfforddiant er mwyn i staff ddysgu rhagor o sgiliau a datblygu modelau gofal ar gyfer y dyfodol. Lanswyd cynllun arbrol Cymunedau Dros Gleifion Dementia, ond bydd yn rhaid gwneud rhagor o waith er mwyn ei ymgorffori'n llwyr.</p>
<p>CCRh: Ad-drefnu Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'i Integreiddio â'r Gwasanaethau Iechyd. Cynigiwyd £785k i'r rhaglen hon ar draws cynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd fel rhan o'r nawdd o'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol. Dyma'r prosiectau sy'n cael sylw:</p>	<p>Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd y Brifysgol, y Trydydd Sector</p>	<p>Bu Prosiect Cyngor Gwell RhCT eisoes yn gyfrifol am ddod ag adnoddau cymunedol Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd y Brifysgol a'r Trydydd Sector ynghyd mewn man cadw pwrpasol yn ysbyty'r Barri. Mae'r cydleoli hwn eisoes wedi sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol, gyda swyddogion yn cydweithio'n agosach i gwrdd ag anghenion defnyddwyr fel na fo cymaint o drosglwyddo gwaith yn ystod prosesau. Y camau nesaf fydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau gweithio symudol, a threfnu;

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Gwell RhCT; • Gweithio symudol; • Symleiddio'r Broses Asesu Unedig; • Comisiynu; • Technoleg Gynorthwyol; • Anableddau Dysgu (Cyd-reolwr ac adolygiadau); • Gwella Therapi Galwedigaethol. 		<ul style="list-style-type: none"> • Ad-drefnu prosesau ar y cyd; • Prynu a gwerthu yn y sector gwirfoddol. <p>Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol. Sefydlwyd 3 Thîm Adnoddau Cymunedol eisoes drwy'r prosiect hwn, sef 2 yng Nghaerdydd (Yr Eglwys Newydd a Llanrhymni) ac 1 ym Mro Morgannwg (Ysbyty'r Barri). Daethpwyd â staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol a staff yr Awdurdod Lleol ynghyd a chreu gwasanaeth sydd wedi'i gyd-drefnu'n well ac sy'n ymateb yn gyflymach ac yn darparu'n well ar gyfer ail-alluogi o ganlyniad. Ar ôl ail-leoli staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn llwyddiannus, yr ydym bellach yn ymdrechu i integreiddio'r prosesau'n llwyr a chreu un llwybr gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Bu cyfarpar symudol o gymorth i ni ddarparu gofal ail-alluogi mwy effeithiol yn y cartref, am fod gofaluwr bellach yn gallu derbyn gwybodaeth ar eu ffonau symudol. Bydd partneriaid yn y Trydydd Sector hefyd yn cydweithio â'r Timau Adnoddau Cymunedol er mwyn darparu rhagor o adnoddau a chyflymu'r broses ail-alluogi. Bydd atgyfeiriadau yn y Fro'n cael eu rheoli yn y Ganolfan Gyswilt erbyn hyn.</p> <p>Darparu gwell gwasanaethau ar gyfer rhai ag anabledd dysgu. Mae'r prosiect cydweithio hwn yn cynnig adnodd ar gyfer adolygu pecynnau gofal i bobl ag anabledd dysgu a llunio Strategaeth Cyfleoedd Dydd i Rai ag Anableddau Dysgu yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae'r prosiect wedi llwyddo i benodi Rheolwr Prosiect Cyfleoedd Dydd a rhoi hwb i'r broses o adolygu cyfleoedd felly yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae'r Trydydd Sector yn archwilio cyfleoedd fel rhan o'r arolwg hwn er mwyn datblygu modelau menter gymdeithasol. Daethpwyd o hyd i arbedion sylweddol wrth adolygu darpariaeth ddydd y Trydydd Sector.</p> <p>Darparu gwell gwasanaeth Therapi Galwedigaethol. Mae'r prosiect wedi sicrhau gwell gwasanaeth a chyfarpar Therapi Galwedigaethol drwy adolygu pecynnau costus ac achosion sy'n dibynnu ar fwy nag un gofaluwr, er mwyn i ni gael cynnig cyfarpar a chyfleoedd ail-alluogi sy'n addas. Wrth gydweithio yn y modd yma, yr oeddwn hefyd wedi rhoi</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
		<p>cynnig ar batrwm newydd o weithio er mwyn ceisio sicrhau na fyddai cymaint o ymweliadau'n cael eu cynnal eilwaith ar ddamwain gan therapyddion galwedigaethol i ddibenion asesiad cychwynnol. Bu'r patrwm hwn o weithio hefyd o gymorth i arbed arian a gwella profiad cleientiaid am na fydd cymaint o asesiadau bellach yn cael eu cynnal gan wahanol arbenigwyr. Llwyddiant arall oedd trefnu arolwg ychwanegol gan therapyddion galwedigaethol. Bydd hwn yn caniatáu i'r therapydd gydweithio â rheolwyr achosion a mynd ati'n brydlon i adolygu unrhyw bobl ag anabledd corfforol sy'n amlwg yn fwy diogel pan fydd therapydd effro ar gael i'w rhybuddio am unrhyw broblemau sy'n codi neu a allai godi. Am y byddwn yn cyfathrebu'n well ac yn cynnig gwell gwybodaeth erbyn hyn, y mae cleientiaid yn deall y broses yn well ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae'r prosiect wedi sicrhau ein bod yn cydweithio'n agosach â ffisiotherapyddion er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaethau.</p> <p>Datblygu a gweithredu asesiadau integredig sydd wedi'u symleiddio. Mae'r prosiect cydweithredol hwn wedi esgor ar broses asesu integredig a fydd yn cael ei defnyddio gan bob un o'r tri sefydliad partner (Cynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro). Y prif lwyddiant oedd llunio Ffurflen Asesu Cleifion Ysbyty (Integredig) gan y ddau awdurdod ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd ac y mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Bydd ffurflenni asesu'n cael eu gwella a'u datblygu ar hyd yr amser ochr yn ochr â chanllawiau ategol ac y mae ffurflenni Arolwg Asesu Cleifion Ysbyty hefyd yn cael eu datblygu er mwyn hwyluso gwaith adolygu. Mae Cynghorau Caerdydd a'r Fro wedi sefydlu Panel Newid er mwyn cysoni gwaith datblygu a gwella'r ddau awdurdod.</p>
<p>Grant Cyflawni Trawsnewid Mae'r grant hwn yn helpu'r Rhanbarth i ddarparu ar gyfer trawsnewid gofal cymdeithasol.</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p>	<p>Mae'r Grant Cyflawni Trawsnewid yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gallu rheoli sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni trawsnewid yn y rhanbarth. Penodwyd Cyd-reolwr Rhaglenni a fydd yn gyfrifol am oruchwylio prosiectau ar draws Caerdydd a'r Fro ar y cyd â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
		Mae'r gwaith hwn yn helpu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn well ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro.
<p>Cryfhau'r Cysylltiadau Diben Cryfhau'r Cysylltiadau yw helpu i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a hybu integreiddio a chydweithio rhwng llywodraeth leol, GIG Cymru a'i bartneriaid.</p>	Cyngor Caerdydd	<p>Llunio achos busnes ar gyfer asesu dichonolrwydd "Academi Hyfforddi" yw'r prosiect y mae cynghorau'r Fro a Chaerdydd yn ei ddilyn ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd gennym wasanaeth hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff gofal cymdeithasol y rhanbarth yn y pendraw, fel y cânt eu cynorthwyo a'u hyfforddi'n briodol ar gyfer cyflawni eu swyddi'n effeithiol.</p>
<p>Prosiect Ad-drefnu Lleoliad Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn adeiladu ar llwyddiant swyddi presennol cyd-reolwyr drwy ddatblygu model integredig ar gyfer rheoli a darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau lleol y Cyngor.</p>	Bwrdd Iechyd y Brifysgol	Mae timau iechyd a gofal cymdeithasol lleol bellach wedi'u had-drefnu, a rhoddwyd y trefniadau newydd ar waith. Mae hyn yn helpu i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy cyson a gyd-drefnwyd yn well ar gyfer trigolion Bro Morgannwg. Mae gwasanaethau wedi'u symleiddio ac eisoes yn haws eu defnyddio o ganlyniad, a byddwn yn ymateb yn gyflymach i gleifion a defnyddwyr.
<p>Gorfodi Parcio Sifil Mae gwasanaeth ar y cyd ar gyfer gorfodi rheolau parcio bellach ar waith.</p>	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr	<p>Lansiwyd y gwasanaeth ar 1 Ebrill 2013 ac y mae'n gweithio'n dda. Cynhelir cyfarfodydd adolygu a monitro busnes bob mis.</p> <p>Drwy weithio ar y cyd, llwyddwyd i gyflwyno gorfodi parcio sifil i'r Fro yn y ffordd fwyaf effeithiol a diwastraff, a bydd y gwasanaeth yn talu amdano'i hun. Llai o bobl yn anwybyddu rheolau parcio, llai o dagfeydd o ganlyniad i barcio anystyriol, ffyrdd diogelach a llai o gamddefnyddio manau parcio ar gyfer pobl anabl yw rhai o'r manteision hyd yn hyn. Rydym hefyd wedi dysgu gwersi defnyddiol ynglŷn â chydweithio wrth ddilyn y broses a allai fod o gymorth i ni lunio modelau gwasanaethau yn y dyfodol.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<p>Prosiect Gwyrdd Sicrhawyd Cyfleustra Trin Gwastraff Gweddilliol ar y cyd (ar gontract 25 mlynedd) sy'n gwasanaethu pob un o'r 5 awdurdod lleol partner.</p>	<p>Cynghorau Caerffili, Caerdydd, Mynwy a Chasnewydd.</p>	<p>Llofnodi contract ar gyfer trin holl wastraff dinesig gweddilliol y Fro yn y dyfodol. Gallwn bellach roi'r gorau i ddefnyddio safle tirlenwi, ac arbed yr arian sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i dalu'r dreth dirlenwi.</p> <p>Llofnodi contract dros dro ar gyfer trin y gwastraff dinesig gweddilliol a fydd codi yn y Fro yn ystod cyfnod comisiynu'r gwaith. Unwaith eto, bydd modd i ni roi'r gorau i ddefnyddio safle tirlenwi ac arbed arian drwy dalu llai o ffioedd gât ac osgoi talu'r dreth dirlenwi.</p> <p>Er mai yn ystod 2016 y daw'r contract i rym, y mae gwastraff gweddilliol yn cael ei gyfeirio at waith Virridor (Prosiect Gwyrdd) ers Tachwedd 2014, sef bron i 2 flynedd yn gynt nag a drefnwyd, sy'n golygu bod y Cyngor wedi arbed cymaint â £1.6m o arian ychwanegol bob blwyddyn.</p> <p>Mae'r prosiect wedi sicrhau bod y trethdalwr yn cael mwy o werth am ei arian drwy arbedion maint wrth gyfuno gwastraff pum awdurdod lleol a rhannu gwasanaethau a rhwydwaith mewnol.</p>
<p>Gwasanaeth Trin Gwastraff Organig Caerdydd Sicrhawyd gwaith treulio anerobig (ar gontract 15 mlynedd) ar gyfer trin bwyd cegin a gwastraff o'r ardd.</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p>	<p>1 Ebrill 2015 yw'r dyddiad y mae disgwyl i'r contract ddod i rym yn dilyn y broses gaffael.</p> <p>Wedi cychwyn, bydd y cyfleustra'n creu nifer o isgynhyrchion fel deunydd gwella'r pridd a bio-nwy y gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan. Bydd Cyngor y Fro hefyd ar ei ennill o dan y rhan o'r contract sy'n ymwneud â rhannu elw, a bydd hynny yn ei dro'n caniatáu iddo wella gwasanaethau eto ar gyfer ei drigolion.</p>
<p>Cynllunio Brys Bydd Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Leol yn trefnu gwasanaethau cynllunio brys ar sail ranbarthol cyn pen 2 flynedd ac ar y cyd â phartneriaid o asiantaethau amrywiol cyn pen 4 blynedd lle bo hynny'n ymarferol.</p>	<p>Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan</p>	<p>Crëwyd y tîm cynllunio brys ranbarthol ar ffurf model rhithwir. Bydd hwn yn rhoi delwedd o wasanaeth ranbarthol gwydn sydd nid yn unig yn gallu cyfeirio adnoddau at ddigwyddiad lleol yn ôl y gofyn ond hefyd gadw tîm lleol sy'n ystwytho rywfaint ar y Cyngor ac yn dod â gwybodaeth leol iddo.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<p>Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Dyma bartneriaeth drawsffiniol a gynhelir ar y cyd â Chyngor Caerdydd a chydweithwyr o'r sector statudol a'r sector tai â chymorth. Bydd y bartneriaeth yn ystyried blaenoriaethau strategol ar gyfer y rhaglen cefnogi pobl.</p>	<p>Cyngor Caerdydd, y Gwasanaeth Profiannaeth, y Bwrdd Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus, Tai Cymunedol Cymru a Chymorth</p>	<p>Bu'r Pwyllgor yn cyfarfod bob dau fis er mwyn cytuno ar flaenoriaethau rhanbarthol, llofnodi'r cynllun gwario ac adroddiadau referniw alldro ar gyfer y rhanbarth a gyrru agenda Cefnogi Pobl yn ei blaen yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd tri gweithgor er mwyn darparu'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol, gwella mesurau deilliannau gwasanaethau a diwygio gwasanaethau pobl hŷn ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau eu bod wedi'u seilio ar angen yn hytrach na daliadaeth.</p>
<p>Fforwm Tai Datblygu Strategol Mae'r fforwm hwn yn cynnwys swyddogion o'r Fro a chyfarwyddwyr datblygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig amrywiol sy'n gweithredu yn y cyffiniau. Bydd y bartneriaeth yn ystyried ffynonellau nawdd ar gyfer adeiladu tai newydd fforddiadwy yn ystod y blynyddoedd nesaf a rhaglen waith ar gyfer cyflawni hynny.</p>	<p>Cymdeithas Tai Newydd, Cymdeithas Tai Hafod, Cymdeithas Tai Cymru Unedig, Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin</p>	<p>Bydd y bartneriaeth yn cyfarfod bob chwarter er mwyn ystyried y rhaglen bresennol ar gyfer datblygu tai fforddiadwy a chynllunio ar gyfer datblygu yn y dyfodol drwy e.e. ystyried safleoedd, ceisiadau cynllunio a ffrydiau cyllido.</p> <p>Hyd yma, 148 o unedau tai fforddiadwy a gafodd eu datblygu neu'u sicrhau yn y Fro ar gyfer pobl anghenus yn ystod 2014/15. 94 o'r rhain a ariannwyd drwy Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys 42 o gartrefi ar gyfer pobl 55 oed ac yn hŷn yng Nghynllun Gofal Ychwanegol cyntaf y Fro, a agorodd ym Medi 2014. Darparwyd 32 o gartrefi eraill o dan amodau 'mantais gynllunio' a gynigiwyd ar y cyfan fel rhan o ddatblygiad masnachol, ac yr oeddynt yn cynnwys tai gosod cymdeithasol yn ogystal â thai a gynigiwyd am 70% o'u gwerth ar y farchnad drwy gynllun Mynnu Prynu'r Cyngor. Heb y cymorth hwn, ni allasai'r bobl hyn fforddio cael troedle o gwbl ar yr ysgol dai.</p> <p>16 o gartrefi fforddiadwy parod i'w gosod ar rent a ddarparwyd gan ddefnyddio nawdd o Bartneriaeth Tai Cymru. Cafodd y 6 uned sy'n weddill eu datblygu heb unrhyw gymorth cyfalaf, a'u defnyddio fel tai â chymorth 24 awr ar gyfer pobl ifanc, fregus, a rhai a fu dan ofal yr awdurdod a oedd am gael help i ddysgu sgiliau byw newydd er mwyn gallu byw'n annibynnol.</p>

Disgrifiad o'r prosiect	Partneriaid	Cynnydd a llwyddiant hyd yma
<p>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bro Ddiogelach</p> <p>Partneriaeth amlasiantaethol yw hon sy'n pennu cyfeiriad strategol gwaith ym maes diogelwch cymunedol yn y Fro. Bydd partneriaid o Heddlu De Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Iechyd a'r sector gwirfoddol yn cyfarfod er mwyn trafod gwybodaeth am reoli perfformiad sy'n berthnasol i ddiogelu cymunedau, a hefyd yn trin unrhyw newid polisi sy'n codi ynglŷn â deddfu yn y maes.</p>	<p>Yr Awdurdod Lleol, Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, y Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r Sector Gwirfoddol</p>	<p>Yn ystod 2014/15, buom yn cydweithio â phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol, drwy ymyrryd i drin achosion penodol a hybu diogelwch yn y gymuned. Buom hefyd yn cydweithio'n ymarferol â thrigolion ar draws y Fro i drin problemau diogelwch yn y gymuned, gan ddefnyddio ein cerbyd arbennig 'TREV', a bu'r gwaith hwnnw'n sail i nifer o weithrediadau penodol yn ystod y flwyddyn. Bu'r rhain o gymorth i leihau nifer yr achosion o yfed a gwerthu alcohol tan oed ac i greu cymdogaethau glanach a diogelach. Dyma rai o'r camau a gymerwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Heol Holton yn Y Barri'n lle gwael am ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith yr ifainc ers tro byd. Mannau fel y llyfrgell gyhoeddus a'r maes parcio aml-lawr sy'n codi'r pryder mwyaf ar yr Uned Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Aethom ati fel partneriaeth i drin ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y manau hyn drwy drefnu gwaith fel y tacluso mawr yn lôn gefn Heol Holton, er enghraifft, lle bu partneriaid o'r Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, yr Uned Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, y Gwasanaeth Profiannaeth, busnesau lleol a gwasanaethau ieuenctid yn symud ysbwriel a glanhau graffiti. • Yn ystod 2014/15, sefydlwyd Panel Sianelu'r Fro er mwyn dod o hyd i bobl fregus sy'n arddel neu'n gweithredu'n ôl daliadau eithafol, a sianelu eu hegni i gyfeiriad arall. • Bu'r gwaith ar y cyd â phartneriaid ar gyfer lleihau nifer yr achosion o yfed alcohol tan oed yn llwyddiannus, a phrofwyd bod nifer o safleoedd trwyddedig yn gwerthu alcohol i gwsmeriaid tan oed ar sail y wybodaeth a gasglwyd ar draws y Fro.

<p>Partneriaeth Strategol Trais yn y Cartref</p> <p>Partneriaeth amlasiantaethol o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Atal y Fro yw hon. Mae'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth gadarn ar gyfer trin ac atal trais yn y cartref ym Mro Morgannwg. Bydd yn cydweithio â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod partneriaid yn ymateb i ofynion deddf newydd trais yn y cartref.</p>	<p>Atal Y Fro, Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC), Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Tân a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.</p>	<p>Mae strategaeth ar gyfer atal trais yn y cartref yn cael ei dilyn eisoes. Mae Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Sophie Howe, wedi cytuno i ddod i gyfarfodydd y bartneriaeth bob chwarter.</p> <p>Mae ein gwaith ar y cyd â phartneriaid yn parhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer diogelu rhai a fu'n dioddef trais yn y cartref. Rydym wedi cofnodi gwasanaethau presennol, a hefyd weithredu'n benodol er mwyn atal trais rhag digwydd yn y lle cyntaf.</p> <p>Derbyniodd Bro Ddiogelach statws y Rhuban Gwyn ar ddiwedd mis Medi, yn y Senedd yng Nghaerdydd. Lansiodd Cyngor Bro Morgannwg ei statws Rhuban Gwyn yn llwyddiannus ar 10 Rhagfyr, ar y cyd ag asiantaethau partner Atal y Fro, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân De Cymru a'r Gwasanaeth Profiannaeth.</p> <p>Cwblhaodd grŵp cyntaf 'Taith y tu Hwnt i Drais' ei holl sesiynau'n llwyddiannus, a bydd y grŵp nesaf yn dechrau ym Medi 2015. Rhoi cymorth addysgol i rai a fu'n dioddef trais dan ddwylo cymar yw diben y grwpiau hyn.</p> <p>Cytunwyd ar flaenoriaethau a nawdd ar gyfer y bartneriaeth am y flwyddyn 2015/16, a symudodd tîm diogelwch cymunedol o Orsaf Dân Y Barri i Orsaf Heddlu'r Barri. Cynhaliwyd diwrnod datblygu amlasiantaethol ar y cyd â phartneriaid ar ddeddfwriaeth ym maes Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a bu arolwg ar berfformiad hefyd yn ystod y chwarter cyntaf (ym mis Gorffennaf 2015) yn unol â'r trefniadau monitro.</p>
---	---	--

<p>Partneriaeth Strategol Cynhwysiant Ariannol</p> <p>Mae hon yn un o dair partneriaeth wrthdlodi, a'i gwaith yw datblygu strategaeth gadarn ym maes cynhwysiant ariannol. Y partneriaid yw'r Ganolfan Gynghori, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, cynrychiolwyr sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Bro Morgannwg a chyffwrdd eraill yn y sector gwirfoddol.</p>	<p>Yr Awdurdod Lleol, Canolfan Gynghori Caerdydd a'r Fro, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, Age Connects, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Banc Bwyd y Fro, Swyddfa Jane Hutt AC, Cymdeithas Tai Newydd, Cymdeithas Tai Hafod, Adran Gwaith a Phensiynau, Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg, Canolfan Gydweithio Cymru</p>	<p>Bydd y bartneriaeth yn cyfarfod bob chwarter. Ei rôl ar y dechrau oedd pwysu a mesur goblygiadau diwygio'r system les, a chymryd camau i liniaru ar yr effaith. Yn ystod y chwe mis diwethaf, ehangwyd ei chylch gwaith i gynnwys pob agwedd ar ei faes sy'n berthnasol i gynhwysiant ariannol. Cynhaliwyd gweithdy ar 13 Mawrth 2015 er mwyn ystyried yr amcanion a'r blaenoriaethau strategol sy'n berthnasol i'r agenda hon.</p> <p>Mae Cyngor y Fro wedi mabwysiadu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol erbyn hyn. Mae'r strategaeth honno'n nodi'r prif broblemau yn y Fro ac ymateb strategol i bob un ohonynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod trigolion/teuluoedd yn y Fro'n manteisio ar gymorth a chyngor priodol ar gyfer gwrthsefyll effaith tldi, rheoli arian, manteisio ar wasanaethau ariannol ac aros yn gadarn.</p>
<p>Consortium Prynu Cymru</p> <p>Mae'r Consortium yn darparu pob math o gymorth ar gyfer ei aelodau - e.e. trefniadau ar gyfer prynu ar y farchnad sydd wedi sicrhau gweithredu mwy effeithlon ac arbed arian sylweddol, rhannu'r ymarfer gorau a llunio a mabwysiadu set o ddogfennau safonol ynglŷn â phrynu.</p>	<p>19 o awdurdodau lleol Cymru</p>	<p>Drwy berthyn i Gonsortium Prynu Cymru, gall y Cyngor fanteisio ar drefniadau sy'n ei helpu i sicrhau arbedion 'cyniladwy' ac arbedion 'proses' ym mhob agwedd ar ei waith, drwy weithredu'n fwy effeithlon. Sicrhawyd arbedion 'cyniladwy' gwerth £369,000 ym maes ynni yn ystod 2014/15, er enghraifft.</p> <p>Yn ogystal ag arbed arian, bydd cydweithio hefyd yn dod ag 'arbedion proses' sef cyfle, er enghraifft, i arbed amser drwy osgoi ailadrodd gwaith wrth gynnal prosesau cystadleuol.</p>